THE JAMES PANTYFEDWEN FOUNDATION (YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN)

England & Wales · Charity number 1069598

Details

Status	Registered
Legal form	Other
Registered	1998-05-18
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	Pantyfedwen 9 Stryd Y Farchnad Aberystwyth Ceredigion SY23 1DL
Phone	01970612806
Email	post@jamespantyfedwen.cymru
Website	www.jamespantyfedwen.cymru

Activities

Objects: THE ADVANCEMENT, ENCOURAGEMENT AND PROMOTION OF RELIGION, EDUCATION, THE ARTS AND AGRICULTURE AND OTHER CHARITABLE PURPOSES FOR THE BENEFIT OF WELSH PERSONS PRIMARILY IN WALES

Activities: Amcanion yr Elusen fydd hybu a hyrwyddo crefydd, addysg, y celfyddydau ac amaethyddiaeth a phwrpasau elusennol eraill er budd pobl Cymru. The objects of the Charity shall be the advancement, encouragement and promotion of religion, education, the Arts and agriculture and other charitable purposes for the benefit of Welsh persons primarily in Wales.

Classification

- **How:** Makes Grants To Individuals, Makes Grants To Organisations
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, Religious Activities, Arts/culture/heritage/science
- **Who:** Children/young People, The General Public/mankind

Downloaded from opencharities.uk/ew/1069598

Geography

- **Area of benefit:** WALES
- Throughout Wales

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£623,252	£719,414	£16,895,160	2
2024-03-31	£615,897	£735,512	£17,054,051	2
2023-03-31	£588,105	£631,650	£16,720,087	2
2022-03-31	£543,838	£739,908	£17,371,361	2
2021-03-31	£504,103	£589,817	£16,826,852	2

Trustees

Name	Role	Appointed
GWERFYL PIERCE JONES	Chair	2012-10-01
Alun Charles		2016-07-28
Amanda Roberts		2022-07-21
DR ERYN WHITE BA, PHD		
Dr EURFYL AP GWILYM		2020-07-24
Dr Thomas Hefin Jones		2024-03-21
Dr William Rhidian Morris Griffiths		
JANE AARON		2015-07-01
Kevin Michael Holland		2022-03-23
Sian Lloyd Jones		2019-03-20
Stephen Forster		2024-07-25
WILLIAM GWYN JONES		2022-11-24
WYN PENRI JONES		2013-07-25

Downloaded from opencharities.uk/ew/1069598

THE JAMES PANTYFEDWEN FOUNDATION (YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN)

England & Wales - Charity number 1069598

Accounts

Adroddiad Blynyddol

1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

Ymddiriedolwyr 2024–25

Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)

Yr Athro Jane Aaron

Dr Eurfyl ap Gwilym

R Alun Charles

Stephen Forster (etholwyd Gorffennaf 2024)

Y Parchedig Melda Grantham

Dr Rhidian Griffiths

Yr Athro Kevin Michael Holland

Y Parchedicaf Andy John, Archesgob Cymru (hyd at Orffennaf 2024)

W Gwyn Jones

Dr Hefin Jones

Siân Lloyd Jones

Wyn Penri Jones

David Gwynder Lewis (hyd at Orffennaf 2023)

Y Parchedig Judith Morris

Y Parchedig Nan Powell-Davies

Y Parchedig Dyfrig Rees

Amanda Roberts

Gethin Thomas

Dr Eryn White

Ysgrifennydd Gweithredol	Gwenan Creunant
Cynorthwywyr gweinyddol	Lynwen Huxtable
Bancwyr	HSBC cyf
Archwilwyr	PJE Audit Services Ltd (Aberystwyth)
Rheolwyr Buddsoddi	Cwmni Evelyn Partners (Lerpwl)
Swyddfa	Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, SY23 1DL
	Ffôn: (01970) 612806
	E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru
	Gwefan: www.jamespantyfedwen.cymru

Hanes

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar y 1af o Ebrill 1998 wrth uno'r ddwy ymddiriedolaeth flaenorol – Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (sefydlwyd yn 1967). Syr D J James oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymddiriedolaethau hyn er cof am ei rieni, ei wraig a'i frawd, a'i amcan oedd creu gwaddol parhaol a fyddai o fudd i Gymru a'i phobl. Llwyddwyd i gynnwys holl ddibenion yr ymddiriedolaethau gwreiddiol yng nghyfansoddiad yr ymddiriedolaeth newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gwireddu'r amcanion gwreiddiol drwy gefnogi'r grwpiau canlynol o fuddiolwyr:

- myfyrwyr uwchraddedig o Gymru sy'n astudio am radd Feistr neu PhD;
- capeli neu eglwysi unigol sy'n dymuno gwella neu drwsio'r adeilad, gan roi blaenoriaeth i welliannau sy'n ymwneud â phrosiectau cenhadol neu gymunedol, neu eglwysi a chapeli sy'n dymuno prynu a gosod offer digidol neu gerddorol i hybu'r gwaith a'r genhadaeth;
- eisteddfodau cenedlaethol a lleol;
- gweithwyr Cristnogol sy'n dymuno gwneud cyrsiau dwys fydd yn datblygu eu gwaith a'u cenhadaeth;
- cyhoeddiadau ym maes diwinyddiaeth, crefydd neu athroniaeth.

Ymddiriedolwyr

Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan bedwar ar bymtheg o Ymddiriedolwyr, chwech ohonynt yn Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi, ac yn cynrychioli gwahanol enwadau yng Nghymru (yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undodwyr Cymru) ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Ceir hefyd dri ar ddeg o Ymddiriedolwyr Cyffredin.

Ym Mis Gorffennaf 2024, apwyntiwyd Stephen Forster i ymuno â'r Ymddiriedolwyr yn dilyn ymddeoliad David Gwynder Lewis. Mae gan Stephen brofiad helaeth ym maes cyllid o fewn amrywiol sefydliadau preifat a chyhoeddus; mae ei swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau Corfforaethol Coleg Barnet a Southgate yng ngogledd Llundain, Is-Brifathro yn gyfrifol am Wasanaethau Gwybodaeth Gyllidol ac Ystadau yng Ngholeg Alton, Swydd Hampshire, a Rheolwr Hŷn cwmni Pricewaterhouse Coopers LIP y Deyrnas Gyfunol. Mae Stephen yn byw yn Aberystwyth, a bydd ei arbenigedd yn gaffaeliad i Bwyllgor Gweithredol James Pantyfedwen.

Mae Archesgob Cymru yn Ymddiriedolwr yn rhinwedd ei swydd, ond yng Ngorffennaf 2024, penderfynodd y Parchedicaf Andy John ymddiswyddo o'r Pwyllgor Ceisiadau oherwydd galwadau gwaith a'i fethiant i fynychu cyfarfodydd.

Cyllid a Buddsoddiadau

Bu'r flwyddyn ariannol 2024-25 eto'n ddigon heriol ac ansicr i'r marchnadoedd arian, ac yn enwedig felly yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, a phenderfyniadau a chyhoeddiadau diweddaraf gweinyddiaeth yr Arlywydd Trump yn yr Unol Daleithiau. Pery rhyfeloedd yn Wcráin ac yn Gaza, mae chwyddiant wedi cyfyngu gallu Banc Lloegr i dorri cyfraddau llog i 0.27% yn unig yn ystod y flwyddyn, a gwelwyd problemau pellach yn y cronfeydd isadeiledd ac adnewyddadwy. Er bod y Rheolwyr Buddsoddi wedi gwneud nifer o newidiadau o fewn y portffolio yn dilyn penderfyniad yr Ymddiriedolwyr ym Mawrth 2024 i ganiatau mwy o fuddsoddi dramor, symud yn ofalus iawn yw penderfyniad y cwmni, gan olygu fod y portffolio'n parhau'n bositif tua diwedd y flwyddyn ariannol. Erbyn 31 Mawrth 2025, roedd Prif Gronfa'r Ymddiriedolaeth yn werth £15,020,980, a'r Gronfa Wrth Gefn yn werth £1,377,819, cyfanswm gwerth £16,398,799 felly (2024: £16,563,698).

Roedd yr incwm a dderbyniwyd o fuddsoddiadau yn ystod 2024-25 yn debyg iawn i'r hyn a dderbyniwyd yn 2023-24; derbyniwyd cyfanswm o £587,780, o'i gymharu â £584,521 y flwyddyn flaenorol. Daw rhywfaint o incwm blynyddol hefyd o daliadau rhent gan Awdurdod Iechyd Hywel Dda ac o logi'r ystafelloedd pwyllgor ar gyfer cyfarfodydd. Ond mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn fod costau ar gynnydd ac angen parhaus am fwy o incwm er mwyn sicrhau digon o gyllid i ddosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau syn pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau mewn cytundeb gyda Rheolwyr Buddsoddi Evelyn Partners o dan y model rheoli dewisol a gytunwyd i'w weithredu yn 2016.

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestru'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn flynyddol a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2024.

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £514,544 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £503,450 mewn grantiau. Talwyd y grantiau isod:

Adeiladau Crefyddol	£61,000.00	Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr)	£342,939.00
Offer ac Adnoddau	£7,725.00	Eisteddfodau	£79,786.00
		Urdd Gobaith Cymru	£12,000.00
			£503,450.00

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwys (adeiladau, offer ac adnoddau) ac Eisteddfodau fel atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 79 o fyfyrwyr uwchraddedig o Gymru i'w cynorthwyo gyda ffioedd dysgu cyrsiau Meistr a PhD, hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Rhestr y grantiau dalwyd i adeiladau eglwysig yn ystod 2024/25

Yr Eglwys yng Nghymru	Eglwys Sant Twrog, Llanddarog	£4,000.00
	Eglwys Bettws Newydd, Brynbuga	£3,000.00
	Eglwys Sant Madryn, Trawsfynydd	£2,000.00
	Eglwys y Santes Fair, Minera	£1,000.00
	Eglwys y Santes Fair, y Waun	£2,000.00
		£11,000.00
Annibynwyr	Capel Jerusalem, Porth Tywyn	£3,000.00
		£3,000.00
Bedyddwyr	Eglwys Fedyddiedig York Place, Abertawe	£8,000.00
		£8,000.00
Presbyteriaid	Capel Bethel, Melin-y-Coed	£2,000.00
	Canolfan Glanhwfa, Llangefni	£12,000.00
		£14,000.00
Eglwysi Eraill	Eglwys Bentecostal Tabernacl, Rhymni, Caerdydd	£3,000.00
	Eglwys yr 21G, Ffwrnes, Llanelli	£12,000.00
	Eglwys Efengylaidd Annibynnol Bethesda, Caerdydd	£10,000.00
		£25,000.00

Rhestr y grantiau dalwyd i eglwysi ar gyfer offer ac adnoddau yn 2024/25

Presbyteriaid	Capel Bronant	£1,000.00
	Capel Sychnant	£625.00
	Eglwys Seion a Bryneglwys, Corwen	£1,000.00
		£2,625.00
Annibynwyr	Capel Maen y Groes, Cei Newydd	£400.00
	Capel Elim, Ffynnon-ddrain	£600.00
		£1,000.00
Bedyddwyr	Capel y Graig, Castell Newydd Emlyn	£1,500.00
	Capel y Tabernacl, Caerdydd	£2,000.00
	Prosiect Cenhadol Rhwyd y Brenin	£600.00
		£4,100.00

Rhestr y grantiau a dalwyd i Eisteddfodau yn 2024/25

Eisteddfod Fach Capel Dewi, Caerfyrddin	£84.00	Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni	£358.00
Eisteddfod Dyffryn Elwy	£95.00	Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint	£374.00
Eisteddfod Llanarth	£98.00	Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd (2024)	£382.00
Eisteddfod Bryngwenith (2024)	£107.00	Eisteddfod Llandderfel	£399.00
Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos	£122.00	Eisteddfod Capel Cenarth	£402.00
Eisteddfod Bryngwenith (2025)	£127.00	Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd (2025)	£404.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog	£177.00	Eisteddfod y Ffôr	£437.00
Eisteddfod Capel y Groes	£185.00	Eisteddfod Llanuwchllyn	£446.00
Eisteddfod Heol Senni	£191.00	Eisteddfod Talgarreg	£453.00
Eisteddfod Garndolbenmaen (2025)	£194.00	Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl	£461.00
Eisteddfod Aelhaearn	£197.00	Eisteddfod Trallong	£500.00
Eisteddfod Stesion, Trawsfynydd	£208.00	Eisteddfod Llanfachreth	£500.00
Eisteddfod Garndolbenmaen (2024)	£212.00	Eisteddfod Castell Newydd Emlyn	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen	£227.00	Eisteddfod Tregaron	£500.00
Eisteddfod Felinfach	£232.00	Eisteddfod Llangadog a'r Cylch	£500.00
Eisteddfod Dihewyd	£237.00	Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst	£500.00
Eisteddfod Pandy Tudur	£239.00	Eisteddfod y Cymoedd, Ystrad Mynach	£500.00
Eisteddfod Bethel, Melin-y-Coed	£245.00	Eisteddfod Cwmystwyth	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	£257.00	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£500.00
Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	£260.00	Eisteddfod Bro Aled, Llansannan	£500.00
Eisteddfod Llanrhaeadr ym Mochnant	£269.00	Eisteddfod y Rhondda	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	£269.00	Eisteddfod Ryngolegol Aberystwyth	£500.00
Eisteddfod Abergorlech	£279.00	Eisteddfod Môn	£1.094.00
Eisteddfod Bethel a'r Cylch	£296.00	Eisteddfod Ffermwyr Ifainc Cymru	£2,000.00
Eisteddfod Chwilog	£304.00	Eisteddfod Teulu James, Pontrhydfendigaid	£8,200.00
Eisteddfod Gadeiriol Crymych	£306.00	Eisteddfod Rhys Thomas James, Llambed	£10,000.00
Eisteddfod yr Hen Gapel, Llanbrynmair	£315.00	Gŵyl Fawr Aberteifi	£10,000.00
Eisteddfod yr Hendy	£316.00	Eisteddfod Ryngwladol Llangollen	£12,000.00
Eisteddfod Penrhyn-coch	£332.00	Eisteddfod Genedlaethol Cymru	£20,000.00
			£79,786.00

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dur a Môr 2025	£12,000.00
	£12,000.00

Grantiau i FYFYRWYR

Mae'r nifer o geisiadau am grantiau myfyrwyr yn parhau'n uchel, a derbynnir tua 300 o geisiadau am gymorth yn flynyddol bellach. Yn ystod 2024–25, llwyddwyd i roi cymorth i 79 o fyfyrwyr uwchraddedig er mwyn cyfrannu at eu ffioedd dysgu Meistr neu PhD mewn amrywiol brifysgolion a cholegau ledled Cymru a thu hwnt. £5,000 yw'r uchafswm o grant a gynigir i unrhyw unigolyn, a rhaid i o leiaf 75% o grantiau myfyrwyr Pantyfedwen gael eu dosbarthu ymhlith myfyrwyr sy'n bwriadu astudio ym mhrifysgolion Cymru.

DETHOLIAD O'R ADRODDIADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD 2024/25

Gellir gweld mwy o lawer ohonynt ar wefan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen: www.jamespantyfedwen.cymru.

Lleucu Parri

MMus Perfformio (FFLIWT)
Coleg Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd

Mae fy amser yn astudio ar gyfer fy ngradd MMus Perfformio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi bod yn arbennig o fuddiol a gwerth chweil i mi. Rwy'n hynod ddiolchgar am yr ysgoloriaeth a dderbyniais er mwyn fy ngalluogi i ymroi fy amser i ddatblygu fy nghrefft gerddorol a bod y ffliwtydd gorau y gallaf fod.

Mae nifer o uchafbwyntiau i'm cyfnod yn CBCDC, yn cynnwys chwarae gyda Cherddorfa Symffoni y Coleg yn perfformio Ail Symffoni Rachmaninov, arwain yr adran ffliwtiau ar gyfer Ail Symffoni Sibelius, a chydweithio â'r adrannau Drama, Cynllunio a Chyfansoddi fel rhan o ensemble 3 darn ar y llwyfan ar gyfer perfformiadau o 'A Christmas Carol'. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr holl diwtora yr wyf wedi'i dderbyn yn ystod fy nghyfnod yn y Coleg a oedd yn cynnwys dosbarthiadau perfformio, corau ffliwt a dosbarthiadau meistr, ond yn fwy na dim fy ngwersi unigol gyda fy athrawon ysbrydoledig Roger Armstrong, John Hall a Sarah Bennington. Unwaith eto, diolch yn fawr.

William Kingshott

MA Cyfarwyddo, Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin

Fe fydda i o hyd yn ddiolchgar i James Pantyfedwen am roi grant i mi gwblhau fy ngradd Meistr mewn Cyfarwyddo (ar gyfer llwyfan) ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Wrth fynychu'r cwrs, fe gefais i lawer o brofiadau gwych, o fewn a thu allan i'r brifysgol. Mi wnaeth y cwrs helpu fi ddatblygu fy sgiliau yn fawr iawn, i allu wedyn camu mewn i'r diwydiant efo hyder a phrofiadau gwerth chweil.

Roedd y flwyddyn gyntaf o'r cwrs yn seiliedig ar ymchwilio llawer o ddramâu gwahanol, ymarferwyr theatr ac awduron theatr i ehangu fy nealltwriaeth a'm gwybodaeth am fyd theatr. Wedyn, roedd yr ail flwyddyn o'r cwrs yn seiliedig ar roi'r gwaith ymchwil ar ei draed a chreu cynyrchiadau effeithiol wrth i mi ddechrau siapio fy steil cyfarwyddo. Ers gorffen y cwrs, rwyf wedi gwneud pob math o weithdai a sioeau gwahanol ac wedi cymryd rhan mewn cynyrchiadau sydd wedi trafaelio i Theatr y Sherman (Caerdydd), Galeri (Caernarfon), Yr Egin (Caerfyrddin) a Torch Theatre (Milford Haven).

Fyddwn i ddim wedi cael y profiadau na'r hyder i wneud yr holl waith yma pe na bawn wedi gallu cwblhau fy ngradd Meistr gyda help gan James Pantyfedwen, a dyna pam y byddaf o hyd yn ddiolchgar iddyn nhw. Diolch!



Cadi Gwyn Evans

MSc Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus Rhyngwladol

Hoffwn ddiolch o waelod calon i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am eu cymorth ariannol hael a alluogodd i mi gyflawni fy nghwrs Meistr MSc mewn Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus Rhyngwladol (Datblygiad) yn y London School of Economics.

Cefais agoriad llygaid i nifer o bynciau gwahanol yn ymwneud â datblygiad rhyngwladol gan gynnwys tlodi, newid hinsawdd, rhyfel ac yn y blaen, a chefais flas ar ddadansoddi ymchwil sy'n berthnasol i waith polisi byd-eang. Testun fy nhraethawd hir oedd oblygiadau cyfiawnder gormes yr Uyghur yn rhanbarth Xinjiang, Tseina. Yn benodol, penderfynais ganolbwyntio ar gadwyni cyflenwi solar, gan ystyried y cymhlethdodau sy'n codi o'r angen i newid systemau egni'r byd i fod yn fwy gwyrdd, tra, ar yr un pryd sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hamddiffyn. Rydw i'n hynod o ddiolchgar am y cyfle i fynd o dan groen pwnc cudd a chymhleth mewn modd mor fanwl, ac rydw i bellach yn chwilio am swydd yn y maes.

Rhys James Jenkins

PhD Llenyddiaeth Saesneg Prifysgol Birmingham

Hoffwn ddiolch i ymddiriedolwyr James Pantyfedwen am eu haelioni. Caniataodd y grant i mi barhau â'm hail a'm trydedd flwyddyn o ymchwil PhD yn Adran Llenyddiaeth Saesneg Prifysgol Birmingham.

Mae fy nhraethawd ymchwil gorffenedig yn ystyried barddoniaeth a ffuglen 'Weird-Gothic' HP Lovecraft o 1890 i 1934, gan ganolbwyntio ar ei olygfeydd hiliol byd-eang fel y'i mynegir trwy gariad at fytholeg Groeg a Rhufain. Mae'r ymchwil hwn, sy'n tynnu ar fy ngraddau blaenorol yn y Clasuron a Hanes yr Henfyd, yn ymgysylltu â Derbyniad Clasurol a rhyngdoriad genre o fewn gweithiau Mythopoetig a Neoglasurol ac yn cynnwys astudiaeth fanwl o gyfoeswyr a dylanwadau Lovecraft, megis Alexander Pope, Arthur Machen, Edgar Allan Poe, T.S. Eliot, a J.R.R. Tolkien.

Caniataodd grant yr Ymddiriedolaeth i mi wneud yn fawr o gyfleoedd eraill yn y byd academaidd - dysgu darlithoedd a seminarau yn y Brifysgol, profiad archifol ymarferol ar daith ymchwil i Brifysgol Brown yn Providence, Rhode Island, a chyd-sefydlu a chyfarwyddo Rhwydwaith Diwylliant Poblogaidd Canolbarth Lloegr. Bu'r nawdd yn amhrisiadwy - diolch yn fawr.

Grantiau i EGLWYSI

Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn parhau i gefnogi eglwysi a chapeli ledled Cymru sy'n gwella ac adnewyddu eu hadeiladau. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i geisiadau lle mae'r gwaith yn gysylltiedig â datblygu bywyd a gwaith cenhadol yr eglwys ac ymwneud yr eglwys â'r gymuned o'i chwmpas. Bu'n gyfnod heriol iawn i eglwysi wrth iddynt geisio ymdopi â gwaddol y pandemig, a nifer fawr ohonynt yn llwyddo i feddwl mewn ffyrdd gwahanol am addoli a chadw cysylltiad â chynulleidfa a chymuned. Cytunodd Ymddiriedolwyr Pantyfedwen i gynnig grantiau bychain i helpu eglwysi i brynu offer neu adnoddau newydd er mwyn datblygu'r elfennau yma o'u gwaith, a chafwyd nifer o geisiadau am gymorth i brynu offer digidol a sgriniau a chyfrifiaduron.

Isod hefyd ceir blas o'r prosiectau a gwblhawyd – ar adeiladau ac o ran prynu offer ac adnoddau. Mae manylion pellach amdanynt i gyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth: www.jamespantyfedwen.cymru.

Capel Croesgoch, Hwlffordd

Roedd Capel Croesgoch yn awyddus i ail-wneud yr ysgoldy sydd ar yr un safle â'r capel, gyda'r bwriad o ail-blastro'r waliau, adeiladu toiledau newydd gydag un hygyrch i'r anabl, ac adnewyddu'r gegin. Y nod oedd creu lle cyfforddus a chynnes ar gyfer addoli, a chreu hwb cymunedol ar gyfer unigolion yn yr ardal, ar gyfer paned, sgwrs a man clyd.

Bellach, mae'r neuadd ar ei newydd wedd, yn cael ei defnyddio gan y capel a'r gymuned. Mae'r lluniau yn dangos Capel Croesgoch, ac enghraifft o'r arddangosfa o waith y gwragedd dros y misoedd diwethaf ar y thema "Adeiladaf fy Eglwys".

Capel y Tabernacl, Caerdydd

Roedd Capel y Tabernacl Caerdydd yn awyddus iawn i osod sgrîn fawr ddigidol y tu allan i'r capel sydd wedi'i leoli yn yr Aes ynghanol y ddinas. Wedi llawer o amrywiol rwystrau o ran caniatâd cynllunio a dosbarthiad y sgrîn, fe ddaeth popeth i law yn y pen draw a llwyddwyd i'w osod mewn lle cyn Nadolig 2024.

Mae'r sgrîn yn arf defnyddiol i hysbysebu ein gweithgareddau wythnosol, achlysuron arbennig a hefyd i hybu'r Ganolfan Glyd sy'n cynnig bwyd i'r difreintiedig a'r digartref yn y ddinas.

Mae'r sgrîn yn fyw o 7 y bore tan 10 yr hwyr i gyd-ffurfio gydag amodau ein caniatâd cynllunio. Mae'r sgrîn yn tynnu sylw pobl sydd yn tramwyo'r Aes at y saith neu wyth tudalen sydd yn cael ei gyflwyno yn rheolaidd gyda manylion am weithgareddau, adnodau a chysylltiadau'r eglwys.

Eglwys Santes Fair, Y Waun

Roedd Eglwys y Santes Fair, y Waun, yn awyddus i adnewyddu'r chwe chloch bresennol, a phrynu dwy gloch arall i gwblhau'r wythfed, a derbyniwyd grant gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen i helpu gyda'r costau. Mae'r aelodau wrth eu bodd gyda'r gwaith a wnaed, ac ar ddechrau mis Mehefin 2025, "cynhaliodd yr eglwys wasanaeth dyrchafol a llawen iawn i fendithio ac ail-gysegru'r clychau, gwasanaeth a fynychwyd gan dros gant o bobl. Yn ystod yr wythnos ganlynol, aeth y clochydd ati, gyda chymorth gwirfoddolwyr brwdfrydig, i hongian y ddwy gloch newydd a'r chwe chloch arall."

Mae teledu cylch cyfyng hefyd wedi'i osod yn y clychau ac yn yr Ystafell Ganu, a hyn yn ei gwneud hi'n bosibl gweld y clychau a'r clochyddion ar waith – heb orfod dringo grisiau'r tŵr!

Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau. "Mae cefnogaeth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddod â'r prosiect i ben ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich diddordeb a'ch cefnogaeth."

Eglwys Elim, Ffynnon-Ddrain

Roedd Capel Elim, Ffynnon-ddrain, Caerfyrddin, yn awyddus iawn i brynu a gosod sgriniau mawr yn y capel fel rhan o brosiect i ehangu gweinidogaeth a chenhadaeth ddigidol yr eglwys. Roedd yr eglwys newydd ddod yn rhan o ofalaeth newydd y Parchedig Beti-Wyn James a hithau'n gyfarwydd iawn â defnyddio'r offer ymhob capel arall yn yr ofalaeth.

Wedi casglu'r arian, aed ati yn ddi-ymdroi i brynu a gosod yr offer, ac mae'r sgriniau bellach yn eu lle ac yn cael defnydd da ac effeithiol.

Maent yn cyflwyno elfen weledol i'r oedfa, yn cynnig cyfleoedd newydd i arbrofi gyda threfn a phatrwm addoliad, ac yn cyflwyno elfennau newydd a ffres i'r addoliad.

"Ein gweledigaeth yw y bydd hyn oll yn sicrhau addoliad bywiog ar gyfer holl genedlaethau'r eglwys, mewn cyd-destun oedfa ac Ysgol Sul. Gallwn eich sicrhau y gwnawn ddefnydd da ac ystyrlon o'r offer. Fe'i gwelwn fel cyfrwng effeithiol yn ein dwylo i adfywio'r eglwys wrth gamu ymlaen i'r dyfodol."

Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2024

Cynhaliwyd Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2024 yng Nghanolfan Morlan Aberystwyth fis Ebrill 2024, a chafwyd y fraint arbennig o groesawu'r Athro Virginia Gamba i'w thraddodi. Yn wreiddiol o Buenos Aires, bu Virginia Gamba yn astudio ym Mhrifysgol Newcastle upon Tyne ac Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth, cyn cael gyrfa hir ac amrywiol ym maes heddwch a diogelwch a materion diarfogi, a hynny yn Llundain, Affrica, Chicago a'r Ariannin. Bellach, hi yw Cynrychiolydd Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Blant a Gwrthdaro Arfog.

Teitl y ddarlith oedd **Building Connections for the Common Good: Dialogue and Trust in the Pursuit of Peace**, a chafwyd orig wirioneddol ysbrydoledig yn gwrando arni'n rhannu ei phrofiadau yn trafod gyda phob math o fudiadau a llywodraethau drwy'r byd, gan gynnwys mewn lleoedd fel Irac, Yemen a Phalestina. Ei nod yw ceisio dwyn perswâd ar grwpiau i newid ymddygiad, a hynny drwy wrando, defnyddio hiwmor, a cheisio darganfod tir cyffredin er mwyn gallu symud ymlaen tuag at heddwch. Cysylltodd ei neges â gwerthoedd a chenhadaeth Pantyfedwen a'r Morlan: creu gofodau i drafod a chreu cymuned, cefnogi addysg a sefydliadau crefyddol, celf a chelfyddyd.

Bydd ei neges, ei harddeliad, ei hegni a'i brwdfrydedd dros gyfiawnder a heddwch yn aros yn y cof yn hir iawn. Mae testun y ddarlith a recordiad ar wefan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen: https://www.jamespantyfedwen.cymru

Adeilad Pantyfedwen

Mae'n hyfryd cael croesawu nifer o unigolion a sefydliadau i Bantyfedwen – ar gyfer pwyllgorau neu gynadleddau neu ar gyfer cyfarfod i gydweithio am fore neu ddiwrnod. Mae Ystafell Tom Jones yn gallu dal hyd at 8 o bobl, ac Ystafell y Bwrdd yn cynnig lle i hyd at 18/20 o bobl, a'r ddwy ystafell yn cynnig offer clywedol o'r radd flaenaf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, llogwyd y lle gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb y Bedyddwyr, Pwyllgor Cristion, Bwrdd Cyfarwyddwyr Yes Cymru, Pwyllgor Gwaith Barddas, Cyngor Llyfrau Cymru, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, staff Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, trefnwyr mudiad Placiau Porffor ar gyfer derbyniad, yn ogystal ag ambell gwmni masnachol ar gyfer Cwrdd Ffwrdd.

Am fanylion llogi unrhyw ofod, cysyllter â Swyddfa Pantyfedwen: 01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

Ystafell Bwyllgor Tom Jones

Y Dderbynfa

Ystafell y Bwrdd

RHIF ELUSEN: **1069598**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiadau Ariannol

31 Mawrth 2025

PJE AUDIT SERVICES LTD
Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol
23 College Street
Lampeter
Ceredigion
SA48 7DY

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

	Page
Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr	**1**
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Ymddiriedolwyr	**6**
Datganiad o'r gweithgareddau ariannol	**9**
Datganiad o'r sefyllfa ariannol	**10**
Datganiad Llif Arian	**11**
Nodiadau i'r datganiad ariannol	**12**
Nid yw'r tudalennau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol	
Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol	**25**
Nodiadau i'r datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol	**26**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2025.

Manylion cyfreithiol a gweinyddol

Enw cofrestredig yr elusen	Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Rhif cofrestredig yr elusen	1069598
Swyddfa'r elusen	Pantyfedwen 9 Stryd y Farchnad Aberystwyth Ceredigion SY23 1DL

Ymddiriedolwyr

Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)
Yr Athro Jane Aaron
Dr Eurfyl ap Gwilym
R Alun Charles
Stephen Forster (apwyntiwyd Gorffennaf 2024)
Y Parchedig Melda Grantham
Dr Rhidian Griffiths
Yr Athro Kevin Michael Holland
Y Parchedicaf Andy John, Archesgob Cymru (hyd at Orffennaf 2024)
Dr Hefin Jones
W Gwyn Jones
Sian Lloyd Jones
Wyn Penri Jones
Y Parchedig Judith Morris
Y Parchedig Nan Powell-Davies
Y Parchedig Dyfrig Rees
Amanda Roberts
Gethin Thomas
Dr Eryn White

Ysgrifennydd Gweithredol	Gwenan Creunant
Archwilydd	PJE Audit Services Ltd Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol 23 College Street Lampeter Ceredigion SA48 7DY
Bancwyr	HSBC 19 Stryd Fawr Aberystwyth Ceredigion SY23 1DE

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Rheolwyr Buddsoddi

Partneriaid Evelyn, Lerpwl

Hanes

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar y 1af o Ebrill 1998 wrth uno'r ddwy ymddiriedolaeth flaenorol - Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (sefydlwyd yn 1967). Syr D J James oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymddiriedolaethau hyn, a'i amcan oedd creu gwaddol parhaol a fyddai o fudd i bobl Cymru. Llwyddwyd i gynnwys holl ddibenion yr ymddiriedolaethau gwreiddiol yng nghyfansoddiad yr ymddiriedolaeth newydd.

Ymddiriedolwyr

Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan bedwar ar bymtheg o Ymddiriedolwyr, chwech ohonynt yn Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi a thri ar ddeg o Ymddiriedolwyr Cyffredin. Cafwyd dau newid ymhlith yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2024-25.

Ym Mis Gorffennaf 2024, apwyntiwyd Stephen Forster i ymuno â'r Ymddiriedolwyr yn dilyn ymddeoliad David Gwynder Lewis. Mae gan Stephen brofiad helaeth ym maes cyllid o fewn amrywiol sefydliadau preifat a chyhoeddus; mae ei swyddi blaenorol yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau Corfforaethol Coleg Barnet a Southgate yng ngogledd Llundain, Is-Brifathro yn gyfrifol am Wasanaethau Gwybodaeth Gyllidol ac Ystadau yng Ngholeg Alton, Swydd Hampshire, a Rheolwr Hŷn cwmni Pricewaterhouse Coopers LlP y Deyrnas Gyfunol. Mae Stephen yn byw yn Aberystwyth, a bydd ei arbenigedd yn gaffaeliad i Bwyllgor Gweithredol James Pantyfedwen.

Mae Archesgob Cymru yn Ymddiriedolwr yn rhinwedd ei swydd, ond yng Ngorffennaf 2024, penderfynodd y Parchedicaf Andy John ymddiswyddo o'r Pwyllgor Ceisiadau oherwydd galwadau gwaith a'i fethiant i fynychu cyfarfodydd.

Amcanion a gweithgareddau

Rydym wedi cyfeirio at y canllawiau a geir yn arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion ac wrth gynllunio ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

Buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau o fewn portffolio amrywiol, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau syn pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau. Pery'r cytundeb gyda Chwmni Rheolwyr Buddsoddi Evelyn Partners o dan y model rheoli dewisol a gytunwyd i'w weithredu yn 2016.

Bu'r flwyddyn ariannol 2024-25 eto'n ddigon heriol ac ansicr i'r marchnadoedd arian, ac yn enwedig felly yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, a phenderfyniadau a chyhoeddiadau diweddaraf gweinyddiaeth yr Arlywydd Trump yn yr Unol Daleithiau. Pery rhyfeloedd yn Wcráin ac yn Gaza, mae chwyddiant wedi cyfyngu gallu Banc Lloegr i dorri cyfraddau llog 0.75% yn unig yn ystod y flwyddyn, a gwelwyd problemau pellach yn y cronfeydd isadeiledd ac adnewyddadwy. Er bod y Rheolwyr Buddsoddi wedi gwneud nifer o newidiadau o fewn y portffolio yn dilyn penderfyniad yr Ymddiriedolwyr ym Mawrth 2024 i ganiatau mwy o fuddsoddi dramor, symud yn ofalus iawn yw penderfyniad y cwmni, gan olygu fod y portffolio'n parhau'n bositif tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Erbyn 31 Mawrth 2025, roedd Prif Gronfa'r Ymddiriedolaeth yn werth £15,020,980 (gan gynnwys arian y cyfrif buddsoddi gwerth £21,278 a chyfrif incwm gwerth £20,181), a'r Gronfa Wrth Gefn yn werth £1,377,819 gan gynnwys arian y cyfrif buddsoddi gwerth £52,480 a chyfrif incwm gwerth £4,027. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol felly, roedd cyfanswm cronfeydd Pantyfedwen yn werth £16,398,799 (2024: £16,563,698). Roedd yr incwm a dderbyniwyd o fuddsoddiadau yn ystod 2024-25 yn weddol debyg i'r flwyddyn gynt; derbyniwyd cyfanswm o £587,780, o'i gymharu â £584,521 y flwyddyn flaenorol.

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestri'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn gyson a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2024

Cyflawniadau a pherfformiad

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £514,544 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £503,450 mewn grantiau.

Talwyd y grantiau isod:

	2025 £
Adeiladau Crefyddol	**61,000**
Offer ac Adnoddau	**7,725**
Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr) (*lleuhad gan ail-daliad)*	**342,939**
Eisteddfodau	**79,786**
Urdd Gobaith Cymru	**12,000**
	503,450

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwysi (adeiladau, offer ac adnoddau), Eisteddfodau ac Urdd Gobaith Cymru fel atodiadau i'r cyfrifon.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 79 o fyfyrwyr uwchraddedig i'w cynorthwyo gyda'r ffioedd dysgu hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Adolygiad ariannol

Cyfanswm yr incwm dderbyniodd Pantyfedwen yn ystod 2024-25 oedd £623,252 (2024: £615,897), gyda'r mwyafrif o'r incwm yn do o fuddsoddiadau'r portffolio a'r gweddill mewn rhent gan yr Awdurdod Iechyd a llogi ystafelloedd. Cyfanswm y gwariant elusennol uniongyrchol oedd £649,344 (2024: £668,771). Roedd costau rheoli'r cronfeydd yn £70,070 (2024: £66,741).

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

Datganiad Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, datganiadau sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn, a'r modd y defnyddir adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifo addas a'u cymhwyso'n gyson;
- ystyried y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifo cymwys y DG, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion yr elusen a datgelu sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, y Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) perthnasol, a darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd y camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar ..... ac fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

GPJones

GPJones (Aug 23, 2025 15:15:07 GMT+1)

Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)

Gwenan Creunant

Gwenan Creunant (Aug 26, 2025 11:32:34 GMT+1)

Ms Gwenan Creunant
Ysgrifennydd Gweithredol

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen (yr 'elusen') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025; mae'r rhain yn cynnwys datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, datganiad llif arian parod, a'r nodiadau perthnasol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo Deyrnas Gyfunol, sy'n cynnwys FRS102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland" (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2024 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y defnyddiwyd adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) (SARh(DG)) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau ymhellach, yn ôl y safonau hynny, yn yr adran am gyfrifoldebau'r archwilydd am archwiliad y datganiadau ariannol o fewn yr adroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen, yn unol â gofynion moesegol perthnasol archwiliad datganiadau ariannol yn y DG, gan gynnwys Safon Moesegol yr FRC, ac rydym wedi cwblhau ein holl gyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr archwiliad yn ddigonol ac yn addas fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â'r elusen

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi ei gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg honno yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, o leiaf o'r adeg honno yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

Gwybodaeth bellach

Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilwyr ar y rheiny. Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth bellach. Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth bellach, ac nid ydym yn dod i unrhyw fath o gasgliad ar yr wybodaeth bellach oni bai fod hynny wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad.

Wrth gwblhau ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'n gyfrifoldeb arnom ddarllen y wybodaeth bellach, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth bellach yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gasglwyd gennym wrth baratoi'r archwiliad neu wedi ei gamgofnodi mewn modd sylweddol. Os sylwn ar anghysondebau neu gamgofnodi o'r math hwn, rhaid i ni benderfynu a oes yna gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol neu gamgofnod o unrhyw wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar ein gwaith ar yr archwiliad, fod yna gamgofnod neu gamddatganiad o'r wybodaeth arall yma, rhaid i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar yr uchod.

Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r elusen a'i hamgylchedd a gasglwyd gennym wrth wneud yr archwiliad, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni eich hysbysu os yw'r canlynol yn berthnasol yn ein barn ni:

- nid yw'r wybodaeth a geir yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r cofnodion yn y datganiadau ariannol; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifo digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a sicrhau eu bod yn cynnig golwg teg a gonest; maent hefyd yn gyfrifol am osod y rheolaeth fewnol y teimlant sydd ei hangen er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu, gan ddadlennu, yn ôl yr angen, unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnes a sail gyfrifyddol y busnes oni bai fod yr Ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r busnes i ben neu fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Ein nod yw gallu rhoi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant fod archwiliad a gwblhawyd yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) bob amser yn llwyddo i ddarganfod camddatganiad. Gall camddatganiadau fod o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, yn un enghraifft neu'n lluosog, a chânt eu hystyried o bwys os gallant yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â fframwaith cyflwyno teg, i werthuso cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

Y Defnydd o'n Hadroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r elusen, fel corff, yn unig, yn unol â rhan 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Gwnaethpwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn oedd yn gyfrifoldeb arnom i'w gynnwys yn adroddiad yr archwilwyr yn unig ac nid i unrhyw bwrpas arall. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb am unrhyw gorff heblaw am yr elusen, ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r farn a ffurfiwyd gennym.

Robert Gray (Uwch Archwilydd Statudol)

Ar ran
PJE Audit Services Ltd
Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol
23 College Street
Lampeter
Ceredigion
SA48 7DY

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

	Nodyn	Cronfeydd anghyfyngedig	2025 Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd**	2024 Cyfanswm cronfeydd
		£	**£**	**£**	£
Incwm a Gwaddolion					
Incwm Buddsoddi, Rhent a Llog Banc	**4**	615,795	7,457	**623,252**	615,897
Incwm arall	**5**	(23,681)	338,235	**314,555**	360,684
Cyfanswm Incwm		592,114	345,692	**937,807**	976,581
Gwariant					
Gwariant ar godi arian:					
Investment management costs	**6**	(5,997)	(64,072)	**(70,070)**	(66,741)
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi	**7,8**	(649,344)	–	**(649,344)**	(668,771)
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**11**	(25,000)	–	**(25,000)**	(35,000)
Gwariant arall					
Cyfanswm Gwariant		(680,341)	(64,072)	**(744,414)**	(770,512)
Enillion / (Colledion) net ar fuddsoddiadau	**12**	40,740	(393,024)	**(352,284)**	127,894
Incwm / (Gwariant) net a Symudiadau mewn cronfeydd		(47,487)	(111,404)	**(158,891)**	333,963
Cysoni'r cronfeydd					
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		1,521,847	15,532,204	**17,054,051**	16,720,087
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen		1,474,360	15,420,800	**16,895,160**	17,054,051

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.
Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 23 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

31 Mawrth 2025

	Nodyn	2025 £	2025 £	2024 £
Asedau sefydlog				
Asedau sefydlog diriaethol	**16**		**140,000**	140,000
Buddsoddiadau Eiddo	**17**		**280,000**	280,000
Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	**18**		**16,300,834**	16,512,249
			16,720,834	16,932,249
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	**19**	**530**		–
Arian yn y banc ac mewn llaw		**391,961**		310,396
		392,491		310,396
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	**20**	**(129,810)**		(120,494)
Asedau cyfredol net			**262,681**	189,902
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			**16,983,515**	17,122,151
Darpariaethau				
Cronfa Adeiladau a Chyfarpar a Chostau'r Gyfrol	**21**		**(88,355)**	(68,100)
Asedau net			**16,895,160**	17,054,051
Cronfeydd yr elusen				
Cronfeydd cyfyngedig:				
Cronfa ailbrisio wrth gefn			**140,000**	140,000
Cronfeydd cyfyngedig eraill			**15,280,800**	15,392,204
Cronfeydd anghyfyngedig			**1,474,360**	1,521,847
Cyfanswm cronfeydd yr elusen	**23**		**16,895,160**	17,054,051

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'u hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi ……., Fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

GPJones

GPJones (Aug 23, 2025 15:15:07 GMT+1)

Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 23 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad Llifoedd Arian

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

	2025 £	2024 £
Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Incwm / (gwariant) net	**(158,891)**	333,963
Addasiadau:	**352,284**	(127,894)
Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau	**(612,280)**	(609,649)
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**(10,972)**	(6,248)
Llogau eraill sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	**65**	62
Llogau taladwy a thaliadau tebyg	**(313,894)**	(360,664)
Enillion a (cholledion) ar waredu buddsoddiadau	**1,175**	–
Newidiadau:		
Dyledwyr masnach ac eraill	**(530)**	4,094
Credydwyr masnach ac eraill	**8,141**	43,840
Darpariaethau a buddion cyflogai	**20,254**	18,432
Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau	**(714,648)**	(704,064)
Llog a dalwyd	**(65)**	(62)
Llog a dderbyniwyd	**10,972**	6,248
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredol	**(703,741)**	(697,878)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**612,280**	609,649
Prynu buddsoddiadau	**(3,861,171)**	(1,620,812)
Derbyniadau o werthu buddsoddiadau	**4,034,197**	1,666,684
Addasiad llif arian buddsoddiadau	**–**	7,080
Arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**785,306**	662,601
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian a chyfwerthoedd arian	**81,565**	(35,277)
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r flwyddyn	**310,396**	345,673
Arian a chyfwerthoedd ar ddiwedd y flwyddyn	**391,961**	310,396

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 23 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau i'r datganiad ariannol

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

1. Gwybodaeth gyffredinol

Mae'r elusen wedi'i chofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr ac yn anghorfforedig.
Cyfeiriad swyddfa'r elusen yw Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1DL.

2. Datganiad o Gydymffurfiad

Paratowyd y datganiadau ariannol yma yn unol ag FRS 12, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon', y Datganiad o Arferion a Argymhellir i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (SORP Elusennau (FRS102)) a Deddf Elusennau 2011.

3. Polisïau Cyfrifo

(a) Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail cost hanesyddol, a'u haddasu wedi ail-brisiant asedau a rhwymedigaethau a buddsoddiadau sy'n cael eu mesur ar werth teg drwy incwm a gwariant.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling gan mai dyma arian cyfred gweithredol yr elusen.

(b) Busnes gweithredol

Nid oes unrhyw ansicrwydd gwirioneddol ynglŷn â pharhad yr elusen.

(c) Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid weithiau amcangyfrif a llunio barn a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a nodir. Caiff yr amcangyfrifon a'r farn eu hadolygu'n gyson a'u seilio ar brofiad a ffactorau eraill, gan gynnwys digwyddiadau posib yn y dyfodol.

(ch) Cyfrifeg y Gronfa

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu dibenion yr elusen.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig a glustnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect neu ymrwymiad penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig naill ai yn gronfeydd incwm cyfyngedig neu'n gronfeydd gwaddol, ac yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr neu'r apêl wedi nodi cyfyngiadau penodol ar eu gwariant.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(d) Incwm

Cydnabyddir pob incwm y mae gan yr elusen hawl i'w dderbyn yn y datganiad o weithgareddau ariannol; mae'n debygol y bydd unrhyw fuddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r incwm yn dod i'r elusen ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Mae'r polisïau penodol canlynol yn berthnasol i gategorïau arbennig o incwm:

- Cydnabyddir rhoddion a grantiau pan geir tystiolaeth o hawl i'r rhodd, pan geir tebygolrwydd o dderbyn y rhodd, a phan ellir mesur y swm mewn modd dibynadwy.

- Cydnabyddir cymynroddion pan mae yna debygolrwydd o dderbyn y rhodd a bod yr hawl i'r rhodd wedi'i gadarnhau.

- Mesurir incwm o roddion ar werth teg y nwyddau, oni bai ei bod yn anymarferol ei fesur yn ddibynadwy; yn yr achosion hynny, nodir gwerth y gost i'r rhoddwr neu amcangyfrif o bris ail-werthu. Cydnabyddir cyfleusterau a gwasanaethau rhoddedig yn y cyfrifon unwaith y'u derbynnir os gellir mesur y gwerth mewn modd dibynadwy. Ni chynhwysir unrhyw symiau am gyfraniadau gwirfoddolwyr cyffredinol.

- Cydnabyddir unrhyw incwm o gytundebau am wasanaethau ar drosglwyddiad y gwasanaeth dan gytundeb. Fe'i nodir fel cronfa anghyfyngedig oni bai fod gofyn cytundebol iddo gael ei wario ar bwrpas penodol a'i ddychwelyd os na chaiff ei wario; yn yr achos hwn, fe'i cydnabyddir fel cronfa gyfyngedig.

(dd) Gwariant

Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau pan geir rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw Dreth ar Werth na ellir ei hawlio yn ôl yn gyfan gwbl, ac fe'i dosberthir o dan y penawdau gweithgarwch ariannol perthnasol:

- Gwariant ar godi arian, yn cynnwys costau holl weithgareddau codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachol anelusennol a gwerthiant rhoddion.

- Gwariant ar weithgareddau elusennol, yn cynnwys holl gostau'r elusen a'r gweithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr elusen er mwyn y buddiolwyr, gan gynnwys y costau gweinyddol a'r costau llywodraethiant sydd yn ymwneud â'r gweithgareddau elusennol.

- Mae gwariant arall yn cynnwys unrhyw wariant nad yw'n ymwneud â chodi arian ar gyfer yr elusen nac yn rhan o'r gwariant ar weithgareddau elusennol.

Rhestrir y costau i gyd dan benawdau gwariant sy'n berthnasol i'r defnydd o'r adnodd. Mae costau uniongyrchol unrhyw weithgaredd unigol yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Os rhennir unrhyw gostau, cânt eu dosbarthu rhwng y gweithgareddau perthnasol mewn modd rhesymol a chyson ac mewn modd y gellir ei gyfiawnhau.

(e) Asedau diriaethol

Cofnodir asedau diriaethol yn ôl y gost wreiddiol, a'u nodi wedi hynny ar y gost wreiddiol, llai'r dibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad rhesymol. Cofnodir asedau diriaethol a gafodd ail-brisiant ar eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail-brisiant llai unrhyw ddibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad a grynhowyd wedi hynny.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

Cofnodir unrhyw gynnydd mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod yn gwrthdroi unrhyw leihad sydd eisoes wedi ei gydnabod fel gwariant o fewn y datganiad o weithgareddau ariannol. Cofnodir unrhyw ostyngiad mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod wedi'i osod yn erbyn unrhyw enillion ail-brisiant blaenorol; yn yr achos hwnnw, nodir y gostyngiad gydag enillion neu golledion eraill ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

(f) Dibrisiant

Cofnodir dibrisiant er mwyn dileu cost neu werth yr ased, llai ei werth gweddilliol, dros oes economaidd fuddiol yr ased fel a ganlyn:

- Dull ailbrisio

(ff) Buddsoddiadau

Cofnodir buddsoddiadau a restrir ar werth teg, gan nodi'r newidiadau mewn gwerth teg o fewn yr incwm a'r gwariant..

(g) Eiddo buddsoddi

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu cofnodi yn y lle cyntaf ar gost, sy'n cynnwys pris prynu ac unrhyw wariant y gellir ei briodoli yn uniongyrchol.

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu hailbrisio i'w gwerth teg ar bob dyddiad adrodd ac unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm neu wariant.

Os nad oes mesur dibynadwy o werth teg bellach ar gael heb gost neu ymdrech ormodol ar gyfer eitem o fuddsoddiadau eiddo, bydd yn cael ei drosglwyddo i asedau diriaethol a'i drin felly hyd nes y disgwylir y gellir mesur gwerth teg mewn modd dibynadwy ar sail barhaus.

(ng) Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

Mae buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen yn cael eu gwneud yn gyfan gwbl i hyrwyddo nodau'r elusen drwy gyllido gweithgareddau penodol. Mesurir offerynnau ecwiti ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd os gellir eu mesur yn ddibynadwy neu am gost â lleihad.

(h) Amhariad asedau sefydlog

Cynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion amhariad ar bob dyddiad adrodd, ac amcangyfrifir y swm adferadwy lle mae dangosyddion o'r fath yn bodoli. Os yw'r gwerth cario yn fwy na'r swm adferadwy, caiff yr ased ei amharu yn unol â hynny. Adolygir namau blaenorol hefyd ar gyfer gwrthdro posibl ar bob dyddiad adrodd.

At ddibenion profi amhariad, pan nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adferadwy ased unigol, gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddo. Yr uned cynhyrchu arian yw'r grŵp lleiaf adnabyddadwy o asedau sy'n cynnwys yr ased ac sy'n cynhyrchu mewnlifoedd arian sy'n annibynnol yn bennaf o'r mewnlifiadau arian parod o asedau eraill neu grwpiau o asedau.

Ar gyfer profi amhariad ewyllys da, yr ewyllys da a gaffaelwyd mewn cyfuniad busnes yw, o'r dyddiad caffael, i bob un o'r unedau cynhyrchu arian y disgwylir iddynt elwa o synergeddau'r cyfuniad, ni waeth a yw asedau neu rwymedigaethau eraill y mae elusen yn cael ei neilltuo i'r unedau hynny.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(i) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan yr elusen ymrwymiad ar y dyddiad adrodd i ddigwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad. Nodir darpariaethau fel rhwymedigaeth yn y datganiad o weithgareddau ariannol a swm y ddarpariaeth fel gwariant.

Mesurir y darpariaethau'n wreiddiol drwy amcangyfrif y swm fyddai ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd, a chaiff y swm ei adolygu ar bob dyddiad adrodd wedi hynny a'i addasu i adlewyrchu'r amcangyfrif gorau posib. Cofnodir unrhyw addasiadau i'r symiau blaenorol o fewn incwm a gwariant, oni bai fod y ddarpariaeth wedi'i chydnabod yn wreiddiol fel rhan o gost ased. Pan fo darpariaeth yn cael ei mesur ar werth cyfredol y swm y disgwylir y bydd ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth, cydnabyddir dad-ddirwyn y disgownt fel cost ariannol yn y datganiad o weithgareddau ariannol o fewn y cyfnod perthnasol, a chaiff ei nodi o dan y pennawd gwariant addas.

(j) Offerynnau ariannol

Cydnabyddir ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn unig pan fydd yr elusen yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol yn wreiddiol am y swm sy'n dderbyniadwy neu'n daladwy, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n perthyn i'r gweithrediad.

Mesurir asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol ymhellach am yr arian neu ystyriaeth arall y disgwylir i gael ei dalu neu ei dderbyn am y pris llawn.

Mesurir offerynnau dyled dilynol ar gost amorteiddiedig.

Pan fydd buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau yn cael eu masnachu'n gyhoeddus, neu pan fydd modd mesur eu gwerth teg yn ddibynadwy, mesurir y buddsoddiad wedi hynny ar werth teg gydag unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm a gwariant. Mesurir pob buddsoddiad tebyg wedi hynny ar gost, llai gostyngiad.

Cydnabyddir offerynnau ariannol eraill, gan gynnwys deilliannau, ar werth teg, oni bai fod taliad am ased wedi ei ohirio y tu hwnt i dermau busnes arferol neu wedi'i gyllido ar raddfa llog nad yw'n gyfystyr â graddfa'r farchnad. Yn yr achos hwnnw, mesurir yr ased ar werth cyfredol taliadau'r dyfodol wedi'u lleihau yn unol â graddfa llog y farchnad am offeryn dyled tebyg.

Mesurir offerynnau ariannol eraill yn ddilynol ar werth teg, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol, heblaw am offerynnau rhagfantoli o fewn perthynas rhagfantoli ddynodedig.

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost neu gost amorteiddiedig yn cael eu hadolygu am dystiolaeth wrthrychol o leihad ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Os ceir tystiolaeth wrthrychol o leihad, cydnabyddir y lleihad o dan y pennawd perthnasol yn y datganiad o weithgareddau ariannol lle cydnabuwyd y cynnydd gwreiddiol.

Asesir pob offeryn ecwiti yn unigol am leihad, beth bynnag fo'u harwyddocad; gwneir yr un modd gydag asedau ariannol eraill sydd ag arwyddocad unigol. Asesir pob ased ariannol arall yn unigol neu mewn grŵp ar sail nodweddion risg ariannol tebyg.

Cofnodir unrhyw leihad a wrthdroir ar unwaith, fel nad oes modd i'r gwrthdroad olygu parhau swm yr ased ariannol sy'n fwy na'r swm petai'r lleihad heb ei gydnabod ynghynt.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(l) Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cydnabyddir cyfraniadau i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel gwariant yn y cyfnod y darperir y gwasanaeth perthnasol. Cydnabyddir cyfraniadau a rag-dalwyd fel ased i'r graddau y bydd y rhag-daliad yn arwain at leihad mewn taliadau yn y dyfodol neu ad-daliad arian parod.

Pan nad oes disgwyl i gyfraniadau gael eu talu'n llawn o fewn 12 mis i ddiwedd y cyfnod pan ddisgwylir i'r cyflogeion ddarparu'r gwasanaeth perthnasol, mesurir y rhwymedigaeth ar sail y gwerth cyfredol disgowntedig. Bydd dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel gwariant yn y cyfnod pan fo'n digwydd

4. Incwm Buddsoddi, Rhent a Llog Banc

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2025 £**
Pantyfedwen, Market Street, Aberystwyth	24,500	–	**24,500**
Incwm o fuddsoddiadau	580,353	7,427	**587,780**
Llog a dderbynnir	10,942	30	**10,972**
	615,795	7,457	**623,252**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd 2024 £
Pantyfedwen, Market Street, Aberystwyth	25,128	–	25,128
Incwm o fuddsoddiadau	584,521	–	584,521
Llog a dderbynnir	6,248	–	6,248
	615,897	–	615,897

Mae incwm Pantyfedwen yn cynnwys incwm rhent tymor hir ac incwm o logi'r cyfleusterau.

5. Incwm arall

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2025 £**
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	(24,342)	338,235	**313,894**
Incwm arall	661	–	**661**
	(23,681)	338,235	**314,555**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd 2024 £
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	38,580	322,085	360,664
Incwm arall	20	–	20
	38,600	322,085	360,684

6. Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2025**
	£	£	**£**
Rheoli portffolio	5,997	64,072	**70,070**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2024
	£	£	£
Rheoli portffolio	5,795	60,946	66,741

7. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl cronfa

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd **2025**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2024
	£	**£**	£	£
Grantiau taladwy	510,545	**510,545**	532,457	532,457
Costau gweinyddol	138,799	**138,799**	136,314	136,314
	649,344	**649,344**	668,771	668,771

8. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl gweithgaredd

	Ariannu gweithgaredd-au grant	Costau gweinyddol	**Cyfanswm cronfeydd 2025**	Cyfanswm cronfeydd 2024
	£	£	**£**	£
Grantiau taladwy	510,545	132,279	**642,824**	663,909
Costau llywodraethiant	–	6,520	**6,520**	4,862
	510,545	138,799	**649,344**	668,771

9. Dadansoddiad o gostau gweinyddol

	Costau gweinyddol - cyllid grant	**Cyfanswm 2025**	Cyfanswm 2024
	£	**£**	£
Costau gweinyddol – Staff	113,053	**113,053**	103,272
Costau gweinyddol – Adeilad	19,226	**19,226**	28,179
Costau llywodraethiant – Costau cyllid	65	**65**	63
Costau llywodraethiant – Ffioedd proffesiynol	6,455	**6,455**	4,800
	138,799	**138,799**	136,314

10. Dadansoddiad o grantiau a ddyfarnwyd

	2025	2024
	£	£
Grantiau i sefydliadau		
Grantiau i adeiladau crefyddol ac elusennau	**71,450**	87,500
Grantiau i Eisteddfodau	**84,613**	85,040
Grantiau i Urdd Gobaith Cymru	**12,000**	10,000
Grantiau wedi'u canslo	**(2,850)**	(1,000)
	165,213	181,540
Grantiau i unigolion		
Grantiau i fyfyrwyr	**346,481**	362,713
Grantiau ail-dalwyd fyfyrwyr	**(1,149)**	–
	345,332	362,713
Grantiau a ddyfarnwyd	**510,545**	544,253

11. Gwariant arall

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2025**	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd** 2024
	£	**£**	£	£
Trosglwyddiadau i'r Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	25,000	**25,000**	35,000	35,000

12. Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2025**
	£	£	**£**
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	40,740	(393,024)	**(352,284)**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2024
	£	£	£
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	(6,446)	134,340	127,894

13. Cydnabyddiaeth archwilwyr

	2025	2024
	£	£
Ffioedd yn daladwy am archwilio'r datganiadau ariannol	**3,600**	2,500

14. Costau staff

Mae cyfanswm costau staff a buddion cyflogeion am y cyfnod adrodd fel a ganlyn:

	2025	2024
	£	£
Cyflogau a thaliadau	**97,555**	90,629
Costau nawdd cymdeithasol	**5,952**	3,741
Cyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau pensiwn	**9,546**	8,902
	113,053	103,272

Cyfartaledd cyfrif y gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd 2 (2024: 3). Mae nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

	2025	2024
	Nifer	Nifer
Nifer o staff	**2**	2

Dyma nifer y gweithwyr yr oedd eu tâl am y flwyddyn yn dod o fewn y bandiau canlynol:

	2025	2024
	Nifer	Nifer
£60,000 to £69,999	**–**	1
£70,000 to £79,999	**1**	–
	1	1

15. Cydnabyddiaeth a chostau Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr dâl na buddion cyflogaeth eraill gan yr elusen neu gorff perthnasol.

16. Asedau sefydlog diriaethol

	Eiddo rhydd-ddaliad
	£
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025	**220,878**
Dibrisiant	
1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025	**80,878**
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2025	**140,000**
31 Mawrth 2024	140,000

Asedau sefydlog diriaethol a gafodd eu prisio

Ail-brisiwyd yr eiddo a elwir yn 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, yn £420,000 gan Iestyn Leyshon, FRICS yn Mis Mai 2024. Mae ail-brisiad yr asedau wedi cael ei gydnabod yn gymesur â defnydd y gofod yng ngweinyddiaeth gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r gwerthusiad yn flynyddol. (Gweler nodyn 17)

17. Buddsoddiadau

	Buddsoddiad -au eiddo £
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025	**280,000**
Lleihad	
1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025	
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2025	**280,000**
31 Mawrth 2024	280,000

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddangosir uchod yn cael eu dal ar eu prisiant.

Buddsoddiadau eiddo

Yn ôl FRS 102 (paragraff 16.4), mae 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth yn eiddo aml-ddefnydd ac felly rhaid gwahanu'r defnydd ohono yn eiddo rhydd-ddaliadol ac eiddo buddsoddi. Gan fod yr Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm rhent ar hyn o bryd am 2 o'r 3 llawr penderfynwyd rhannu'r prisiad yn ôl y gyfran hon. (Gweler nodyn 16).

18. Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

	£
Cost neu werth	
1 Ebrill 2023	**16,512,249**
Ychwanegiadau	**3,861,171**
Gwarediadau	**(3,720,303)**
Ail-brisiant	**(352,283)**
31 Mawrth 2025	**16,300,834**

19. Dyledwyr

	2025 £	2024 £
Dyledwyr eraill	**530**	–

Mae dyledwyr masnach yn cynnwys rhent ystafelloedd heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

20. Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn

	2025	2024
	£	£
Croniadau ac incwm gohiriedig	**6,000**	4,825
Incwm gohiriedig gan y GIG	**5,288**	4,242
Credydwyr eraill	**118,522**	111,427
	129,810	120,494

Mae credydwyr eraill yn cynnwys y grantiau sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

	2025	**2025**	2024	2024
	£	**£**	£	£
Grantiau taladwy a ddygwyd ymlaen		**111,427**		67,587
Grantiau a awdurdodwyd yn y flwyddyn	**514,544**		545,253	
Grantiau nad ydynt bellach yn daladwy / i'w had-dalu	**(3,999)**		(1,000)	
		510,545		544,253
Cyfanswm y grantiau taladwy		**621,972**		611,840
Grantiau a dalwyd		**(503,450)**		(500,413)
Grantiau taladwy ar 31 Mawrth		**118,522**		111,427

21. Darpariaethau

	Cronfa Adeiladau a Chyfarpar
	£
1 Ebrill 2024	**68,100**
Ychwanegiadau	**25,000**
Tâl yn erbyn y ddarpariaeth	**(4,745)**
31 Mawrth 2024	**88,355**

22. Pensiynau a buddion eraill yn dilyn ymddeoliad

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Y swm a gydnabyddir fel incwm neu wariant o dan gost cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yw £9,546 (2024: £8,902).

23. Dadansoddiad o gronfeydd yr elusen

Cronfeydd anghyfyngedig

	1 Ebrill 2024 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2025 £**
Cronfeydd anghyfyngedig	1,521,847	592,114	(680,341)	40,740	**1,474,360**

	1 Ebrill 2023 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2024 £**
Cronfeydd anghyfyngedig	1,583,362	654,497	(709,566)	(6,446)	1,521,847

Cronfeydd cyfyngedig

	1 Ebrill 2024 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2025 £**
Cronfeydd cyfyngedig	15,392,204	345,692	(64,072)	(393,024)	**15,280,800**
Cronfa ailbrisio wrth gefn	140,000	–	–	–	**140,000**
	15,532,204	345,692	(64,072)	(393,024)	**15,420,800**

	1 Ebrill 2023 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2024 £**
Cronfeydd cyfyngedig	14,996,725	322,085	(60,946)	134,340	15,392,204
Cronfa ailbrisio wrth gefn	140,000	–	–	–	140,000
	15,136,725	322,085	(60,946)	134,340	15,532,204

24. Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2025 £**
Asedau sefydlog diriaethol	–	420,000	**420,000**
Buddsoddiadau	1,321,312	14,979,522	**16,300,834**
Asedau cyfredol net	371,213	21,278	**392,491**
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(129,810)	–	**(129,810)**
Darpariaethau	(88,355)	–	**(88,355)**
Asedau Net	1,474,360	15,420,800	**16,895,160**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2024 £**
Asedau sefydlog diriaethol	–	420,000	420,000
Buddsoddiadau	1,418,443	15,093,806	16,512,249
Asedau cyfredol net	291,998	18,398	310,396
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(120,494)	–	(120,494)
Darpariaethau	(68,101)	–	(68,101)
Asedau Net	1,521,846	15,532,204	17,054,050

25. Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

	I Ebrill 2024 £	Llif Arian £	**31 Mawrth 2025 £**
Arian yn y banc ac mewn llaw	310,396	81,565	**391,961**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

Nid yw'r tudalennau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

	2025 £	2024 £
Incwm a gwaddolion		
Incwm Buddsoddi, Rhent a Llog Banc		
Pantyfedwen, Stryd y Farchnad, Aberystwyth – Incwm Rhent	**24,500**	25,128
Incwm o fuddsoddiadau	**587,780**	584,521
Llog banc taladwy	**10,972**	6,248
	623,252	615,897
Incwm arall		
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	**313,894**	360,664
Incwm arall	**661**	20
	314,555	360,684
Cyfanswm incwm	**937,807**	976,581
Gwariant		
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi		
Rheoli portffolio	**70,070**	66,741
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Cyflogau a thaliadau	**97,555**	90,629
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**5,952**	3,741
Costau pensiwn	**9,546**	8,902
Costau gweinyddol eraill	**22,431**	30,625
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	**6,455**	4,800
Llogau a chostau tebyg	**65**	62
Grantiau taladwy	**511,694**	544,253
Gwariant a adferwyd	**(3,205)**	(2,445)
Grantiau a Ad-delir	**(1,149)**	(11,796)
	649,344	668,771
Gwariant arall		
Trosglwyddiadauau i Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	**25,000**	35,000
Cyfanswm gwariant	**744,414**	770,512
Enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau	**(352,284)**	127,894
Incwm / (gwariant) net	**(158,891)**	333,963

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

	2025	2024
	£	£
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Grantiau taladwy		
Gweithgareddau cyllido grantiau		
Grantiau taladwy	**511,694**	544,253
Grantiau a Ad-delir	**(1,149)**	(11,796)
	510,545	532,457
Costau cymorth		
Costau cymorth - Cyflogau a thaliadau	**97,555**	90,629
Costau cymorth - Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**5,952**	3,741
Costau cymorth - Costau pensiwn	**9,546**	8,902
Costau cymorth - Costau gweinyddol eraill	**22,431**	30,625
Costau cymorth- Gwariant a adferwyd	**(3,205)**	(2,445)
	132,279	131,452
Costau llywodraethiant		
Costau llywodraethiant - Ffioedd cyfrifyddion	**2,655**	2,300
Costau llywodraethiant - Ffioedd archwilwyr	**3,800**	2,500
Costau cymorth – taliadau banc	**65**	62
	6,520	4,862
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**649,344**	668,771

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

Rhestr y grantiau a dalwyd I adeiladau eglwysig yn ystod 2024/25

Yr Eglwys yng Nghymru		
Eglwys Sant Twrog, Llanddarog	£4,000.00	
Eglwys Bettws Newydd, Brynbuga	£3,000.00	
Eglwys Sant Madryn, Trawsfynydd	£1,000.00	
Eglwys y Santes Fair, Minera	£1,000.00	
Eglwys y Santes Fair, y Waun	£2,000.00	
		£11,000.00
Annibynwyr		
Capel Jerusalem, Porth Tywyn	£3,000.00	
		£3,000.00
Bedyddwyr		
Eglwys Fedyddiedig York Place, Abertawe	£8,000.00	
		£8,000.00
Presbyteriaid		
Capel Bethel, Melin-y-Coed	£2,000.00	
Canolfan Glanhwfa, Llangefni	£12,000.00	
		£14,000.00
Eglwysi Eraill		
Eglwys Bentecostal Tabernacl, Rhymni, Caerdydd	£3,000.00	
Eglwys yr 21G, Ffwrnes, Llanelli	£12,000.00	
Eglwys Efengylaidd Annibynnol Bethesda, Caerdydd	£10,000.00	
		£25,000.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

Rhestr y grantiau a dalwyd ar offer ac adnoddau yn 2024/25

Presbyteriaid		
Capel Bronant	£1,000.00	
Capel Sychnant	£625.00	
Eglwys Seion a Bryneglwys, Corwen	£1,000.00	
		£2,625.00
Annibynwyr		
Capel Maen y Groes, Cei Newydd	£400.00	
Capel Elim Ffynnon-ddrain	£600.00	
		£1,000.00
Bedyddwyr		
Capel y Graig, Castell Newydd Emlyn	£1,500.00	
Capel y Tabernacl, Caerdydd	£2,000.00	
Prosiect Cenhadol Rhwyd y Brenin	£600.00	
		£4,100.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

Rhestr y grantiau dalwyd i Eisteddfodau yn 2024/25

Eisteddfod Fach Capel Dewi, Caerfyrddin	£84.00
Eisteddfod Dyffryn Elwy	£95.00
Eisteddfod Llanarth	£98.00
Eisteddfod Bryngwenith (2024)	£107.00
Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos	£122.00
Eisteddfod Bryngwenith (2025)	£127.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog	£143.00
Eisteddfod Capel y Groes	£177.00
Eisteddfod Heol Senni	£185.00
Eisteddfod Garndolbenmaen(2025)	£191.00
Eisteddfod Aelhaearn	£194.00
Eisteddfod Stesion, Trawsfynydd	£208.00
Eisteddfod Garndolbenmaen(2024)	£212.00
Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen	£227.00
Eisteddfod Felinfach	£232.00
Eisteddfod Dihewyd	£237.00
Eisteddfod Pandy Tudur	£239.00
Eisteddfod Bethel, Melin-y-Coed	£245.00
Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	£257.00
Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	£260.00
Eisteddfod Llanrhaeadr ym Mochnant	£269.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	£269.00
Eisteddfod Abergorlech	£279.00
Eisteddfod Bethel a'r Cylch	£296.00
Eisteddfod Chwilog	£304.00
Eisteddfod Gadeiriol Crymych	£306.00
Eisteddfod yr Hen Gapel, Llanbrynmair	£315.00
Eisteddfod yr Hendy	£316.00
Eisteddfod Penrhyn-coch	£332.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni	£358.00
Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint	£374.00
Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd (2024)	£382.00
Eisteddfod Llandderfel	£399.00
Eisteddfod Capel Cenarth	£402.00
Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd (2025)	£404.00
Eisteddfod y Ffôr	£437.00
Eisteddfod Llanuwchllyn	£446.00
Eisteddfod Talgarreg	£453.00
Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl	£461.00
Eisteddfod Trallong	£500.00
Eisteddfod Llanfachreth	£500.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2025

Eisteddfod Castell Newydd Emlyn	£500.00	
Eisteddfod Tregaron	£500.00	
Eisteddfod Llangadog a'r Cylch	£500.00	
Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst	£500.00	
Eisteddfod y Cymoedd, Ystrad Mynach	£500.00	
Eisteddfod Cwmystwyth	£500.00	
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£500.00	
Eisteddfod Bro Aled, Llansannan	£500.00	
Eisteddfod y Rhondda	£500.00	
Eisteddfod Ryngolegol Aberystwyth	£550.00	
Eisteddfod Môn	£1,094.00	
Eisteddfod Ffermwyr Ifainc Cymru	£2,000.00	
Eisteddfod Teulu James Pontrhydfendigaid	£8,200.00	
Eisteddfod Rhys Thomas James, Llambed	£10,000.00	
Gŵyl Fawr Aberteifi	£10,000.00	
Eisteddfod Ryngwladol Llangollen	£12,000.00	
Eisteddfod Genedlaethol Cymru	£20,000.00	
		£79,786.00
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (2025)	£12,000.00	
		£12,000.00

Please enter date of signing .2025

PJE Audit Services Ltd

23 College Street

Lampeter

SA48 7RP

Dear Sirs

This representation letter is provided in connection with your audit of the financial statements of the charity for the year ended 31 March 2025, for the purpose of expressing an opinion as to whether the financial statements are presented fairly, in all material aspects, in accordance with Charities Act 2011.

We confirm that the following representations are made on the basis of enquiries of the trustees, management and staff with relevant knowledge and experience and, where appropriate, of inspection of supporting documentation sufficient to satisfy ourselves that we can properly make each of the following representations to you:

1. We have fulfilled our responsibilities as trustees under the *Charities Act 2011* for preparing financial statements, in accordance with the applicable financial reporting framework *FRS 102 Charity SORP*.

   We confirm that in our opinion the financial statements give a true and fair view and in particular that where any additional information must be disclosed in order to give a true and fair view that information has in fact been disclosed. We confirm that the selection and application of the accounting policies used in the preparation of the financial statements are appropriate, and we approve these accounts for the year ended 31 March 2025.

2. We confirm that all accounting records have been made available to you for the purpose of your audit, in accordance with your terms of engagement, and that all the transactions undertaken by the charity have been properly reflected and recorded in the accounting records. All other records and related information, including minutes of all management, trustees' and members' meetings, have been made available to you. We have given you unrestricted access to persons within the charity in order to obtain

audit evidence and have provided any additional information that you have requested for the purposes of your audit.

3. We confirm the charity has satisfactory title to all assets and there are no liens or encumbrances on the assets, except for those disclosed in the financial statements.
4. We confirm that the methods, significant assumptions and data used by us in making accounting estimates, and the related disclosures, are appropriate to achieve recognition, measurement or disclosure that is in accordance with the applicable financial reporting framework.
5. We confirm that we have no plans or intentions that may materially alter the carrying value and, where relevant, the fair value measurements or classification of assets and liabilities reflected in the financial statements.
6. We confirm that the charity has no liabilities or contingent liabilities other than those disclosed in the financial statements.
7. We confirm that there have been no events since the balance sheet date which require disclosing or which would materially affect the amounts in the financial statements, other than those already disclosed or included in the financial statements.
8. We confirm that we are aware of the definition of a related party for the purpose of the accounting framework being applied in the preparation of the accounts.

   We confirm that there have been no material transactions with related parties
9. We confirm that all related party relationships and transactions have been accounted for and disclosed in accordance with the applicable financial reporting framework.
10. We confirm that the charity neither had, at any time during the year, any arrangement, transaction or agreement to provide credit facilities (including advances and credits granted by the charity) for trustees, nor provided guarantees of any kind on behalf of the trustees.
11. We confirm that the charity has not contracted for any capital expenditure other than as disclosed in the financial statements.
12. We confirm that the charity has complied with all aspects of contractual agreements that could have a material effect on the financial statements in the event of non-compliance.

13. We confirm that we are not aware of any possible or actual instance of non-compliance with those laws and regulations which provide a legal framework within which the charity conducts its activities and which are central to the charity's ability to conduct its activities, except as explained to you and as disclosed in the financial statements.

14. We acknowledge our responsibility for the design, implementation and maintenance of internal controls to prevent and detect fraud. We confirm that we have disclosed to you the results of our risk assessment of the risk of fraud in the organisation. There have been no deficiencies in internal control of which we are aware

15. We confirm that there have been no actual or suspected instances of fraud involving trustees, management or employees who have a significant role in internal control or that could have a material effect on the financial statements. We also confirm that we are not aware of any allegations of fraud by trustees, former trustees, analysts, employees, former employees, regulators or others.

16. We confirm that, in our opinion, the charity's financial statements should be prepared on the going concern basis on the grounds that current and future sources of funding or support will be more than adequate for the charity's needs. In reaching this conclusion, we have taken into account all relevant matters of which we are aware, and have considered a period of at least one year from the date on which the financial statements approved. We confirm that in our opinion the effects of uncorrected misstatements are immaterial, both individually and in aggregate, to the financial statements as a whole. A list of the uncorrected misstatements is attached to this letter.

17. We confirm that all grants, donations and other income, including those subject to special terms or conditions or received for restricted purposes, have been notified to you. There have been no breaches of terms or conditions during the period regarding the application of such income.

18. We acknowledge our legal responsibilities regarding disclosure of information to you as auditors and confirm that:

    - so far as each trustee is aware, there is no relevant audit information of which you as auditors are unaware; and
    - each trustee has taken all the steps that they ought to have taken as a trustee to make themselves aware of any relevant

audit information and to establish that you are aware of that information.

19. Other matters

We confirm that all effects of the ongoing external world have been disclosed and discussed as part of the going concern considerations by the board.

All possible legal and health and safety requirements have been adhered to reducing any possible future litigation issues where possible. Any possible failures have been disclosed to the auditor.

We confirm all valuations placed on freehold buildings has been discussed and are reflective of the change in market. Where possible effects are expected a professional valuation has been received and disclosed to auditors. Where no change, representation of this has been noted and disclosed to auditors.

Yours faithfully,

.....

Signed on behalf of the board of trustees

Trustee.....

Date.....

THE JAMES PANTYFEDWEN FOUNDATION (YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN)

England & Wales - Charity number 1069598

Accounts

Ymddiriedolaeth

James Pantyfedwen

Foundation

ADRODDIAD BLYNYDDOL

1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024

Ymddiriedolwyr 2023–24

Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)

Yr Athro Jane Aaron

Dr Eurfyl ap Gwilym

Alun Charles

Y Parchedig Ddr R Alun Evans (hyd at Orffennaf 2023)

Y Parchedig Melda Grantham

Dr Rhidian Griffiths

Yr Athro Kevin Michael Holland

Y Parchedicaf Andy John, Archesgob Cymru

W Gwyn Jones

Dr Hefin Jones (o Fawrth 2024 ymlaen)

Siân Lloyd Jones

Wyn Penri Jones

David Gwynder Lewis (hyd at Orffennaf 2023)

Y Parchedig Judith Morris

Y Parchedig Nan Powell-Davies

Y Parchedig Dyfrig Rees

Amanda Roberts

Gethin Thomas

Dr Eryn White

Ysgrifennydd Gweithredol	Gwenan Creunant
Cynorthwywyr gweinyddol	Eirlys Parry a Siwan James
Bancwyr	HSBC cyf
Archwilwyr	PJE Audit Services Ltd (Aberystwyth)
Rheolwyr Buddsoddi	Cwmni Evelyn Partners (Lerpwl)
Swyddfa	Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, SY23 1DL
	Ffôn: (01970) 612806
	E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru
	Gwefan: www.jamespantyfedwen.cymru

Hanes

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar y 1af o Ebrill 1998 wrth uno'r ddwy ymddiriedolaeth flaenorol – Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (sefydlwyd yn 1967). Syr D J James oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymddiriedolaethau hyn er cof am ei rieni, ei wraig a'i frawd, a'i amcan oedd creu gwaddol parhaol a fyddai o fudd i Gymru a'i phobl. Llwyddwyd i gynnwys holl ddibenion yr ymddiriedolaethau gwreiddiol yng nghyfansoddiad yr ymddiriedolaeth newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gwireddu'r amcanion gwreiddiol drwy gefnogi'r grwpiau canlynol o fuddiolwyr:

- myfyrwyr uwchraddedig o Gymru sy'n astudio am radd Feistr neu PhD;
- capeli neu eglwysi unigol sy'n dymuno gwella neu drwsio'r adeilad, gan roi blaenoriaeth i welliannau sy'n ymwneud â phrosiectau cenhadol neu gymunedol, neu eglwysi a chapeli sy'n dymuno prynu a gosod offer digidol neu gerddorol i hybu'r gwaith a'r genhadaeth;
- eisteddfodau cenedlaethol a lleol;
- gweithwyr Cristnogol sy'n dymuno gwneud cyrsiau dwys fydd yn datblygu eu gwaith a'u cenhadaeth;
- cyhoeddiadau ym maes diwinyddiaeth, crefydd neu athroniaeth.

Ymddiriedolwyr

Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan bedwar ar bymtheg o Ymddiriedolwyr, chwech ohonynt yn Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi, ac yn cynrychioli gwahanol enwadau yng Nghymru (yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undodwyr Cymru) ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Ceir hefyd dri ar ddeg o Ymddiriedolwyr Cyffredin.

Ym mis Gorffennaf 2023, ymddeolodd Y Parchedig Ddr R Alun Evans fel Ymddiriedolwr, wedi dros chwarter canrif o wasanaeth i gyd, yn gyntaf fel Cadeirydd yr Eisteddfod Genedlaethol ac yna fel Ymddiriedolwr Cyffredin maes o law. Gyda thristwch y mae'n rhaid nodi iddo farw gwta fis wedi iddo ffarwelio â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Roedd ei gyfraniadau i'r Pwyllgor Ceisiadau a'i gefnogaeth i waith Pantyfedwen dros y blynyddoedd yn wirioneddol werthfawr, ac mae yna fwlch mawr heb ei sylwadau doeth yn y cyfarfodydd.

Ym mis Gorffennaf 2023 hefyd, ymddeolodd David Gwynder Lewis o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yntau wedi gwasanaethu am ddeunaw mlynedd. Bu ei arbenigedd ym maes buddsoddiadau a materion cyllidol yn werthfawr iawn i'r Pwyllgor Gweithredol dros y blynyddoedd, ac mae'r staff a'r Ymddiriedolwyr yn gweld eisiau ei gwmni, ei haelioni a'i hiwmor.

Yn dilyn awgrymiadau gan yr Ymddiriedolwyr a thrafodaeth yn yr Is-bwyllgor Enwebiadau, penderfynwyd gwahodd Dr Hefin Jones i ymuno â'r Pwyllgor Ceisiadau. Mae Hefin Jones yn Uwch-ddarlithydd yn Ysgol Biowyddorau Prifysgol Caerdydd, yn ogystal â bod hefyd yn weithgar iawn ym myd diwylliannol a chrefyddol Cymru. Fe'i croesawyd i'w gyfarfod cyntaf fel Ymddiriedolwr ym mis Mawrth 2024.

Cyllid a Buddsoddiadau

Bu'r flwyddyn ariannol 2023-24 eto'n ddigon ansicr a chyfnewidiol o ran y marchnadoedd arian, gyda marchnadoedd y DG yn parhau i lusgo ymhell y tu ôl i farchnadoedd llwyddiannus yr Unol Daleithiau, yn enwedig o fewn y sector technolegol. Bu chwyddiant yn disgyn yn araf yn ystod y flwyddyn, gyda'r cyfraddau bellach yn dynesu at darged Banc Lloegr o 2%. Erbyn 31 Mawrth 2024, roedd Prif Gronfa'r Ymddiriedolaeth yn werth £15,138,626, a'r Gronfa Wrth Gefn yn werth £1,425,072. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol felly, roedd cyfanswm cronfeydd Pantyfedwen yn werth £16,563,698 o'i gymharu â £16,114,255 ddiwedd Mawrth 2023.

Roedd yr incwm a dderbyniwyd o fuddsoddiadau yn ystod 2023-24 yn well na'r blynyddoedd blaenorol; derbyniwyd cyfanswm o £584,521, o'i gymharu â £559,100 y flwyddyn flaenorol. Daw rhywfaint o incwm blynyddol hefyd o daliadau rhent gan Awdurdod Iechyd Hywel Dda ac o logi'r ystafelloedd pwyllgor ar gyfer cyfarfodydd. Ond, o ystyried y cynnydd mewn costau o bob math, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn o'r angen am fwy o incwm er mwyn sicrhau digon o gyllid i ddosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau syn pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau mewn cytundeb gyda Rheolwyr Buddsoddi Evelyn Partners o dan y model rheoli dewisol a gytunwyd i'w weithredu yn 2016, ac ym Mawrth 2024, cytunodd yr Ymddiriedolwyr i ymestyn eu cytundeb am dair blynedd arall.

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestru'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn flynyddol a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2023.

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £545,243 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £500,413 mewn grantiau.
Talwyd y grantiau isod:

Adeiladau Crefyddol	£69,500.00	Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr)	£362,713.00
Offer ac Adnoddau	£5,625.00	Eisteddfodau	£52,075.00
Cyhoeddiadau	£500.00	Urdd Gobaith Cymru	£10,000.00
			£500,413.00

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwys (adeiladau, offer ac adnoddau) ac Eisteddfodau fel atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 83 o fyfyrwyr uwchraddedig o Gymru i'w cynorthwyo gyda ffioedd dysgu cyrsiau Meistr a PhD, hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Rhestr y grantiau dalwyd i adeiladau eglwysig yn ystod 2023/24

Yr Eglwys yng Nghymru	Eglwys St George, Cwmparc	£2,000.00
	Eglwys y Drindod Sanctaidd, Mydroilyn	£500.00
	Eglwys St Cadog, Caerllion	£12,000.00
		£14,500.00
Annibynwyr	Eglwys Annibynnol Bethlehem Newydd	£7,000.00
		£7,000.00
Bedyddwyr	Eglwys Fedyddiedig Bryn Sion, Trecynon	£10,000.00
	Eglwys Adulam, Felinfoel	£1,000.00
	Eglwys Ganolog Bethel, Maesteg	£3,000.00
	Eglwys Bethania, Aberfan	£5,000.00
	Eglwys Fedyddiedig Croesgoch	£3,000.00
	Eglwys Bethania, Aberteifi	£2,000.00
		£24,000.00
Methodistiaid	Canolfan Fethodistaidd Trinity, Caerdydd	£10,000.00
	Eglwys Fethodistaidd Buckley Cross	£3,000.00
	Eglwys Fethodistaidd Penarth	£3,000.00
		£16,000.00
Eglwysi Eraill	Grace Church, Abertawe	£8,000.00
		£8,000.00

Rhestr y grantiau dalwyd i eglwysi ar gyfer offer ac adnoddau yn 2023/24

Yr Eglwys yng Nghymru	Eglwys y Santes Fair, Yr Wyddgrug	£1,000.00
		£1,000.00
Presbyteriaid	Capel Llandinam	£625.00
		£625.00
Bedyddwyr / Annibynwyr	Capel Emaus, Bangor	£2,000.00
		£2,000.00
Eraill	Capel Efengylaidd Caerdydd	£2,000.00
		£2,000.00

Rhestr y grantiau a dalwyd i gyhoeddiadau yn 2023/24

Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin	£500.00
	£500.00

Rhestr y grantiau dalwyd i Eisteddfodau yn 2023/24

Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos	£48.00	Eisteddfod y Rhondda	£350.00
Eisteddfod Capel Cenarth	£60.00	Eisteddfod Chwilog	£357.00
Eisteddfod Fach Capel Dewi, Caerfyrddin	£68.00	Eisteddfod Swyddffynnon	£359.00
Eisteddfod Llanarth	£88.00	Eisteddfod Trallong	£371.00
Eisteddfod Pandy Tudur	£115.00	Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni	£402.00
Eisteddfod y Foel a'r Cylch	£134.00	Eisteddfod y Talwrn	£414.00
Eisteddfod Aelhaearn	£140.00	Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd	£414.00
Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis a'r Cylch	£159.00	Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth	£420.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	£170.00	Eisteddfod Uwchmynydd	£432.00
Eisteddfod Heol Senni	£185.00	Eisteddfod Gadeiriol Crymych	£435.00
Eisteddfod Capel y Groes	£197.00	Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl	£438.00
Eisteddfod Bethel, Melin y Coed	£203.00	Eisteddfod Bethel a'r Cylch	£452.00
Eisteddfod Plant yr Orsaf, Trawsfynydd	£205.00	Eisteddfod Llanfachreth	£459.00
Eisteddfod Llanrhaeadr ym Mochnant	£212.00	Eisteddfod y Ffôr	£461.00
Eisteddfod Dihewyd	£215.00	Eisteddfod Castell Newydd Emlyn	£500.00
Eisteddfod Maenclochog	£225.00	Eisteddfod Tregaron	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen	£227.00	Eisteddfod Llangadog a'r Cylch	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint	£240.00	Eisteddfod yr Hendy	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	£242.00	Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst	£500.00
Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	£260.00	Eisteddfod y Cymoedd, Ystrad Mynach	£500.00
Eisteddfod yr Hen Gapel, Llanbrynmair	£265.00	Eisteddfod Cwmystwyth	£500.00
Eisteddfod Treuddyn	£272.00	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	£273.00	Eisteddfod Bro Aled, Llansannan	£500.00
Eisteddfod Llanuwchllyn	£273.00	Eisteddfod Talaith a Chadair Powys	£1,500.00
Eisteddfod Gadeiriol Capel Newydd, Abergorlech	£280.00	Eisteddfod Môn	£1,500.00
Eisteddfod Pwllglas	£282.00	Gwyl Gerdd Dant Cymru	£2,000.00
Eisteddfod Maenclochog	£292.00	Eisteddfod CFfI Cymru	£2,000.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog	£299.00	Eisteddfod Teulu James Pontrhydfendigaid	£8,200.00
Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys, Caersws	£311.00	Eisteddfod Rhys Thomas James, Llambed	£10,000.00
Eisteddfod Felinfach	£326.00	Gŵyl Fawr Aberteifi	£10,000.00
Eisteddfod y Fenni	£345.00		
			£52,075.00

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru (2024)	£10,000.00
	£10,000.00

Grantiau i FYFYRWYR

Mae'r nifer o geisiadau am grantiau myfyrwyr yn parhau'n uchel, a derbynnir tua 300 o geisiadau am gymorth yn flynyddol bellach. Yn ystod 2023-24, llwyddwyd i roi cymorth i 83 o fyfyrwyr uwchraddedig er mwyn cyfrannu at eu ffioedd dysgu Meistr neu PhD mewn amrywiol brifysgolion a cholegau ledled Cymru a thu hwnt. £5,000 yw'r uchafswm o grant a gynigir i unrhyw unigolyn, a rhaid i o leiaf 75% o grantiau myfyrwyr Pantyfedwen gael eu dosbarthu ymhlith myfyrwyr sy'n bwriadu astudio ym Mhrifysgolion Cymru.

DETHOLIAD O'R ADRODDIADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD 2023/24

Gellir gweld mwy o lawer ohonynt ar wefan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen: www.jamespantyfedwen.cymru.

Kate Matthews

Biowyddorau, Prifysgol Aberystwyth

Roedd y grant a gefais gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn golygu nad oedd yn rhaid i mi boeni am gost fy ffioedd dysgu wrth astudio ar gyfer gradd Meistr yn y Biowyddorau. Caniataodd hyn i mi ganolbwyntio'n llwyr ar fy astudiaethau a manteisio ar bob cyfle a gynigiwyd yn ystod fy amser ym Mhrifysgol Aberystwyth. Un o'r profiadau mwyaf cofiadwy a gefais oedd taith bysgota oddi ar arfordir Gogledd Cymru i gasglu samplau ar gyfer fy mhrosiect ar y cynefin artiffisial a grëwyd gan Fferm Wynt Gwynt y Môr. Anghofia i fyth mo'r profiad hwn – bod allan yn y maes yn cynnal ymchwil newydd a chyffrous, a chefais fy atgoffa pam y dewisais astudio gwyddorau bywyd yn y lle cyntaf. Cefais hefyd ddal siarc! Diolch i'r gefnogaeth a gefais gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, rwy'n fwy penderfynol nag erioed i weithio ym maes gwyddor y môr a gallu gwneud gwahaniaeth.

Annell Dyfri

Newyddiaduriaeth Darlledu, Prifysgol Caerdydd

Bûm yn astudio'r cwrs MA Newyddiaduraeth Darlledu yn adran JOMEC, Prifysgol Caerdydd. Roedd y cwrs hwn yn canolbwyntio'n fwy na heb ar ddatblygu sgiliau ymarferol y myfyrwyr. Roeddwn yn mynychu darlithoedd a gweithdai yn ddyddiol, gan ddysgu pob math o sgiliau trosglwyddadwy i'r byd gwaith megis golygu, ysgrifennu sgript, darlledu, chwilio am straeon a throsleisio. Ymhlith y sefydliadau a chwmnïau y cefais y cyfle o weithio iddyn nhw yr oedd ITV Cymru, BBC Cymru ac S4C. Bu'r profiadau hyn o gryn fudd i mi gan roi cyfle i mi ymarfer y sgiliau a ddysgais o fewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Rwyf bellach yn gyflogedig gan BBC Cymru, wedi treulio cyfnod gyda'r rhaglen Newyddion a nawr yn gweithio i BBC Cymru Fyw yn ysgrifennu erthyglau a chreu deunydd digidol yn Gymraeg. Yn sicr bu derbyn yr arian yn gymorth aruthrol wrth astudio, yn enwedig gyda'r argyfwng costau byw. Fy ngobaith yw parhau yn y byd darlledu gan ddatblygu fy sgiliau ymhellach ym meysydd y cyfryngau llinol a digidol fel ei gilydd.

Tomos Owen Jones
Cyfansoddi/Perfformio, Coleg Cerdd a Drama Caerdydd

Mae'r grant a gefais gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen wedi rhoi'r cyfle i mi ennill Rhagoriaeth ar gwrs Cyfansoddwr-Perfformiwr MMus yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae hwn yn gwrs Meistr dwys dros ddwy flynedd yn astudio cyfansoddi cerddoriaeth a pherfformio yn llawn amser, a fi yw'r person cyntaf i wneud hynny fel cyfansoddwr a chanwr clasurol. Cefais gyfle i gyfansoddi nifer fawr o ddarnau ar gyfer amrywiaeth eang o berfformiadau, gan gynnwys fy opera siambr gyntaf, a berfformiwyd am y tro cyntaf yng Ngwŷl Atmospheres Caerdydd, a llawer iawn o brofiad canu ar y cwrs. Mae'r cwrs wedi bod yn hynod gyffrous ac ysbrydoledig ond wedi gofyn am lawer iawn o waith ac ymroddiad. Diolch i gefnogaeth Pantyfedwen, rwyf wedi gallu gwneud y mwyaf o nifer enfawr o gyfleoedd proffesiynol hynod gyffrous yn ystod y cyfnod hwn. Rwy'n gobeithio creu gyrfa ar fy liwt fy hun fel canwr, cyfansoddwr ac arweinydd, ac mae'r cwrs hwn wedi bod yn amhrisiadwy o ran ennill llawer iawn o brofiad yn barod i ddechrau ar fy ngyrfa broffesiynol.

Mali Tucker-Roberts MA
Astudiaethau Ewropeaidd, Coleg y Brenin Llundain

Galluogodd grant James Pantyfedwen i mi astudio gradd Meistr mewn Astudiaethau Ewropeaidd yng Ngholeg y Brenin, Llundain. Heb os, ni fyddwn i wedi gallu fforddio profiad mor unigryw heb Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Treuliais hanner cyntaf fy nghwrs yn astudio amrywiaeth o fodiwlau ar agweddau gwahanol o wleidyddiaeth Ewropeaidd, gan gynnwys 'Rwsia a'r Undeb Ewropeiaidd'. Wedi astudio Rwsieg ar gyfer fy ngradd israddedig ac wedi byw yn Rwsia am gyfnod, roedd hwn yn bwnc agos at fy nghalon, ac mor berthnasol ar y pryd. Yn ystod fy ail dymor yn astudio ym Mhrifysgol Humboldt yn Berlin, datblygais fy sgiliau Almaeneg ymhellach trwy astudio rhai modiwlau trwy'r iaith. Roedd fy nhraethawd hir yn edrych ar effaith sefydliadau rhyngwladol ar ieithoedd lleiafrifol, gan ddefnyddio achos y Gymraeg a Siartr Ewrop ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol. Roedd hi'n wych gallu canolbwyntio ar fy hunaniaeth Gymreig drwy lens Ewropeaidd.

Rydw i bellach yn gweithio yn trefnu digwyddiadau i'r 'Centre for European Reform', melin drafod wedi'i lleoli yn San Steffan a gyda swyddfeydd ym Mrwsel a Berlin, sy'n gweithio ar faterion gwleidyddiaeth Ewrop. Dwi'n falch iawn i allu gweithio mewn maes sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'm hastudiaethau.

Grantiau i EGLWYSI

Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn parhau i gefnogi eglwysi a chapeli ledled Cymru sy'n gwella ac adnewyddu eu hadeiladau. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i geisiadau lle mae'r gwaith yn gysylltiedig â datblygu bywyd a gwaith cenhadol yr eglwys ac ymwneud yr eglwys â'r gymuned o'i chwmpas. Bu'n gyfnod heriol iawn i eglwysi wrth iddynt geisio ymdopi â gwaddol y pandemig, a nifer fawr ohonynt yn llwyddo i feddwl mewn ffyrdd gwahanol am addoli a chadw cysylltiad â chynulleidfa a chymuned. Cytunodd Ymddiriedolwyr Pantyfedwen i gynnig grantiau bychain i helpu eglwysi i brynu offer neu adnoddau newydd er mwyn datblygu'r elfennau yma o'u gwaith, a chafwyd nifer o geisiadau am gymorth i brynu offer digidol a sgriniau a chyfrifiaduron.

Isod hefyd ceir blas o'r prosiectau a gwblhawyd – ar adeiladau ac o ran prynu offer ac adnoddau. Mae manylion pellach amdanynt i gyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth: www.jamespantyfedwen.cymru.

Eglwys SS David Lewis a Francis Xavier, Brynbuga

Wedi cwblhau'r gwelliannau allanol i Eglwys Ss David Lewis a Francis Xavier ym Mrynbuga, aed ati i chwilio am gyllid ar gyfer y gwaith mewnol. Denodd y prosiect lawer o gefnogaeth gan y gymuned leol, Cyngor Tref Brynbuga, a sefydliadau cyllido megis Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Codwyd llawer o arian yn lleol hefyd gan arwain at ganlyniad llwyddiannus a'r teimlad fod y plwyf yn wirioneddol "berchen" ar y trawsnewid a welwyd yn yr eglwys.

Mae'r gwaith adnewyddu ac adfer mewnol yn sicr wedi cyfoethogi'r eglwys fel man gweddïo a myfyrdod tawel i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r gwaith addurno o amgylch y brif allor yn adfer amgylchedd gweledol yr eglwys – ac roedd hi'n arbennig o gyffrous darganfod o dan haenau o baent luniau o angylion yn chwarae offerynnau cerdd a'u gweld yn cael eu hadfer. Mae'r dechnoleg ddiweddaraf hefyd bellach yn ei lle i ffrydio gwasanaethau. Diolch i'r holl gefnogaeth, mae'r eglwys nawr yn falch o hyrwyddo ein heglwys fel canolfan pererindod i'r Sant David Lewis.

Capel Bethlehem Pwll Trap

Roedd Capel Bethlehem Newydd yn awyddus i adnewyddu'r adeilad – symud y corau a'r set fawr, adnewyddu llawr yr adeilad, gwella'r gwresogi, adnewyddu ffenestri, paentio a gosod cegin bwrpasol. Yn dilyn arian o werthu adeiladau eraill, llwyddwyd i sicrhau digon o arian i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith, a chafwyd grant gan Bantyfedwen i brynu dodrefn addas ar gyfer yr adeilad yn dilyn yr adnewyddu.

Mae'r gwaith mwyaf bellach wedi'i gwblhau, y cadeiriau newydd wedi cyrraedd, a chynhaliwyd yr oedfa gyntaf yn y capel fore Sul olaf fis Ebrill. Bydd y gynulleidfa bellach yn gysurus a chyfforddus, ac mae'r capel ar ei newydd wedd yn cynnig cyfleoedd newydd i arbrofi gydag amrywiol wasanaethau ac yn fodd i agor yr adnodd i'r gymuned yn ehangach.

Eglwys Efengylaidd Caerdydd

Roedd Eglwys Efengylaidd Caerdydd yn ddiolchgar iawn i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am y grant tuag at brynu offer sain safonol i'w ddefnyddio yn y capel. Roedd angen gwella'r offer technegol er mwyn ei gwneud mor rhwydd â phosibl i bobl ddilyn, darllen a chlywed yr addoliad, a hybu'r gwaith creadigol a chenhadol oedd yn digwydd yn yr eglwys a gan yr aelodau. Mae'r tim technegol yn dweud bod y system newydd yn haws i'w ddefnyddio ac yn creu opsiynau gwell o ran rheoli lefelau sain, safon y ffrwd byw, ac opsiynau ychwanegol o onglau o'r ddau gamera. Mae'r gwelliannau o fudd i'r gynulleidfa sy'n bresennol, ond hefyd wedi gwella'r profiad o ddilyn y ffrwd byw i'r aelodau hynny sy'n methu bod yn bresennol yn y capel am resymau amrywiol ond sy'n dilyn o'u cartrefi, yn ogystal â ffrindiau a chysylltiadau sy'n dilyn o bob rhan o'r byd.

Bethania, Aberfan

Roedd Eglwys Jerusalem ym Mhentrebach, Merthyr yn awyddus i sefydlu eglwys yn Aberfan, a phan roddwyd adeilad Bethania iddynt, penderfynwyd bwrw ati i godi arian er mwyn ei wneud yn addas i'r pwrpas. Derbyniwyd nifer fawr o grantiau er mwyn ail-doi, gosod ffenestri a drysau newydd, ail-weirio, gosod cegin a thoiledau a system wresogi newydd, a phrynu cypyrddau a dodrefn ac offer angenrheidiol. Erbyn gwanwyn 2024, roedd y gwaith wedi'i gwblhau. Cafwyd diwrnod agored yno a'r gwasanaeth cyntaf Ddydd Sul y Pentecost. Daeth cymysgedd o bobl o'r gymuned i'r gwasanaeth arbennig, unigolion o wahanol grwpiau o fewn y gymuned ac o gapeli o gwmpas Merthyr, ac un cwpl nad oeddent erioed wedi bod mewn gwasanaeth o'r blaen ond yn teimlo fod agoriad y capel yn amserol iawn iddyn nhw. Yn ôl un o'r aelodau, "mae yna gyffro mawr a gobaith wedi codi o fewn y gymuned i bosibiliadau newydd o sut gall y gymuned a'r gymuned grefyddol edrych yn y dyfodol yn Aberfan. Rydyn ni'n hyderus ac yn llawn ffydd am lwyddiant hir dymor y fenter hon."

Pantyfedwen yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023

Gan mai Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen oedd yn noddi pabell Encore yn Eisteddfod Genedlaethol 2023, cynhaliwyd sesiwn yno i son am Bantyfedwen a'i Gwaddol Heddiw. Cafwyd cyfle i glywed gan amrywiol rai a dderbyniodd grantiau yn ddiweddar gan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys eglwysi, myfyrwyr a chyhoeddiadau. Diolch i bawb a gyfrannodd at y sesiwn ddifyr hon, ac roedd yn braf iawn clywed fod grantiau'r Ymddiriedolaeth yn gallu gwneud gwahaniaeth.

Adeilad Pantyfedwen

Mae'n hyfryd cael croesawu nifer o unigolion a sefydliadau i Bantyfedwen – ar gyfer pwyllgorau neu gynadleddau neu ar gyfer cyfarfod i gydweithio am fore neu ddiwrnod. Mae Ystafell Tom Jones yn gallu dal hyd at 8 o bobl, ac Ystafell y Bwrdd yn cynnig lle i hyd at 18/20 o bobl, a'r ddwy ystafell yn cynnig offer clywedol o'r radd flaenaf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, llogwyd y lle gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb y Bedyddwyr, Pwyllgor Cristion, Bwrdd Cyfarwyddwyr Yes Cymru, Pwyllgor Gwaith Barddas, Cyngor Llyfrau Cymru, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, staff Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, trefnwyr mudiad Placiau Porffor ar gyfer derbyniad, yn ogystal ag ambell gwmni masnachol ar gyfer Cwrdd Ffwrdd.

Am fanylion llogi unrhyw ofod, cysyllter â Swyddfa Pantyfedwen: 01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

Ystafell Bwyllgor Tom Jones

Y Dderbynfa

Ystafell y Bwrdd

RHIF ELUSEN: 1069598

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiadau Ariannol

31 Mawrth 2024

PJE AUDIT SERVICES LTD
Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol
23 College Street
Lampeter
Ceredigion
SA48 7DY

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

	Tud.
Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr	**1**
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Ymddiriedolwyr	**6**
Datganiad o'r gweithgareddau ariannol	**9**
Datganiad o'r sefyllfa ariannol	**10**
Datganiad Llif Arian	**11**
Nodiadau i'r datganiad ariannol	**12**
Nid yw'r tudalennau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol	
Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol	**25**
Nodiadau i'r datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol	**26**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2024.

Manylion cyfreithiol a gweinyddol

Enw cofrestredig yr elusen	Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Rhif cofrestredig yr elusen	1069598
Swyddfa'r elusen	Pantyfedwen 9 Stryd y Farchnad Aberystwyth Ceredigion SY23 1DL

Ymddiriedolwyr

Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)	
Yr Athro Jane Aaron	
Dr Eurfyl ap Gwilym	
R. Alun Charles	
Y Parchedig Ddr R Alun Evans	(hyd at Orffennaf 2023)
Y Parchedig Melda Grantham	
Dr Rhidian Griffiths	
Yr Athro Kevin Michael Holland	
Y Parchedicaf Andy John, Archesgob Cymru	
Dr Hefin Jones	(apwyntiwyd Mawrth 2024)
W Gwyn Jones	
Siân Lloyd Jones	
Wyn Penri Jones	
David Gwynder Lewis	(hyd at Orffennaf 2023)
Y Parchedig Judith Morris	
Y Parchedig Nan Powell-Davies	
Y Parchedig Dyfrig Rees	
Amanda Roberts	
Gethin Thomas	
Dr Eryn White	

Ysgrifennydd Gweithredol	Ms Gwenan Creunant
Archwilydd	PJE Audit Services Ltd Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol 23 College Street Lampeter Ceredigion SA48 7DY
Bancwyr	HSBC 19 Stryd Fawr Aberystwyth Ceredigion SY23 1DE

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Rheolwyr Buddsoddi

Partneriaid Evelyn, Lerpwl

Hanes

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar y laf o Ebrill 1998 wrth uno'r ddwy ymddiriedolaeth flaenorol - Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (sefydlwyd yn 1967). Syr D J James oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymddiriedolaethau hyn, a'i amcan oedd creu gwaddol parhaol a fyddai o fudd i bobl Cymru. Llwyddwyd i gynnwys holl ddibenion yr ymddiriedolaethau gwreiddiol yng nghyfansoddiad yr ymddiriedolaeth newydd.

Ymddiriedolwyr

Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan bedwar ar bymtheg o Ymddiriedolwyr, chwech ohonynt yn Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi a thri ar ddeg o Ymddiriedolwyr Cyffredin. Cafwyd y newidiadau canlynol ymhlith yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2023-24.

Ym Mis Gorffennaf 2023, ymddiswyddodd y Parchedig Ddr R Alun Evans wedi dros chwarter canrif o wasanaeth i gyd, yn gyntaf fel Cadeirydd yr Eisteddfod Genedlaethol ac yna cael ei ethol fel Ymddiriedolwr Cyffredin maes o law, ac yn drist iawn, bu farw gwta fis wedi iddo ffarwelio â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Roedd ei gyfraniadau i'r Pwyllgor Ceisiadau a'i gefnogaeth i waith Pantyfedwen dros y blynyddoedd yn wirioneddol werthfawr, ac mae yna fwlch mawr heb ei sylwadau doeth yn y cyfarfodydd.

Ym mis Gorffennaf 2023 hefyd, ymddiswyddodd David Gwynder Lewis o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, yntau wedi gwasanaethu am ddeunaw mlynedd. Bu ei arbenigedd ym maes buddsoddiadau a materion cyllidol yn werthfawr iawn i'r Pwyllgor Gweithredol dros y blynyddoedd, ac mae'r staff a'r Ymddiriedolwyr yn gweld eisiau ei gwmni, ei haelioni a'i hiwmor unigryw.

Yn dilyn awgrymiadau gan yr Ymddiriedolwyr a thrafodaeth yn yr Is-bwyllgor Enwebiadau, penderfynwyd gwahodd Dr Hefin Jones i ymuno â'r Pwyllgor Ceisiadau. Mae Hefin Jones yn Uwch-ddarlithydd yn Ysgol Biowyddorau Prifysgol Caerdydd, a hefyd yn weithgar iawn ym myd diwylliannol a chrefyddol Cymru. Fe'i croesawyd i'w gyfarfod cyntaf fel Ymddiriedolwr ym mis Mawrth 2024.

Amcanion a gweithgareddau

Rydym wedi cyfeirio at y canllawiau a geir yn arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion ac wrth gynllunio ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau o fewn portffolio amrywiol, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau sy'n pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau. Ym mis Mawrth 2024 fodd bynnag, cytunodd yr Ymddiriedolwyr i addasu'r Datganiad Polisi Buddsoddi er mwyn caniatáu canran hafal o fuddsoddiadau ecwiti o fewn y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt, gyda'r bwriad o gynyddu'r cyfalaf dros y tair blynedd nesaf yma. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr hefyd y byddai modd defnyddio rhywfaint o'r Gronfa Wrth Gefn er mwyn ychwanegu at yr incwm sy'n angenrheidiol i allu dosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth dros yr un cyfnod. Pery'r cytundeb gyda Chwmni Rheolwyr Buddsoddi Evelyn Partners o dan y model rheoli dewisol a gytunwyd i'w weithredu yn 2016, ac yn dilyn y newidiadau a nodwyd uchod, cytunwyd i ymestyn eu cytundeb am dair blynedd arall.

Bu'r flwyddyn ariannol 2023-24 eto'n ddigon ansicr i'r marchnadoedd arian, gyda marchnadoedd y DG yn parhau i lusgo ymhell y tu ôl i farchnadoedd llwyddiannus yr Unol Daleithiau, yn enwedig y sector technolegol. Bu chwyddiant yn disgyn yn araf yn ystod y flwyddyn, gyda'r cyfraddau bellach yn dynesu at darged Banc Lloegr o 2%. Erbyn 31 Mawrth 2024, roedd Prif Gronfa'r Ymddiriedolaeth yn werth £15,138,626, gan gynnwys arian parod gwerth £44,820, a'r Gronfa Wrth Gefn yn werth £1,425,072, gan gynnwys £6,629 o arian parod. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol felly, roedd cyfanswm cronfeydd Pantyfedwen yn werth £16,563,698 (2023: £16,114,255). Roedd yr incwm a dderbyniwyd o fuddsoddiadau yn ystod 2023-24 yn well na'r blynyddoedd blaenorol; derbyniwyd cyfanswm o £584,521, o'i gymharu â £559,100 y flwyddyn flaenorol. Ond, o ystyried y cynnydd mewn costau o bob math, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn o'r angen am fwy o incwm er mwyn sicrhau digon o gyllid i ddosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestri'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn gyson a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2023

Cyflawniadau a pherfformiad

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £545,253 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £500,413 mewn grantiau.

Talwyd y grantiau isod::

	2024 £
Adeiladau Crefyddol	**69,500**
Offer ac Adnoddau	**5,625**
Cyhoeddiadau	**500**
Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr)	**362,713**
Eisteddfodau	**52,075**
Urdd Gobaith Cymru	**10,000**
	500,413

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwysi (adeiladau, offer ac adnoddau), cyhoeddiadau ac Eisteddfodau fel atodiadau i'r cyfrifon.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 83 o fyfyrwyr uwchraddedig i'w cynorthwyo gyda'r ffioedd dysgu hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Adolygiad Ariannol

Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau yn ystod 2023-24 oedd £615,897 (2023: £582,322). Cyfanswm y gwariant elusennol uniongyrchol oedd £668,771 (2023: £564,545). Roedd costau rheoli'r cronfeydd yn £66,741 (2023: £67,104).

Datganiad Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, datganiadau sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn, a'r modd y defnyddir adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifo addas a'u cymhwyso'n gyson;
- ystyried y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifo cymwys y DG, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion yr elusen a datgelu sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, y Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) perthnasol, a darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd y camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar 13 Medi 2024 ac fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

G P Jones
G P Jones (Sep 13, 2024 16:34 GMT+1)

Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)
Ymddiriedolwr

Gwenan Creunant
Gwenan Creunant (Sep 19, 2024 10:46 GMT+1)

Gwenan Creunant
Ysgrifennydd Gweithredol

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen (yr 'elusen') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024; mae'r rhain yn cynnwys datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, datganiad llif arian parod, a'r nodiadau perthnasol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo Deyrnas Gyfunol, sy'n cynnwys FRS102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland" (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2024 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y defnyddiwyd adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) (SARh(DG)) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau ymhellach, yn ôl y safonau hynny, yn yr adran am gyfrifoldebau'r archwilydd am archwiliad y datganiadau ariannol o fewn yr adroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen, yn unol â gofynion moesegol perthnasol archwiliad datganiadau ariannol yn y DG, gan gynnwys Safon Moesegol yr FRC, ac rydym wedi cwblhau ein holl gyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr archwiliad yn ddigonol ac yn addas fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â'r elusen

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi ei gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg honno yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, o leiaf o'r adeg honno yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen *(parhad)*

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

Gwybodaeth bellach

Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilwyr ar y rheiny. Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth bellach. Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth bellach, ac nid ydym yn dod i unrhyw fath o gasgliad ar yr wybodaeth bellach oni bai fod hynny wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad.

Wrth gwblhau ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'n gyfrifoldeb arnom ddarllen y wybodaeth bellach, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth bellach yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gasglwyd gennym wrth baratoi'r archwiliad neu wedi ei gamgofnodi mewn modd sylweddol. Os sylwn ar anghysondebau neu gamgofnodi o'r math hwn, rhaid i ni benderfynu a oes yna gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol neu gamgofnod o unrhyw wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar ein gwaith ar yr archwiliad, fod yna gamgofnod neu gamddatganiad o'r wybodaeth arall yma, rhaid i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar yr uchod.

Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r elusen a'i hamgylchedd a gasglwyd gennym wrth wneud yr archwiliad, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni eich hysbysu os yw'r canlynol yn berthnasol yn ein barn ni:

- nid yw'r wybodaeth a geir yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r cofnodion yn y datganiadau ariannol; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifo digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a sicrhau eu bod yn cynnig golwg teg a gonest; maent hefyd yn gyfrifol am osod y rheolaeth fewnol y teimlant sydd ei hangen er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu, gan ddadlennu, yn ôl yr angen, unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnes a sail gyfrifyddol y busnes oni bai fod yr Ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r busnes i ben neu fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen *(parhad)*

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Ein nod yw gallu rhoi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant fod archwiliad a gwblhawyd yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) bob amser yn llwyddo i ddarganfod camddatganiad. Gall camddatganiadau fod o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, yn un enghraifft neu'n lluosog, a chânt eu hystyried o bwys os gallant yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â fframwaith cyflwyno teg, i werthuso cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

Y Defnydd o'n Hadroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r elusen, fel corff, yn unig, yn unol â rhan 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Gwnaethpwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn oedd yn gyfrifoldeb arnom i'w gynnwys yn adroddiad yr archwilwyr yn unig ac nid i unrhyw bwrpas arall. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb am unrhyw gorff heblaw am yr elusen, ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r farn a ffurfiwyd gennym.

Robert Gray (Uwch Archwilydd Statudol)

Ar ran
PJE Audit Services Ltd
Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol
23 College Street
Lampeter
Ceredigion
SA48 7DY

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

			2024		2023
		Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd**	Cyfanswm cronfeydd
	Nodyn	**£**	**£**	**£**	£
Incwm a Gwaddolion					
Incwm Buddsoddi, Rhent a Llog Banc	**4**	615,897	–	**615,897**	582,322
Incwm arall	**5**	38,600	322,085	**360,684**	581,849
Cyfanswm Incwm		654,497	322,085	**976,581**	1,164,171
Gwariant					
Gwariant ar godi arian:					
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi	**6**	5,795	60,946	**66,741**	67,104
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**7,8**	668,771	–	**668,771**	564,545
Gwariant arall	**11**	35,000	–	**35,000**	–
Cyfanswm Gwariant		709,566	60,946	**770,512**	631,649
Enillion / (Colledion) net ar fuddsoddiadau	**12**	(6,446)	134,340	**127,894**	(1,170,150)
Incwm / (Gwariant) net a Symudiadau mewn cronfeydd		(61,515)	395,479	**333,963**	(637,628)
Cysoni'r cronfeydd					
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		1,583,362	15,136,725	**16,720,087**	17,357,716
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen		1,521,847	15,532,204	**17,054,051**	16,720,087

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.
Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 23 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

31 Mawrth 2024

	Nodyn	2024 £	2024 £	2023 £
Asedau sefydlog				
Asedau sefydlog diriaethol	**16**		**140,000**	140,000
Buddsoddiadau Eiddo	**17**		**280,000**	280,000
Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	**18**		**16,512,249**	16,076,644
			16,932,249	16,496,644
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	**19**	**–**		4,094
Arian yn y banc ac mewn llaw		**310,396**		345,673
		310,396		349,767
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	**20**	**120,494**		76,654
Asedau cyfredol net			**189,902**	273,113
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			**17,122,151**	16,769,757
Darpariaethau				
Cronfa Adeiladau a Chyfarpar a Chostau'r Gyfrol	**21**		**68,100**	49,670
Asedau net			**17,054,051**	16,720,087
Cronfeydd yr elusen				
Cronfeydd cyfyngedig:				
Cronfa ailbrisio wrth gefn			**140,000**	140,000
Cronfeydd cyfyngedig eraill			**15,392,204**	14,996,725
Cronfeydd anghyfyngedig			**1,521,847**	1,583,362
Cyfanswm cronfeydd yr elusen	**23**		**17,054,051**	16,720,087

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'u hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi 13 Medi 2024, Fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

G P Jones

G P Jones (Sep 13, 2024 16:34 GMT+1)

Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 23 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad Llifoedd Arian

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

	2024	2023
	£	£
Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Incwm / (gwariant) net	**333,963**	(637,628)
Addasiadau:		
Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau	**(127,894)**	1,170,150
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**(609,649)**	(581,750)
Llogau eraill sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	**(6,248)**	(572)
Llogau taladwy a thaliadau tebyg	**62**	38
Enillion a (cholledion) ar waredu buddsoddiadau	**(360,664)**	(580,597)
Newidiadau:		
Dyledwyr masnach ac eraill	**4,094**	664
Credydwyr masnach ac eraill	**43,840**	(78,766)
Darpariaethau a buddion cyflogai	**18,432**	(774)
Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau	**(704,064)**	(709,235)
Llog a dalwyd	**(62)**	(38)
Llog a dderbyniwyd	**6,248**	572
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredol	**(697,878)**	(708,701)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**609,649**	581,750
Prynu buddsoddiadau	**(1,620,812)**	(2,837,139)
Derbyniadau o werthu buddsoddiadau	**1,666,684**	2,821,018
Addasiad llif arian buddsoddiadau	**7,080**	4,025
Arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**662,601**	569,654
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian a chyfwerthoedd arian	**(35,277)**	(139,047)
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r flwyddyn	**345,673**	484,720
Arian a chyfwerthoedd ar ddiwedd y flwyddyn	**310,396**	345,673

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 23 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau i'r datganiad ariannol

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024

1. Gwybodaeth gyffredinol

Mae'r elusen wedi'i chofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr ac yn anghorfforedig.
Cyfeiriad swyddfa'r elusen yw Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1DL.

2. Datganiad o Gydymffurfiad

Paratowyd y datganiadau ariannol yma yn unol ag FRS 12, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon', y Datganiad o Arferion a Argymhellir i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (SORP Elusennau (FRS102)) a Deddf Elusennau 2011.

3. Polisïau Cyfrifo

(a) Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail cost hanesyddol, a'u haddasu wedi ail-brisiant asedau a rhwymedigaethau a buddsoddiadau sy'n cael eu mesur ar werth teg drwy incwm a gwariant.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling gan mai dyma arian cyfred gweithredol yr elusen.

(b) Busnes gweithredol

Nid oes unrhyw ansicrwydd gwirioneddol ynglŷn â pharhad yr elusen.

(c) Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid weithiau amcangyfrif a llunio barn a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a nodir. Caiff yr amcangyfrifon a'r farn eu hadolygu'n gyson a'u seilio ar brofiad a ffactorau eraill, gan gynnwys digwyddiadau posib yn y dyfodol.

(ch) Cyfrifeg y Gronfa

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu dibenion yr elusen.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig a glustnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect neu ymrwymiad penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig naill ai yn gronfeydd incwm cyfyngedig neu'n gronfeydd gwaddol, ac yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr neu'r apêl wedi nodi cyfyngiadau penodol ar eu gwariant.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(d) Incwm

Cydnabyddir pob incwm y mae gan yr elusen hawl i'w dderbyn yn y datganiad o weithgareddau ariannol; mae'n debygol y bydd unrhyw fuddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r incwm yn dod i'r elusen ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Mae'r polisïau penodol canlynol yn berthnasol i gategorïau arbennig o incwm:

- Cydnabyddir rhoddion a grantiau pan geir tystiolaeth o hawl i'r rhodd, pan geir tebygolrwydd o dderbyn y rhodd, a phan ellir mesur y swm mewn modd dibynadwy.

- Cydnabyddir cymynroddion pan mae yna debygolrwydd o dderbyn y rhodd a bod yr hawl i'r rhodd wedi'i gadarnhau.

- Mesurir incwm o roddion ar werth teg y nwyddau, oni bai ei bod yn anymarferol ei fesur yn ddibynadwy; yn yr achosion hynny, nodir gwerth y gost i'r rhoddwr neu amcangyfrif o bris ail-werthu. Cydnabyddir cyfleusterau a gwasanaethau rhoddedig yn y cyfrifon unwaith y'u derbynnir os gellir mesur y gwerth mewn modd dibynadwy. Ni chynhwysir unrhyw symiau am gyfraniadau gwirfoddolwyr cyffredinol.

- Cydnabyddir unrhyw incwm o gytundebau am wasanaethau ar drosglwyddiad y gwasanaeth dan gytundeb. Fe'i nodir fel cronfa anghyfyngedig oni bai fod gofyn cytundebol iddo gael ei wario ar bwrpas penodol a'i ddychwelyd os na chaiff ei wario; yn yr achos hwn, fe'i cydnabyddir fel cronfa gyfyngedig.

(dd) Gwariant

Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau pan geir rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw Dreth ar Werth na ellir ei hawlio yn ôl yn gyfan gwbl, ac fe'i dosberthir o dan y penawdau gweithgarwch ariannol perthnasol:

- Gwariant ar godi arian, yn cynnwys costau holl weithgareddau codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachol anelusennol a gwerthiant rhoddion.

- Gwariant ar weithgareddau elusennol, yn cynnwys holl gostau'r elusen a'r gweithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr elusen er mwyn y buddiolwyr, gan gynnwys y costau gweinyddol a'r costau llywodraethiant sydd yn ymwneud â'r gweithgareddau elusennol.

- Mae gwariant arall yn cynnwys unrhyw wariant nad yw'n ymwneud â chodi arian ar gyfer yr elusen nac yn rhan o'r gwariant ar weithgareddau elusennol.

Rhestrir y costau i gyd dan benawdau gwariant sy'n berthnasol i'r defnydd o'r adnodd. Mae costau uniongyrchol unrhyw weithgaredd unigol yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Os rhennir unrhyw gostau, cânt eu dosbarthu rhwng y gweithgareddau perthnasol mewn modd rhesymol a chyson ac mewn modd y gellir ei gyfiawnhau.

(e) Asedau diriaethol

Cofnodir asedau diriaethol yn ôl y gost wreiddiol, a'u nodi wedi hynny ar y gost wreiddiol, llai'r dibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad rhesymol. Cofnodir asedau diriaethol a gafodd ail-brisiant ar eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail-brisiant llai unrhyw ddibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad a grynhowyd wedi hynny.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

Cofnodir unrhyw gynnydd mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod yn gwrthdroi unrhyw leihad sydd eisoes wedi ei gydnabod fel gwariant o fewn y datganiad o weithgareddau ariannol. Cofnodir unrhyw ostyngiad mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod wedi'i osod yn erbyn unrhyw enillion ail-brisiant blaenorol; yn yr achos hwnnw, nodir y gostyngiad gydag enillion neu golledion eraill ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

(f) Dibrisiant

Cofnodir dibrisiant er mwyn dileu cost neu werth yr ased, llai ei werth gweddilliol, dros oes economaidd fuddiol yr ased fel a ganlyn:

- Dull ailbrisio

(ff) Buddsoddiadau

Cofnodir buddsoddiadau a restrir ar werth teg, gan nodi'r newidiadau mewn gwerth teg o fewn yr incwm a'r gwariant..

(g) Eiddo buddsoddi

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu cofnodi yn y lle cyntaf ar gost, sy'n cynnwys pris prynu ac unrhyw wariant y gellir ei briodoli yn uniongyrchol.

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu hailbrisio i'w gwerth teg ar bob dyddiad adrodd ac unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm neu wariant.

Os nad oes mesur dibynadwy o werth teg bellach ar gael heb gost neu ymdrech ormodol ar gyfer eitem o fuddsoddiadau eiddo, bydd yn cael ei drosglwyddo i asedau diriaethol a'i drin felly hyd nes y disgwylir y gellir mesur gwerth teg mewn modd dibynadwy ar sail barhaus.

(ng) Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

Mae buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen yn cael eu gwneud yn gyfan gwbl i hyrwyddo nodau'r elusen drwy gyllido gweithgareddau penodol. Mesurir offerynnau ecwiti ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd os gellir eu mesur yn ddibynadwy neu am gost â lleihad.

(h) Amhariad asedau sefydlog

Cynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion amhariad ar bob dyddiad adrodd, ac amcangyfrifir y swm adferadwy lle mae dangosyddion o'r fath yn bodoli. Os yw'r gwerth cario yn fwy na'r swm adferadwy, caiff yr ased ei amharu yn unol â hynny. Adolygir namau blaenorol hefyd ar gyfer gwrthdro posibl ar bob dyddiad adrodd.

At ddibenion profi amhariad, pan nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adferadwy ased unigol, gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddo. Yr uned cynhyrchu arian yw'r grŵp lleiaf adnabyddadwy o asedau sy'n cynnwys yr ased ac sy'n cynhyrchu mewnlifoedd arian sy'n annibynnol yn bennaf o'r mewnlifiadau arian parod o asedau eraill neu grwpiau o asedau.

Ar gyfer profi amhariad ewyllys da, yr ewyllys da a gaffaelwyd mewn cyfuniad busnes yw, o'r dyddiad caffael, i bob un o'r unedau cynhyrchu arian y disgwylir iddynt elwa o synergeddau'r cyfuniad, ni waeth a yw asedau neu rwymedigaethau eraill y mae elusen yn cael ei neilltuo i'r unedau hynny.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(i) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan yr elusen ymrwymiad ar y dyddiad adrodd i ddigwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad. Nodir darpariaethau fel rhwymedigaeth yn y datganiad o weithgareddau ariannol a swm y ddarpariaeth fel gwariant.

Mesurir y darpariaethau'n wreiddiol drwy amcangyfrif y swm fyddai ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd, a chaiff y swm ei adolygu ar bob dyddiad adrodd wedi hynny a'i addasu i adlewyrchu'r amcangyfrif gorau posib. Cofnodir unrhyw addasiadau i'r symiau blaenorol o fewn incwm a gwariant, oni bai fod y ddarpariaeth wedi'i chydnabod yn wreiddiol fel rhan o gost ased. Pan fo darpariaeth yn cael ei mesur ar werth cyfredol y swm y disgwylir y bydd ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth, cydnabyddir dad-ddirwyn y disgownt fel cost ariannol yn y datganiad o weithgareddau ariannol o fewn y cyfnod perthnasol, a chaiff ei nodi o dan y pennawd gwariant addas.

(j) Offerynnau ariannol

Cydnabyddir ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn unig pan fydd yr elusen yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol yn wreiddiol am y swm sy'n dderbyniadwy neu'n daladwy, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n perthyn i'r gweithrediad.

Mesurir asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol ymhellach am yr arian neu ystyriaeth arall y disgwylir i gael ei dalu neu ei dderbyn am y pris llawn.

Mesurir offerynnau dyled dilynol ar gost amorteiddiedig.

Pan fydd buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau yn cael eu masnachu'n gyhoeddus, neu pan fydd modd mesur eu gwerth teg yn ddibynadwy, mesurir y buddsoddiad wedi hynny ar werth teg gydag unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm a gwariant. Mesurir pob buddsoddiad tebyg wedi hynny ar gost, llai gostyngiad.

Cydnabyddir offerynnau ariannol eraill, gan gynnwys deilliannau, ar werth teg, oni bai fod taliad am ased wedi ei ohirio y tu hwnt i dermau busnes arferol neu wedi'i gyllido ar raddfa llog nad yw'n gyfystyr â graddfa'r farchnad. Yn yr achos hwnnw, mesurir yr ased ar werth cyfredol taliadau'r dyfodol wedi'u lleihau yn unol â graddfa llog y farchnad am offeryn dyled tebyg.

Mesurir offerynnau ariannol eraill yn ddilynol ar werth teg, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol, heblaw am offerynnau rhagfantoli o fewn perthynas rhagfantoli ddynodedig.

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost neu gost amorteiddiedig yn cael eu hadolygu am dystiolaeth wrthrychol o leihad ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Os ceir tystiolaeth wrthrychol o leihad, cydnabyddir y lleihad o dan y pennawd perthnasol yn y datganiad o weithgareddau ariannol lle cydnabuwyd y cynnydd gwreiddiol.

Asesir pob offeryn ecwiti yn unigol am leihad, beth bynnag fo'u harwyddocad; gwneir yr un modd gydag asedau ariannol eraill sydd ag arwyddocad unigol. Asesir pob ased ariannol arall yn unigol neu mewn grŵp ar sail nodweddion risg ariannol tebyg.

Cofnodir unrhyw leihad a wrthdroir ar unwaith, fel nad oes modd i'r gwrthdroad olygu parhau swm yr ased ariannol sy'n fwy na'r swm petai'r lleihad heb ei gydnabod ynghynt.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(l) Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cydnabyddir cyfraniadau i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel gwariant yn y cyfnod y darperir y gwasanaeth perthnasol. Cydnabyddir cyfraniadau a rag-dalwyd fel ased i'r graddau y bydd y rhag-daliad yn arwain at leihad mewn taliadau yn y dyfodol neu ad-daliad arian parod.

Pan nad oes disgwyl i gyfraniadau gael eu talu'n llawn o fewn 12 mis i ddiwedd y cyfnod pan ddisgwylir i'r cyflogeion ddarparu'r gwasanaeth perthnasol, mesurir y rhwymedigaeth ar sail y gwerth cyfredol disgowntedig. Bydd dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel gwariant yn y cyfnod pan fo'n digwydd

4. Incwm Buddsoddi, Rhent a Llog Banc

	Cronfeydd anghyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2024 £**	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd 2023 £
Pantyfedwen, Market Street, Aberystwyth	25,128	**25,128**	22,650	22,650
Incwm o fuddsoddiadau	584,521	**584,521**	559,100	559,100
Llog a dderbynnir	6,248	**6,248**	572	572
	615,897	**615,897**	582,322	582,322

Mae incwm Pantyfedwen yn cynnwys incwm rhent tymor hir ac incwm o logi'r cyfleusterau.

5. Incwm arall

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2024 £**
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	38,580	322,085	**360,664**
Incwm arall	20	–	**20**
	38,600	322,085	**360,684**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2023** £
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	4,531	576,066	580,597
Incwm arall	1,252	–	1,252
	5,783	576,066	581,849

6. Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2024**
	£	£	**£**
Rheoli portffolio	5,795	60,946	**66,741**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2023**
	£	£	£
Rheoli portffolio	6,014	61,090	67,104

7. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl cronfa

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd **2024**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2023
	£	**£**	£	£
Grantiau taladwy	532,457	**532,457**	436,753	436,753
Costau gweinyddol	136,314	**136,314**	127,793	127,793
	668,771	**668,771**	564,546	564,546

8. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl gweithgaredd

	Ariannu gweithgaredd-au grant	Costau gweinyddol	**Cyfanswm cronfeydd 2024**	**Cyfanswm cronfeydd** 2023
	£	£	**£**	£
Grantiau taladwy	532,457	131,452	**663,909**	559,707
Costau llywodraethiant	–	4,862	**4,862**	4,838
	532,457	136,314	**668,771**	564,545

9. Dadansoddiad o gostau gweinyddol

	Costau gweinyddol - cyllid grant	**Cyfanswm 2024**	**Cyfanswm** 2023
	£	**£**	£
Costau gweinyddol – Staff	103,272	**103,272**	103,569
Costau gweinyddol – Adeilad	28,179	**28,179**	19,385
Costau llywodraethiant – Costau cyllid	63	**63**	38
Costau llywodraethiant – Ffioedd proffesiynol	4,800	**4,800**	4,800
	136,314	**136,314**	127,792

10. Dadansoddiad o grantiau a ddyfarnwyd

	2024	2023
	£	£
Grantiau i sefydliadau		
Grantiau i adeiladau crefyddol ac elusennau	**87,500**	55,000
Grantiau i Eisteddfodau	**85,040**	63,991
Grantiau i Urdd Gobaith Cymru	**10,000**	12,000
Grantiau i Ddarlith Morlan-Pantyfedwen	**–**	888
Grantiau i gyhoeddiadau	**–**	500
Grantiau wedi'u canslo	**(1,000)**	–
	181,540	132,379
Grantiau i unigolion		
Grantiau i fyfyrwyr	**362,713**	304,374
Grantiau a ddyfarnwyd	**544,253**	436,753

11. Gwariant arall

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2024**	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd** 2023
	£	**£**	£	£
Trosglwyddiadau i'r Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	35,000	**35,000**	–	–

12. Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2024**
	£	£	**£**
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	(6,446)	134,340	**127,894**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2023**
	£	£	£
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	(110,241)	(1,059,909)	(1,170,150)

13. Cydnabyddiaeth archwilwyr

	2024	2023
	£	£
Ffioedd yn daladwy am archwilio'r datganiadau ariannol	**2,500**	2,500

14. Costau staff

Mae cyfanswm costau staff a buddion cyflogeion am y cyfnod adrodd fel a ganlyn:

	2024	2023
	£	£
Cyflogau a thaliadau	**90,629**	86,657
Costau nawdd cymdeithasol	**3,741**	4,791
Cyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau pensiwn	**8,902**	12,121
	103,272	103,569

Cyfartaledd cyfrif y gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd 3 (2023: 2). Mae nifer cyfartalog y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

	2024	2023
	Nifer	Nifer
Nifer o staff	**2**	2

Dyma nifer y gweithwyr yr oedd eu tâl am y flwyddyn yn dod o fewn y bandiau canlynol:

	2024	2023
	Nifer	Nifer
£60,000 hyd at £69,999	**1**	1

15. Cydnabyddiaeth a chostau Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr dâl na buddion cyflogaeth eraill gan yr elusen neu gorff perthnasol.

16. Asedau sefydlog diriaethol

	Eiddo rhydd-ddaliad
	£
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	**220,878**
Dibrisiant	
1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	**80,878**
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2024	**140,000**
31 Mawrth 2023	140,000

Asedau sefydlog diriaethol a gafodd eu prisio

Ail-brisiwyd yr eiddo a elwir yn 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, yn £420,000 gan Iestyn Leyshon, FRICS yn Mis Mai 2024. Mae ail-brisiad yr asedau wedi cael ei gydnabod yn gymesur â defnydd y gofod yng ngweinyddiaeth gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth. (Gweler nodyn 17)

17. Buddsoddiadau

	Buddsoddiad - au eiddo £
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	**280,000**
Lleihad	
1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2024	**280,000**
31 Mawrth 2023	280,000

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddangosir uchod yn cael eu dal ar eu prisiant.

Buddsoddiadau eiddo

Yn ôl FRS 102 (paragraff 16.4), mae 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth yn eiddo aml-ddefnydd ac felly rhaid gwahanu'r defnydd ohono yn eiddo rhydd-ddaliadol ac eiddo buddsoddi. Gan fod yr Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm rhent ar hyn o bryd am 2 o'r 3 llawr penderfynwyd rhannu'r prisiad yn ôl y gyfran hon. (Gweler nodyn 16).

18. Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

	£
Cost neu werth	
1 Ebrill 2023	**16,076,644**
Ychwanegiadau	**1,620,812**
Gwarediadau	**(1,306,020)**
Ail-brisiant	**127,894**
Symudiadau eraill	**(7,081)**
31 Mawrth 2024	**16,512,249**

19. Dyledwyr

	2024 £	2023 £
Dyledwyr eraill	**–**	4,094

Mae dyledwyr eraill yn cynnwys treth a ddidynnwyd yn wreiddiol o'r incwm buddsoddi, ond sydd i'w ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

20. Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn

	2024	2023
	£	£
Croniadau ac incwm gohiriedig	**4,825**	4,825
Incwm gohiriedig gan y GIG	**4,242**	4,242
Credydwyr eraill	**111,427**	67,587
	120,494	76,654

Mae credydwyr eraill yn cynnwys y grantiau sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

	2024	**2024**	2023	2023
	£	**£**	£	£
Grantiau taladwy a ddygwyd ymlaen		**67,587**		146,353
Grantiau a awdurdodwyd yn y flwyddyn	**545,253**		438,109	
Grantiau nad ydynt bellach yn daladwy / i'w had-dalu	**(1,000)**		(1,356)	
		544,253		436,753
Cyfanswm y grantiau taladwy		**611,840**		583,106
Grantiau a dalwyd		**(500,413)**		(515,519)
Grantiau taladwy ar 31 Mawrth		**111,427**		67,587

21. Darpariaethau

	Cronfa Adeiladau a Chyfarpar
	£
1 Ebrill 2023	**49,670**
Ychwanegiadau	**35,000**
Tâl yn erbyn y ddarpariaeth	**(16,570)**
31 Mawrth 2024	**68,100**

22. Pensiynau a buddion eraill yn dilyn ymddeoliad

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Y swm a gydnabyddir fel incwm neu wariant o dan gost cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yw £8,902 (2023: £12,121).

23. Dadansoddiad o gronfeydd yr elusen

Cronfeydd anghyfyngedig

	1 Ebrill 2023 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2024 £**
Cronfeydd anghyfyngedig	1,583,362	654,497	(709,566)	–	(6,446)	**1,521,847**

	1 Ebrill 2022 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2023 £**
Cronfeydd anghyfyngedig	1,358,685	588,105	(570,560)	317,373	(110,241)	1,583,362

Cronfeydd cyfyngedig

	1 Ebrill 2023 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2024 £**
Cronfeydd cyfyngedig	14,996,725	322,085	(60,946)	–	134,340	**15,392,204**
Cronfa ailbrisio wrth gefn	140,000	–	–	–	–	**140,000**
	15,136,725	322,085	(60,946)	–	134,340	**15,532,204**

	1 Ebrill 2022 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2023 £**
Cronfeydd cyfyngedig	15,859,031	576,066	(61,090)	(317,373)	(1,059,909)	14,996,725
Cronfa ailbrisio wrth gefn	140,000	–	–	–	–	140,000
	15,999,031	576,066	(61,090)	(317,373)	(1,059,909)	15,136,725

24. Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2024 £**
Asedau sefydlog diriaethol	–	420,000	**420,000**
Buddsoddiadau	1,418,443	15,093,806	**16,512,249**
Asedau cyfredol net	291,998	18,398	**310,396**
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(120,494)	–	**(120,494)**
Darpariaethau	(68,101)	–	**(68,101)**
Asedau Net	1,521,846	15,532,204	**17,054,050**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2023** £
Asedau sefydlog diriaethol	–	420,000	420,000
Buddsoddiadau	1,368,729	14,707,915	16,076,644
Asedau cyfredol net	340,956	8,811	349,767
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(76,654)	–	(76,654)
Darpariaethau	(49,669)	–	(49,669)
Asedau Net	1,583,362	15,136,726	16,720,088

25. Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

	I Ebrill 2023 £	Llif Arian £	**31 Mawrth 2024 £**
Arian yn y banc ac mewn llaw	345,673	(35,277)	**310,396**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

Nid yw'r tudalennau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

	2024	2023
	£	£
Incwm a gwaddolion		
Incwm Buddsoddi, Rhent a Llog Banc		
Pantyfedwen, Stryd y Farchnad, Aberystwyth – Incwm Rhent	**25,128**	22,650
Incwm o fuddsoddiadau	**584,521**	559,100
Llog banc taladwy	**6,248**	572
	615,897	582,322
Incwm arall		
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	**360,664**	580,597
Incwm arall	**20**	1,252
	360,684	581,849
Cyfanswm incwm	**976,581**	1,164,171
Gwariant		
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi		
Rheoli portffolio	**66,741**	67,104
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Cyflogau a thaliadau	**90,629**	86,657
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**3,741**	4,791
Costau pensiwn	**8,902**	12,121
Costau gweinyddol eraill	**30,625**	21,393
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	**4,800**	4,800
Llogau a chostau tebyg	**62**	38
Grantiau taladwy	**544,253**	436,753
Gwariant a adferwyd	**(2,445)**	(2,008)
Grantiau a Ad-delir	**(11,796)**	–
	668,771	564,545
Gwariant arall		
Trosglwyddiadauau i Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	**35,000**	–
Cyfanswm gwariant	**770,512**	631,649
Enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau	**127,894**	(1,170,150)
Incwm / (gwariant) net)	**333,963**	(637,628)

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

	2024	2023
	£	£
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Grantiau taladwy		
Gweithgareddau cyllido grantiau		
Grantiau taladwy	**544,253**	436,753
Grantiau a Ad-delir	**(11,796)**	–
	532,457	436,753
Costau cymorth		
Costau cymorth - Cyflogau a thaliadau	**90,629**	86,657
Costau cymorth - Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**3,741**	4,791
Costau cymorth - Costau pensiwn	**8,902**	12,121
Costau cymorth - Costau gweinyddol eraill	**30,625**	21,393
Costau cymorth- Gwariant a adferwyd	**(2,445)**	(2,008)
	131,452	122,954
Costau llywodraethiant		
Costau llywodraethiant - Ffioedd cyfrifyddion	**2,300**	2,300
Costau llywodraethiant - Ffioedd archwilwyr	**2,500**	2,500
Costau cymorth – taliadau banc	**62**	38
	4,862	4,838
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**668,771**	564,545

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

Rhestr y grantiau a dalwyd I adeiladau eglwysig yn ystod 2023/24

Yr Eglwys yng Nghymru		
Eglwys St George, Cwmparc	£2,000.00	
Eglwys y Drindod Sanctaidd, Mydroilyn	£500.00	
Eglwys St Cadog, Caerllion	£12,000.00	
		£14,500.00
Annibynwyr		
Eglwys Annibynnol Bethlehem Newydd	£7,000.00	
		£7,000.00
Bedyddwyr		
Eglwys Fedyddiedig Bryn Sion, Trecynon	£10,000.00	
Eglwys Adulam, Felinfoel	£1,000.00	
Eglwys Ganolog Bethel, Maesteg	£3,000.00	
Eglwys Bethania, Aberfan	£5,000.00	
Eglwys Fedyddiedig Croesgoch	£3,000.00	
Eglwys Bethania, Aberteifi	£2,000.00	
		£24,000.00
Methodistiaid		
Canolfan Fethodistaidd Trinity Caerdydd	£10,000.00	
Eglwys Fethodistaidd Buckley Cross	£3,000.00	
Eglwys Fethodistaidd Penarth	£3,000.00	
		£16,000.00
Eglwysi Eraill		
Grace Church, Abertawe	£8,000.00	
		£8,000.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

Rhestr y grantiau a dalwyd ar offer ac adnoddau yn 2023/24

Yr Eglwys yng Nghymru		
Eglwys y Santes Fair, Wyddgrug	£1,000.00	
		£1,000.00
Presbyteriaid		
Capel Llandinam	£625.00	
		£625.00
Bedyddwyr/Annibynwyr		
Capel Emaus Bangor	£2,000.00	
		£2,000.00
Eraill		
Eglwys Efengylaidd Caerdydd	£2,000.00	
		£2,000.00

Rhestr y grantiau a dalwyd at cyhoeddiadau yn 2023/24

Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin	£500.00	
		£500.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

Rhestr y grantiau dalwyd i Eisteddfodau yn 2023/24

Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos	£48.00
Eisteddfod Capel Cenarth	£60.00
Eisteddfod Fach Capel Dewi, Caerfyrddin	£68.00
Eisteddfod Llanarth	£88.00
Eisteddfod Pandy Tudur	£115.00
Eisteddfod y Foel a'r Cylch	£134.00
Eisteddfod Aelhaearn	£140.00
Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis a'r Cylch	£159.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	£170.00
Eisteddfod Heol Senni / Senni Eisteddfod	£185.00
Eisteddfod Capel y Groes	£197.00
Eisteddfod Bethel, Melin y Coed	£203.00
Eisteddfod Plant yr Orsaf, Trawsfynydd	£205.00
Eisteddfod Llanrhaeadr ym Mochnant	£212.00
Eisteddfod Dihewyd	£215.00
Eisteddfod Maenclochog	£225.00
Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen	£227.00
Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint	£240.00
Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	£242.00
Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	£260.00
Eisteddfod yr Hen Gapel Llanbrynmair	£265.00
Eisteddfod Treuddyn	£272.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	£273.00
Eisteddfod Llanuwchllyn	£273.00
Eisteddfod Gadeiriol Capel Newydd, Abergorlech	£280.00
Eisteddfod Pwllglas	£282.00
Eisteddfod Maenclochog	£292.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog	£299.00
Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys, Caersws	£311.00
Eisteddfod Felinfach	£326.00
Eisteddfod y Fenni	£345.00
Eisteddfod y Rhondda	£350.00
Eisteddfod Chwilog	£357.00
Eisteddfod Swyddffynnon	£359.00
Eisteddfod Trallong	£371.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni	£402.00
Eisteddfod y Talwrn	£414.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2024

Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd	£414.00
Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth	£420.00
Eisteddfod Uwchmynydd	£432.00
Eisteddfod Gadeiriol Crymych	£435.00
Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl	£438.00
Eisteddfod Bethel a'r Cylch	£452.00
Eisteddfod Llanfachreth	£459.00
Eisteddfod y Ffôr	£461.00
Eisteddfod Castell Newydd Emlyn	£500.00
Eisteddfod Tregaron	£500.00
Eisteddfod Llangadog a'r Cylch	£500.00
Eisteddfod yr Hendy	£500.00
Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst	£500.00
Eisteddfod y Cymoedd, Ystrad Mynach	£500.00
Eisteddfod Cwmystwyth	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£500.00
Eisteddfod Bro Aled Llansannan	£500.00
Eisteddfod Talaith a Chadair Powys	£1,500.00
Eisteddfod Môn	£1,500.00
Gwyl Gerdd Dant Cymru	£2,000.00
Wales YFC National Eisteddfod	£2,000.00
Eisteddfod Teulu James Pontrhydfendigaid	£8,200.00
Eisteddfod Rhys Thomas James Llambed	£10,000.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£10,000.00
	£52,075.00
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (2024)	£10,000.00
	£10,000.00

GWASANAETHAU ARCHWILIO
AUDIT SERVICES

RJG/CMS/J034

24.07.2024

The James Pantyfedwen Foundation
9 Market Street
Aberystwyth
SY23 1DL

Dear Sirs

In accordance with our normal practice we are writing to draw your attention to various matters which arose during the course of our audit of the charity's accounts for the year ended 31 March 2024.

1. We have no comments to make concerning the qualitative aspects of the entity's accounting practices and financial reporting.
2. We did not encounter any significant difficulties during the audit and there are no significant findings from the audit to draw to your attention.
3. A draft of our proposed letter of representation is attached.
4. As you are aware from our letter of engagement, our audit procedures were directed towards testing the accounting systems in operation upon which we have based our assessment of the accounts. We did not encounter any significant weaknesses in the accounting systems during the audit and there are no significant findings from the audit to draw to your attention.
5. We do not propose any modifications to our audit opinion and hence will be issuing a clean audit report.

The firm and the audit engagement team have therefore complied with relevant ethical requirements concerning independence.

We would like to take this opportunity of expressing our thanks to Gwenan and all the staff for their assistance during the course of our audit.

Please note that this report has been prepared for the sole use of the charity only. It must not be disclosed to third parties, quoted or referred to, without our prior written consent. No responsibility is assumed by us to any other person.

The purpose of the audit was to enable us to express an opinion on the financial statements. The audit included consideration of internal control relevant to the preparation of the financial statements in order to design audit procedures that are appropriate in the circumstances, but not for the purpose of expressing an opinion on the effectiveness of internal control.

If we can be of any further assistance, please contact us.

Yours faithfully

Robert Gray

www.pjeas.co.uk
Email: post@pje.co.uk

23 College Street
Lampeter SA48 7DY

The Old Convent
Aberystwyth SY23 1EY

Jubilee Buildings
Dolgellau LL40 1AA

ICAEW CHARTERED ACCOUNTANTS

PJE Audit Services is a trading name of PJE Audit Services Ltd, a company registered in Wales. number 10958878.
A list of Directors is available at the registered office: 23 College Street, Lampeter SA48 7DY.
Registered to carry out audit work in the UK by ICAEW.Registered auditor number C005426807.

Finding	Control	Suggestion
Cancelled/amended grants missed on list	Record all amendments to ensure over payment of grant not completed	Ensure all amendment recorded on year end cancellation list or complete a separate list during the year.

www.pjeas.co.uk
Email: post@pje.co.uk

23 College Street
Lampeter SA48 7DY

The Old Convent
Aberystwyth SY23 1EY

Jubilee Buildings
Dolgellau LL40 1AA

ICAEW
CHARTERED
ACCOUNTANTS

PJE Audit Services is a trading name of PJE Audit Services Ltd, a company registered in Wales. number 10958878.
A list of Directors is available at the registered office: 23 College Street, Lampeter SA48 7DY.
Registered to carry out audit work in the UK by ICAEW.Registered auditor number C005426807.

THE JAMES PANTYFEDWEN FOUNDATION (YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN)

England & Wales - Charity number 1069598

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL

1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

Ymddiriedolwyr 2022-23

Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)

Yr Athro Jane Aaron

Dr Eurfyl ap Gwilym

Alun Charles

Y Parchedig Ddr R Alun Evans

Y Parchedig Melda Grantham

Dr Rhidian Griffiths

Yr Athro Kevin Michael Holland

Y Parchedicaf Andy John, Archesgob Cymru

W Gwyn Jones (o Fawrth 2023 ymlaen)

Siân Lloyd Jones

Wyn Penri Jones

David Gwynder Lewis

Y Parchedig Judith Morris

Y Parchedig Meirion Morris (hyd at Fehefin 2022)

Y Parchedig Nan Powell-Davies (o Orffennaf 2022 ymlaen)

Y Parchedig Dyfrig Rees

Ken Richards (hyd at Orffennaf 2022)

Amanda Roberts

Gethin Thomas

Dr Eryn White

Ysgrifennydd Gweithredol	Gwenan Creunant
Cynorthwyydd gweinyddol	Nel Williams (hyd at Dachwedd 2022)
	Eirlys Parry (o Ionawr 2023 ymlaen)
	Siwan James (o Ionawr 2023 ymlaen)
Bancwyr	HSBC cyf
Archwilwyr	Francis Gray (Aberystwyth)
Rheolwyr Buddsoddi	Evelyn Partners (Lerpwl)
Cyfreithiwr Mygedol	Martin Davies
Cyfeiriad y swyddfa	Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, SY23 1DL
Ffôn	(01970) 612806
E-bost	post@jamespantyfedwen.cymru
Gwefan	www.jamespantyfedwen.cymru

Hanes

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar y 1af o Ebrill 1998 wrth uno'r ddwy ymddiriedolaeth flaenorol – Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (sefydlwyd yn 1967). Syr D J James oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymddiriedolaethau hyn er cof am ei rieni, ei wraig a'i frawd, a'i amcan oedd creu gwaddol parhaol a fyddai o fudd i Gymru a'i phobl. Llwyddwyd i gynnwys holl ddibenion yr ymddiriedolaethau gwreiddiol yng nghyfansoddiad yr ymddiriedolaeth newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gwireddu'r amcanion gwreiddiol drwy gefnogi'r grwpiau canlynol o fuddiolwyr:

- myfyrwyr uwchraddedig o Gymru sy'n astudio am radd Feistr neu PhD;
- capeli neu eglwysi unigol sy'n dymuno gwella neu drwsio'r adeilad, gan roi blaenoriaeth i welliannau sy'n ymwneud â phrosiectau cenhadol neu gymunedol, neu eglwysi a chapeli sy'n dymuno prynu a gosod offer digidol neu gerddorol i hybu'r gwaith a'r genhadaeth;
- eisteddfodau cenedlaethol a lleol;
- gweithwyr Cristnogol sy'n dymuno gwneud cyrsiau dwys fydd yn datblygu eu gwaith a'u cenhadaeth;
- cyhoeddiadau ym maes diwinyddiaeth, crefydd neu athroniaeth.

Ymddiriedolwyr

Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan bedwar ar bymtheg o Ymddiriedolwyr, chwech ohonynt yn Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi a thri ar ddeg o Ymddiriedolwyr Cyffredin. Cafwyd dau newid ymhlith yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2022-23.

Ym mis Gorffennaf 2022, ymddeolodd Ken Richards fel Ymddiriedolwr, a diolchwyd iddo am ei gefnogaeth a'i gyfraniadau dros gyfnod o ugain mlynedd. Cafodd ei arbenigedd ym maes cyllid a buddsoddiadau ei werthfawrogi'n fawr gan y Pwyllgor Gweithredol.

Mae Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Ymddiriedolwr yn rhinwedd ei swydd, ac ym mis Mehefin 2022, bu i'r Parchedig Meirion Morris ymddeol o'i swydd, ac felly, daeth ei gyfnod i ben fel aelod o'r Pwyllgor Ceisiadau ac o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Yn ystod ei ddeng mlynedd yn y swydd, bu ei gefnogaeth i waith yr Ymddiriedolaeth yn werthfawr iawn, a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Cafodd y Parchedig Nan Powell-Davies ei phenodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd, ac fe'i croesawyd i Fwrdd Ymddiriedolwyr Pantyfedwen yng nghyfarfod Gorffennaf 2022.

Cyllid a Buddsoddiadau

Bu'r flwyddyn ariannol 2022-23 eto'n ddigon heriol ac ansicr i'r marchnadoedd arian, o fewn y DG ac yn fyd-eang, gyda'r rhyfel yn parhau rhwng Rwsia ac Wcráin, chwyddiant yn codi i ffigyrau dwbl, cwymp y Silicon Valley Bank yn yr Unol Daleithiau a phroblemau Credit Suisse yn Ewrop, a chyfraddau llog yn parhau i godi drwy gydol y flwyddyn. Erbyn 31 Mawrth 2023, roedd cronfeydd yr Ymddiiredolaeth yn werth £16,114,255 o'i gymharu â ffigwr o £16,786,795 flwyddyn ynghynt.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau syn pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau mewn cytundeb gyda Rheolwyr Buddsoddi Evelyn Partners (a fu dan yr enw Tilney ac yna Smith & Williamson) o dan y model rheoli dewisol a gytunwyd i'w weithredu yn 2016.

Roedd yr incwm a dderbyniwyd yn ystod 2022-23 yn well na'r ychydig o flynyddoedd blaenorol; derbyniwyd cyfanswm o £588,105. Mae'r rhan fwyaf o'r incwm yn dod o fuddsoddiadau a rhent, ond bellach, gwelir nifer o fudiadau a sefydliadau yn llogi cyfleusterau Pantyfedwen gan gyfrannu rhyw ychydig at yr incwm, blynyddol. Ond rhaid cofio hefyd fod yna gynnydd sylweddol yn y costau o redeg yr Ymddiriedolaeth, ac mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn o'r angen am fwy o incwm er mwyn sicrhau digon o gyllid i ddosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth i'r dyfodol.

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestru'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn gyson a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2022.

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £436,753 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £514,631 mewn grantiau. Talwyd y grantiau isod:

Adeiladau Crefyddol	£90,000.00	Eisteddfodau	£83,507.00
Offer ac Adnoddau	£12,250.00	Urdd Gobaith Cymru	£24,500.00
Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr)	£304,374.00		
			£514,631.00

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwys (adeiladau, offer ac adnoddau) ac Eisteddfodau fel atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 69 o fyfyrwyr uwchraddedig o Gymru i'w cynorthwyo gyda ffioedd dysgu cyrsiau Meistr a PhD, hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Rhestr y grantiau dalwyd i adeiladau eglwysig yn ystod 2022/23

Yr Eglwys yng Nghymru	Eglwys Dewi Sant,Caerdydd	£2,000.00
	Eglwys y Santes Fair, Wenfô	£2,000.00
	Eglwys St Elli, Llanelli	£10,000.00
	Eglwys St Catherine, Treganna	£1,000.00
	Eglwys St Denys, Lisvane	£10,000.00
	Eglwys y Santes Fair, Aberhonddu	£1,000.00
	Eglwys San Ffagan, Trecynon	£4,000.00
	Eglwys y Santes Fair, Llanfair Talhaiarn	£2,000.00
		£32,000.00
Annibynwyr	Eglwys Annibynnol Nanternis	£1,000.00
		£1,000.00
Bedyddwyr	Eglwys Fedyddiedig Calvary, Brynmawr	£8,000.00
	Eglwys Fedyddiedig Ebenezer, Abertawe	£4,000.00
	Eglwys y Tabernacle, Merthyr Tudful	£3,000.00
		£15,000.00
Presbyteriaid	Capel Llwyndyrys	£10,000.00
		£10,000.00
Presbyteriaid/Bedyddwyr	Capel Moreia Llangefni – Canolfan Glanhwfa Cyf	£12,000.00
		£12,000.00
Eglwysi Eraill	Eglwys Babyddol y Seintiau David Lewis a Francis Zavier, Brynbuga	£3,000.00
	Eglwys Caersalem, Llaneirwg	£5,000.00
	Eglwys Efengylaidd y Tabernacle, Caerdydd	£4,000.00
	Eglwys Efengylaidd Mount Elim, Pontardawe	£8,000.00
		£20,000.00

Rhestr y grantiau dalwyd ar gyfer offer a adnoddau yn 2022/23

Yr Eglwys yng Nghymru	Eglwys yr Holl Saint, Porthcawl	£2,000.00
	Eglwys St Peter, Y Rhŵs	£750.00
		£2,750.00
Presbyteriaid	Capel y Groes, Wrecsam	£750.00
	Capel Bethesda yr Wyddgrug	£750.00
		£1,500.00
Annibynwyr	Eglwys Annibynnol Bethel, Penarth	£2,000.00
	Capel y Tabernacl, Efail Isaf	£2,000.00
	Capel Hope-Siloh, Pontarddulais	£2,000.00
		£6,000.00
Methodistiaid	Canolfan Fethodistaidd St Paul, Aberystwyth	£2,000.00
		£2,000.00

Rhestr y grantiau dalwyd i Eisteddfodau yn 2022/23

Eisteddfod Rhydlewis	£144.00	Eisteddfod Llangadog a'r Cylch	£442.00
Eisteddfod Bro Aled Llansannan	£500.00	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£500.00
Eisteddfod Teulu James Pontrhydfendigaid	£8,200.00	Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni	£364.00
Eisteddfod Pandy Tudur	£263.00	Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys, Caersws	£357.00
Eisteddfod Dyffryn Conwy Llanrwst	£500.00	Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	£192.00
Eisteddfod Dihewyd	£192.00	Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch	£245.00
Eisteddfod Rhys Thomas James Llambed	£10,000.00	Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog	£213.00
Eisteddfod Môn	£1,448.00	Eisteddfod Fach Capel Dewi, Caerfyrddin	£62.00
Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos	£156.00	Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	£340.00
Eisteddfod Marianglas	£304.00	Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis a'r Cylch	£43.00
Eisteddfod Llanuwchllyn	£466.00	Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd, Trawsfynydd	£451.00
Eisteddfod Mynydd y Garreg	£49.00	Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel	£457.00
Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth	£300.00	Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen	£218.00
Eisteddfod Heol Senni	£225.00	Eisteddfod y Foel a'r Cylch	£173.00
Eisteddfod Ryngwladol Llangollen	£12,000.00	Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl	£460.00	Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith	£88.00
Eisteddfod Bethel a'r Cylch	£204.00	Eisteddfod Chwilog	£380.00
Eisteddfod Gadeiriol Capel Newydd, Abergorlech	£269.00	Eisteddfod Felinfach	£304.00
Eisteddfod Gadeiriol Crymych	£420.00	Eisteddfod Llanarth	£83.00
Eisteddfod y Cymoedd, Ystrad Mynach	£500.00	Eisteddfod Cwmystwyth	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint	£280.00	Eisteddfod Bethel, Melin y Coed	£254.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	£226.00	Eisteddfod Genedlaethol Cymru (2022)	£20,000.00
Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	£235.00	Eisteddfod Genedlaethol Cymru (2023)	£20,000.00
			£83,507.00

Grantiau i FYFYRWYR

Mae'r nifer o geisiadau am grantiau myfyrwyr yn parhau'n uchel, a derbynnir tua 300 o geisiadau am gymorth yn flynyddol bellach. Yn ystod 2022–23, llwyddwyd i roi cymorth i 69 o fyfyrwyr uwchraddedig er mwyn cyfrannu at eu ffioedd dysgu Meistr neu PhD mewn amrywiol brifysgolion a cholegau ledled Cymru a thu hwnt. £5,000 yw'r uchafswm o grant a gynigir i unrhyw unigolyn, a rhaid i o leiaf 75% o grantiau myfyrwyr Pantyfedwen gael eu dosbarthu ymhlith myfyrwyr sy'n bwriadu astudio ym Mhrifysgolion Cymru.

DETHOLIAD O'R ADRODDIADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD 2022/23

Gellir gweld mwy o lawer ohonynt ar wefan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen: www.jamespantyfedwen.cymru.

Rhys Dafis

Roeddwn yn hynod ddiolchgar i dderbyn ysgoloriaeth gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen oherwydd fe'm galluogodd i astudio'r cwrs MA Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd ym Mhrifysgol Caerdydd heb orfod poeni am ganfod ffynhonnell amgen o gyllid.

Mwynheais y cwrs yn fawr, ac yn enwedig natur hyblyg yr astudiaethau. Fe'm galluogodd i ganolbwyntio ar faes penodol o ddiddordeb, sef llenyddiaeth gyfoes a theori. Roeddwn wedi bwriadu astudio amrywiaeth o feysydd yn ystod y flwyddyn, ond cefais gymaint o flas wrth lunio fy nhraethawd cyntaf oedd yn edrych ar ôl-drefedigaethedd a hunaniaethau hybrid mewn barddoniaeth Gymraeg, nes i mi benderfynu parhau ar yr un trywydd. O ganlyniad i hyn, dewisais ffurfio traethawd hir ar destun rhywedd yn y nofel ôl-apocalyptaidd Gymraeg. Enillodd y traethawd hwn wobr Sioned Davies am y traethawd hir gorau ar yr MA mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr holl gymorth a dderbyniais gan staff Ysgol y Gymraeg, ac yn enwedig fy ngoruchwylwyr, wrth gwblhau'r traethawd yn wyneb nifer o anawsterau yng nghanol y pandemig.

Rwyf bellach yn gwneud gwaith gweinyddol yn Ysgol y Gymraeg, ac yn gweithio ar addasu fy nhraethawd hir ar gyfer ei gyhoeddi.

Megan Jones

Wedi i mi ennill grant Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, bûm yn astudio cwrs Meistr mewn 'Welsh Writing in English' ym Mhrifysgol Abertawe, gan raddio gyda Rhagoriaeth. Heb amheuaeth, bu'r grant yn allweddol yn caniatáu i mi adeiladu fy mhortffolio academaidd, ehangu fy sgiliau a'm datblygiad personol.

Wedi astudio fy ngradd israddedig yn Iwerddon, roeddwn yn teimlo ychydig yn betrusgar o safbwynt trosglwyddo'r hyn roeddwn i wedi'i ddysgu mewn sefydliad Addysg Uwch Gwyddelig i sefydliad yng Nghymru. Bu'r grant yn gymorth i'r broses hon, yn adeiladu fy hyder yn fy ngallu academaidd, tra'n rhoi cydnabyddiaeth i'm gallu a'm gwerth fel myfyrwraig.

Cefais y cyfle i gael lleoliad gyda chwmni cyhoeddi 'Parthian Books' fel rhan o'm cwrs. Enillais hefyd interniaeth SPIN (Swansea Paid Internship Network) yn y brifysgol, i weithio ar brosiect academaidd rhyngddisgyblaethol ar 'Adrodd Newid Gwledig'. Dysgais nifer o sgiliau heb eu hail, o adeiladu gwefannau, trawsgrifio a chyfieithu, i adolygu llawysgrifau a chyfrannu i rwydweithiau academaidd.

Rhys Maher

Rydw i wedi mwynhau byw ac astudio yn Llundain mas draw! Roedd y cwrs yn un weddol fach (32 o fyfyrwyr) felly des i adnabod pawb dros y flwyddyn a chreu ffrindiau oes o bob man yn y byd. Cedwais mewn cysywllt gyda fy ngwreiddiau Cymraeg trwy fynychu Eglwys Gymraeg Canol Llundain ar Eastcastle Street bron bob wythnos.

Ysgrifennais y traethawd hir am etholiad Senedd Cymru 2021. Yn benodol, roeddwn am ddarganfod a gafodd pleidleiswyr newydd (pleidleiswyr 16 a 17 mlwydd oed a phleidleiswyr o dramor) effaith ar ganlyniad terfynol yr etholiad. Mae'r canlyniadau dechreuol yn awgrymu fod hyn wedi cynyddu canran y bleidlais i'r Blaid Lafur a chynnydd yn y nifer a bleidleisiodd. Ers gorffen fy nhraethawd rydw i wedi dechrau swydd fel ymgynghorydd ymchwil ar gyfer cwmni Wavehill ym Mryste. Mae'r cwmni yn bennaf yn cynnal gwerthusiadau polisi ar gyfer Llywodraethau, a'r rhan helaeth o'r gwaith yn cael ei gynnal yng Nghymru, naill ai ar gyfer llywodraethau lleol neu Lywodraeth Cymru.

Hoffwn ddiolch i'r Ymddiriedolaeth, gan na fyddwn wedi gallu fforddio'r cwrs heb eich cymorth.

Manon Elin James

Diolch i gefnogaeth ariannol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, astudiais am raddau MPhil a PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, gan dderbyn y graddau hynny yn 2018 ac yn 2022.

Mae fy nhraethawd PhD yn archwilio hanes a syniadaeth Cwmni a Mudiad Adfer a fu'n ymgyrchu ac yn gweithredu dros y Gymraeg yn ei chadarnleoedd yng ngorllewin Cymru yn ystod yr 1970au a'r 1980au. Y prif gwestiwn a ofynnir yn y traethawd yw hwn: Beth yw hanes ac arwyddocâd Mudiad a Chwmni Adfer? Er mwyn medru ateb y cwestiwn penodol hwn, trafodir a dadansoddir ystod o agweddau gan gynnwys: y ffactorau allweddol a arweiniodd at ei sefydlu, ei berthynas â Chymdeithas yr Iaith, ei syniadaeth athronyddol a'r dylanwadau a gyfrannodd at ei siapio, ei ymgyrchoedd a'i weithgareddau, yr ymateb a fu iddo – gan roi sylw penodol i'r cyhuddiad fod ei syniadaeth yn Ffasgaidd – ynghyd â'r gwaddol a welir hyd heddiw. Manteisiwyd hefyd ar barodrwydd nifer o gyn-aelodau Adfer i gael eu holi ynghylch eu hymwneud â'r cwmni a'r mudiad, a thynnir yn helaeth ar gyfres o gyfweliadau personol gwerthfawr.

Hoffwn bwysleisio gymaint o anogaeth oedd derbyn yr ysgoloriaeth hon wrth astudio ar gyfer y ddwy radd uwchraddedig, a diolch eto i'r Ymddiriedolaeth am ei chefnogaeth werthfawr.

Grantiau i EGLWYSI

Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn parhau i gefnogi eglwysi a chapeli ledled Cymru sy'n gwella ac adnewyddu eu hadeiladau. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i geisiadau lle mae'r gwaith yn gysylltiedig â datblygu bywyd a gwaith cenhadol yr eglwys ac ymwneud yr eglwys â'r gymuned o'i chwmpas. Bu'n gyfnod heriol iawn i eglwysi wrth iddynt geisio ymdopi â gwaddol y pandemig, a nifer fawr ohonynt yn llwyddo i feddwl mewn ffyrdd gwahanol am addoli a chadw cysylltiad â chynulleidfa a chymuned. Cytunodd Ymddiriedolwyr Pantyfedwen i gynnig grantiau bychain i helpu eglwysi i brynu offer neu adnoddau newydd er mwyn datblygu'r elfennau yma o'u gwaith, a chafwyd nifer o geisiadau am gymorth i brynu offer digidol a sgriniau a chyfrifiaduron.

Isod hefyd ceir blas o'r prosiectau a gwblhawyd – ar adeiladau ac o ran prynu offer ac adnoddau. Mae manylion pellach amdanynt i gyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth: www.jamespantyfedwen.cymru.

Eglwys Aenon, Treforus

Roedd aelodau Eglwys Bedyddwyr Aenon yn Nhreforys yn awyddus i ail-adeiladu eu neuadd gyfarfod ac adnewyddu'r ardal addoli yn gyfan gwbl. Roedd y prosiect yn cynnwys: gosod cegin newydd a'r holl offer angenrheidiol ynddi; gosod toiledau newydd gyda chyfleusterau addas i'r anabl ac ystafell gawod ar wahân; adeiladu man addoli addas ar gyfer anghenion eglwys y dyfodol gyda waliau wedi'u selio rhag unrhyw wlybaniaeth; prynu a gosod system sain o'r radd flaenaf; a newid cynllun y brif eglwys i gael mynedfa agored. Gellir gweld rhagor o fanylion am y gwaith adeiladu a'r newid mawr o fewn yr eglwys yn dilyn yr holl waith ar wefan Eglwys Aenon: Our New Building – Aenon Baptist Moriston.

Eglwys St James y Wig

Mae eglwys St James yn y Wig yn adeilad rhestredig Gradd II 900 mlwydd oed, ac yn ystod 2017, aeth yr aelodau ati i drefnu ailosod y to. Y bwriad wedyn oedd cychwyn ar brosiect newydd i osod toiledau a chyfleusterau paratoi lluniaeth er mwyn gwella'r gwasanaeth y mae'r eglwys yn ei ddarparu i'r gymuned. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn fuan fod angen llawer o waith hanfodol ar yr adeilad i fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch cyn i'r aelodau allu dechrau ar brosiect newydd.

Dyfarnwyd grantiau gan amrywiol sefydliadau, gan gynnwys y Welsh Church Act Fund, yr All Churches Trust, Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Cyfeillion Eglwys St James, ac Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, i gefnogi'r gwaith hanfodol oedd ei angen ar yr adeilad. Roedd hyn yn cynnwys ail-bwyntio muriau gogleddol, deheuol a dwyreiniol y gangell, atgyweirio'r difrod a achoswyd i'r waliau mewnol gan leithder ofnadwy, atgyweirio ffenestr cangell y de, tynnu'r plinth oedd o dan y bedyddfaen a gosod carreg newydd wastad yn ei lle, symud y garreg ganoloesol oedd yn sownd i'r wal ddwyreiniol a'i gosod ar bileri carreg newydd, a gwneud atgyweiriadau i'r tŵr a'r ceiliog ar y tŵr.

Cynllun Eglwysi Margam

Beth yw prosiect Margam Calling? Gwasanaeth o addoliad modern sy'n pontio'r cenedlaethau, a gafodd ei sefydlu yn Eglwys Sant Theodore, Mynydd Cynffig. Gwelwn ystod eang o bobl yn mynychu'r gwasanaethau bob pythefnos, o bob rhan o Ardal Weinidogaeth Margam a thu hwnt. Mae band o gerddorion lleol ar gael ar gyfer y gwasanaethau, gyda help weithiau gan gerddorion eraill o Gaerdydd. Ceir help llu o wirfoddolwyr o eglwysi eraill – i groesawu, paratoi a gweini'r bwyd, gofalu am y ddesg sain, a rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Margam Calling.

Mae pob gwasanaeth yn cychwyn am 5.30 yr hwyr gyda choffi a chacen - cyfle i bobl gymdeithasu a dod i adnabod ei gilydd. Yr addoli yn cychwyn am 6.00 gyda gweddi gan yr arweinydd addoli, cyn i'r band arwain y canu. Wedyn daw darlleniad o destun Beiblaidd a sgwrs fer. Daw'r gwasanaeth i ben gyda mwy o ganu. Wedyn, ar ôl y gwasanaeth bydd gwahoddiad i bawb i aros am bitsa a diod, gan ofyn am gyfraniad bach ar gyfer hyn. Cynhyrchwyd llawer o nwyddau sy'n hyrwyddo'r brand Margam Calling, gan gynnwys crysau-t, hwdis, mygiau, cerdyn cyfarch, matiau diod a bandiau arddwrn.

Dim ond gyda chefnogaeth ariannol nifer o gyllidwyr yr oedd hi'n bosib sefydlu Margam Calling – ac roedd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn un o'r rheiny. Cafwyd cefnogaeth hefyd gan Gronfa Genhadaeth Esgobaeth Llandaf ac Ymddiriedolaeth yr Esgob Radford yn ogystal ag Ardal Gweinidogaeth Margam.

Hope-Siloh, Pontarddulais

"Cerddwn ymlaen i'r yfory – geiriau un o hoff emynau criw o aelodau ifancach Capel Hope-Siloh sy'n aml yn cymryd rhan mewn gwasanaethau; nifer o'r criw hynny yn athrawon Ysgol Sul yn y capel. Teimlai nifer ei bod yn bryd i'r capel, fel ysgolion, gael offer cyfoes a symud ymlaen gyda'r oes.

Dyna'r cefndir i benderfyniad y capel i brynu sgrin cyffwrdd 55 modfedd i Festri'r capel, a hynny diolch i nawdd hael gan Westhill Endowment, Birmingham ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Sgrin sydd ar droli yw hon i'w symud yn slic o un lle i'r llall, lle gallwn ddangos cyflwyniadau yn fawr ac yn lliwgar, dangos clipiau fideo, chwarae gemau, annog rhyngweithio a hynny gydag ipad a chyfrifiadur sy'n eiddo i'r capel wrth law...lle gallwn gynnig profiadau cyffrous i ddod â Christnogaeth yn fyw. Dyma ni wedi cymryd ein camau cyntaf o ran buddsoddiad digidol, ac mae camau breision i'w cymryd eto ar y gorwel. Gyda'r 'esgidiau' trendi yma, gobeithio y gallwn seinio clod a cherdded ymlaen i'r yfory."

Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2022

Braf iawn oedd croesawu Y Gwir Barchedig Jeffrey John, caplan cysylltiedig Eglwys St George's, Paris i Ganolfan Morlan Aberystwyth fis Mai i draddodi Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2022. Pwnc y ddarlith oedd *The Word of the Lord? – Making the Bible Make Sense*. Cafwyd ganddo ddarlith ddifyr, ddeallus a heriol, a wnaeth i ni ail-feddwl am nifer o ddarnau o'r Beibl, gan geisio dangos sut y mae hanes a chyd-destun y dweud yn agor ein meddyliau o'r newydd i'w neges a'u pwrpas, ac yn y pen draw yn gallu cryfhau ei ffydd. Y Canon Enid Morgan fu'n cadeirio'r digwyddiad, ac roedd y gymeradwyaeth hir a brwd a roddwyd i'r ddarlith yn arwydd o ddyfnder gwerthfawrogiad y gynulleidfa niferus.

Gellir darllen testun y ddarlith a'i gwylio ar wefan Pantyfedwen: https://www.jamespantyfedwen.cymru/lecture.html

Adeilad Pantyfedwen

Y mae nifer fawr o logwyr bellach yn defnyddio cyfleusterau Pantyfedwen, ac mae'n braf iawn cael croesawu criwiau amrywiol i'r adeilad – i gynnal pwyllgor bach yn Ystafell Tom Jones (hyd at 8 o bobl), pwyllgor mwy neu gynhadledd yn Ystafell y Bwrdd (hyd at 18/20 o bobl), a rhai sefydliadau yn defnyddio'r ddwy ystafell yn ogystal â'r lolfa sy'n gallu, o gau'r drysau gwydr, droi yn ystafell arall gyfforddus. Ceir sgriniau mawr yn Ystafell Tom Jones ac Ystafell y Bwrdd, ac fe'u defnyddir yn aml ar gyfer cyfarfodydd hybrid neu i ddangos amrywiol gyflwyniadau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd cyfle i groesawu amryw o bwyllgorau a chynrychiolwyr i'r adeilad, gan gynwys amrywiol bwyllgorau Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Pwyllgor Cristion, Bwrdd Cyfarwyddwyr Yes Cymru, Pwyllgor Gwaith Barddas, Cyngor Llyfrau Cymru, yn ogystal â chwmnïau masnachol megis LEB Construction.

Am fanylion llogi unrhyw ofod, cysyllter â Swyddfa Pantyfedwen – 01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

Ystafell Bwyllgor Tom Jones

Y Dderbynfa

Ystafell y Bwrdd

RHIF ELUSEN: 1069598

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiadau Ariannol

31 Mawrth 2023

CYFRIFWYR SIARTREDIG FRANCIS GRAY
Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol
Tŷ Madog
32 Queens Road
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HN

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiadau Ariannol

31 Mawrth 2023

	Tud.
Adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr	1
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Ymddiriedolwyr	5
Datganiad o'r gweithgareddau ariannol	8
Datganiad o'r sefyllfa ariannol	9
Datganiad Llif Arian	10
Nodiadau i'r datganiad ariannol	11
Nid yw'r tudalennau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol	
Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol	24
Nodiadau i'r datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol	25

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2023.

Manylion cyfreithiol a gweinyddol

Enw cofrestredig yr elusen	Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Rhif cofrestredig yr elusen	1069598
Swyddfa'r elusen	Pantyfedwen 9 Stryd y Farchnad Aberystwyth Ceredigion SY23 1DL

Ymddiriedolwyr

Miss Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)	
Yr Athro Jane Aaron	
Dr Eurfyl ap Gwilym	
Mr R Alun Charles	
Y Parchedig Dr R Alun Evans	
Y Parchedig Melda Grantham	
Dr Rhidian Griffiths	
Yr Athro Kevin Michael Holland	
Y Parchedicaf Andy John, Archesgob Cymru	
Mr W Gwyn Jones	(apwyntiwyd Mawrth 2023)
Miss Siân Lloyd Jones	
Mr Wyn Penri Jones	
Mr David Gwynder Lewis	
Y Parchedig Judith Morris	
Y Parchedig Meirion Morris	(hyd at Fehefin 2022)
Y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies	(apwyntiwyd Gorffennaf 2022)
Y Parchedig Dyfrig Rees	
Mr Ken Richards	(hyd at Orffennaf 2022)
Mrs Amanda Roberts	
Mr Gethin Thomas	
Dr Eryn White	

Ysgrifennydd Gweithredol	Ms Gwenan Creunant
Archwilydd	Cyfrifyddion Siartredig Francis Gray Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol Tŷ Madog 32 Heol y Frenhines Aberystwyth Ceredigion SY23 2HN
Bancwyr	HSBC 19 Stryd Fawr Aberystwyth Ceredigion SY23 1DE

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

Rheolwyr Buddsoddi

Partneriaid Evelyn, Lerpwl

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Hanes

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar y laf o Ebrill 1998 wrth uno'r ddwy ymddiriedolaeth flaenorol - Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (sefydlwyd yn 1967). Syr D J James oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymddiriedolaethau hyn, a'i amcan oedd creu gwaddol parhaol a fyddai o fudd i bobl Cymru. Llwyddwyd i gynnwys holl ddibenion yr ymddiriedolaethau gwreiddiol yng nghyfansoddiad yr ymddiriedolaeth newydd.

Ymddiriedolwyr

Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan bedwar ar bymtheg o Ymddiriedolwyr, chwech ohonynt yn Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi a thri ar ddeg o Ymddiriedolwyr Cyffredin. Cafwyd dau newid ymhlith yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2022-23.

Ym Mis Gorffennaf 2022, ymddeolodd Mr Ken Richards fel Ymddiriedolwr, a diolchwyd iddo am ei gefnogaeth a'i gyfraniadau dros gyfnod o ugain mlynedd. Cafodd ei arbenigedd ym maes cyllid a buddsoddiadau ei werthfawrogi'n fawr gan y Pwyllgor Gweithredol.

Mae Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Ymddiriedolwr yn rhinwedd ei swydd, ac ym mis Mehefin 2022, bu i'r Parchedig Meirion Morris ymddeol o'i swydd, ac felly, daeth ei gyfnod i ben fel aelod o'r Pwyllgor Ceisiadau ac o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Yn ystod ei ddeng mlynedd yn y swydd, bu ei gefnogaeth i waith yr Ymddiriedolaeth yn werthfawr iawn, a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Cafodd y Parch Nan Wyn Powell-Davies ei phenodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol newydd, ac fe'i croesawyd i Fwrdd Ymddiriedolwyr Pantyfedwen yng nghyfarfod Gorffennaf 2022.

Amcanion a gweithgareddau

Rydym wedi cyfeirio at y canllawiau a geir yn arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion ac wrth gynllunio ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau o fewn portffolio amrywiol, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau syn pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau. Pery'r cytundeb gyda Chwmni Rheolwyr Buddsoddi Evelyn Partners (cwmni a fu dan yr enw Tilney/Smith & Williamson) o dan y model rheoli dewisol y cytunwyd i'w weithredu yn 2016.

Bu'r flwyddyn ariannol 2022-23 eto'n ddigon heriol ac ansicr i'r marchnadoedd arian, o fewn y DG ac yn fyd-eang, gyda'r rhyfel yn parhau rhwng Rwsia ac Wcráin, chwyddiant yn codi i ffigyrau dwbl, cwymp y Silicon Valley Bank yn yr Unol Daleithiau a phroblemau Credit Suisse yn Ewrop, a chyfraddau llog yn parhau i godi drwy gydol y flwyddyn. Erbyn 31 Mawrth 2023, roedd Prif Gronfa'r Ymddiriedolaeth yn werth £14,716,724, gan gynnwys arian parod gwerth £8,810, a'r Gronfa Wrth Gefn yn werth £1,397,531, gan gynnwys £28,803 o arian parod. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol felly, roedd cyfanswm cronfeydd Pantyfedwen yn werth £16,114,255 (2022: £16,786,795. Roedd yr incwm a dderbyniwyd o fuddsoddiadau yn ystod 2022-23 yn well na'r ychydig o flynyddoedd blaenorol; derbyniwyd cyfanswm o £559,100, o'i gymharu â £492,178 y flwyddyn flaenorol. Ond, o ystyried y cynnydd mewn costau o bob math, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn o'r angen am fwy o incwm er mwyn sicrhau digon o gyllid i ddosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestru'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn gyson a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2022.

Cyflawniadau a pherfformiad

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £436,753 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £515,519 mewn grantiau.

Talwyd y grantiau isod:

	2023
	£
Adeiladau Crefyddol	90,000
Offer ac Adnoddau	12,250
Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr)	304,374
Eisteddfodau	83,507
Urdd Gobaith Cymru	24,500
Darlith Flynyddol Morlan Pantyfedwen	888
	515,519

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwysi (adeiladau, cyhoeddiadau, offer ac adnoddau) ac Eisteddfodau fel atodiadau i'r cyfrifon.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 69 o fyfyrwyr uwchraddedig i'w cynorthwyo gyda'r ffioedd dysgu hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Adolygiad ariannol

Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau yn ystod 2022-23 oedd £582,322 (2022: £514,027). Cyfanswm y gwariant elusennol uniongyrchol oedd £564,545 (2022: £662,723). Roedd costau rheoli'r cronfeydd yn £67,104 (2022: £70,830).

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd gan yr Ymddiriedolaeth £50,443 yn ei Chronfa Adeiladau a Chyfarpar. Gan na fu bron ddim gwariant ar yr adeilad yn ystod 2022-23, penderfynodd cyfarfodydd Ymddiriedolwyr Mawrth 2023 nad oedd angen Trosglwyddiadau pellach i'r Gronfa hon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (parhad)

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

Datganiad Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, datganiadau sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn, a'r modd y defnyddir adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifo addas a'u cymhwyso'n gyson;
- ystyried y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifo cymwys y DG, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion yr elusen a datgelu sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, y Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) perthnasol, a darpariaethau Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd y camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar 27.07.2023 ...ac fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

GPJones
GPJones (Sep 12, 2023 17:47 GMT+1)

Miss Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)
Ymddiriedolwr

Gwenan Creunant
Gwenan Creunant (Sep 12, 2023 17:24 GMT+1)

Ms Gwenan Creunant
Ysgrifennydd Gweithredol

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen (yr 'elusen') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023; mae'r rhain yn cynnwys datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, datganiad llif arian parod, a'r nodiadau perthnasol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo Deyrnas Gyfunol, sy'n cynnwys FRS102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland" (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2023 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y defnyddiwyd adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) (SARh(DG)) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau ymhellach, yn ôl y safonau hynny, yn yr adran am gyfrifoldebau'r archwilydd am archwiliad y datganiadau ariannol o fewn yr adroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen, yn unol â gofynion moesegol perthnasol archwiliad datganiadau ariannol yn y DG, gan gynnwys Safon Moesegol yr FRC, ac rydym wedi cwblhau ein holl gyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr archwiliad yn ddigonol ac yn addas fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â'r elusen

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi ei gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg honno yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, o leiaf o'r adeg honno yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth bellach

Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilwyr ar y rheiny. Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth bellach. Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth bellach, ac nid ydym yn dod i unrhyw fath o gasgliad ar yr wybodaeth bellach oni bai fod hynny wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad.

Wrth gwblhau ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'n gyfrifoldeb arnom ddarllen y wybodaeth bellach, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth bellach yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gasglwyd gennym wrth baratoi'r archwiliad neu wedi ei gamgofnodi mewn modd sylweddol. Os sylwn ar anghysondebau neu gamgofnodi o'r math hwn, rhaid i ni benderfynu a oes yna gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol neu gamgofnod o unrhyw wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar ein gwaith ar yr archwiliad, fod yna gamgofnod neu gamddatganiad o'r wybodaeth arall yma, rhaid i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar yr uchod.

Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r elusen a'i hamgylchedd a gasglwyd gennym wrth wneud yr archwiliad, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni eich hysbysu os yw'r canlynol yn berthnasol yn ein barn ni:

- nid yw'r wybodaeth a geir yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r cofnodion yn y datganiadau ariannol; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifo digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a sicrhau eu bod yn cynnig golwg teg a gonest; maent hefyd yn gyfrifol am osod y rheolaeth fewnol y teimlant sydd ei hangen er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu, gan ddadlennu, yn ôl yr angen, unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnes a sail gyfrifyddol y busnes oni bai fod yr Ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r busnes i ben neu fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Ein nod yw gallu rhoi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant fod archwiliad a gwblhawyd yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) bob amser yn llwyddo i ddarganfod camddatganiad. Gall camddatganiadau fod o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, yn un enghraifft neu'n lluosog, a chânt eu hystyried o bwys os gallant yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â fframwaith cyflwyno teg, i werthuso cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

Y Defnydd o'n Hadroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r elusen, fel corff, yn unig, yn unol â rhan 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Gwnaethpwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn oedd yn gyfrifoldeb arnom i'w gynnwys yn adroddiad yr archwilwyr yn unig ac nid i unrhyw bwrpas arall. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb am unrhyw gorff heblaw am yr elusen, ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r farn a ffurfiwyd gennym.



Robert Gray (Uwch Archwilydd Statudol)

Ar ran
Cyfrifyddion Siartredig Francis Gray
Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol
Tŷ Madog
32 Heol y Frenhines
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HN

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2023

		2023			2022
		Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd**	Cyfanswm cronfeydd
	Nodyn	£	£	£	£
Incwm a Gwaddolion					
Incwm o fuddsoddiadau	**4**	582,322	–	**582,322**	514,027
Incwm arall	**5**	5,783	576,066	**581,849**	302,618
Cyfanswm Incwm		588,105	576,066	**1,164,171**	816,645
Gwariant					
Gwariant ar godi arian:					
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi	**6**	6,014	61,090	**67,104**	70,830
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**7,8**	564,546	–	**564,546**	662,723
Gwariant arall	**11**	–	–	–	20,000
Cyfanswm Gwariant		570,560	61,090	**631,650**	753,553
Enillion / (Colledion) net ar fuddsoddiadau	**12**	(110,241)	(1,059,909)	**(1,170,150)**	467,772
Incwm / (Gwariant) net a Symudiadau mewn cronfeydd		(92,696)	(544,933)	**(637,629)**	530,864
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		317,373	(317,373)	–	–
Symudiadau net yn y cronfeydd		224,677	(862,306)	**(637,629)**	530,864
Cysoni'r cronfeydd					
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		1,358,685	15,999,031	**17,357,716**	16,826,852
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen		1,583,362	15,136,725	**16,720,087**	17,357,716

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.
Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

31 Mawrth 2023

	Nodyn	2023 £	2023 £	2022 (ailddatganwyd) £
Asedau sefydlog				
Asedau sefydlog diriaethol	16		**140,000**	140,000
Buddsoddiadau Eiddo	17		**280,000**	280,000
Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	18		**16,076,644**	16,654,101
			16,496,644	17,074,101
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	19	**4,094**		4,758
Arian yn y banc ac mewn llaw		**345,673**		484,720
		349,767		489,478
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	20	**76,654**		155,420
Asedau cyfredol net			**273,113**	334,058
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			**16,769,757**	17,408,159
Darpariaethau				
Cronfa Adeiladau a Chyfarpar a Chostau'r Gyfrol	21		**49,670**	50,443
Asedau net			**16,720,087**	17,357,716
Cronfeydd yr elusen				
Cronfeydd cyfyngedig:				
Cronfa ailbrisio wrth gefn			**140,000**	140,000
Cronfeydd cyfyngedig eraill			**14,996,725**	15,859,031
Cronfeydd anghyfyngedig			**1,583,362**	1,358,685
Cyfanswm cronfeydd yr elusen	23		**16,720,087**	17,357,716

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'u hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi ....., Fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

GPJones
GPJones (Sep 12, 2023 17:47 GMT+1)

Miss Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth)
Ymddiriedolwr

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad Llifoedd Arian

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

	2023	2022 (ailddatganwyd)
	£	£
Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Incwm / (gwariant) net	**(637,628)**	530,864
Addasiadau:		
Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau	**1,170,150**	(467,772)
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**(581,750)**	(514,001)
Llogau eraill sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	**(572)**	(26)
Llogau taladwy a thaliadau tebyg	**38**	144
Enillion a (cholledion) ar waredu buddsoddiadau	**(580,597)**	(299,843)
Newidiadau:		
Dyledwyr masnach ac eraill	**664**	(1,533)
Credydwyr masnach ac eraill	**(78,766)**	75,726
Darpariaethau a buddion cyflogai	**(774)**	5,839
Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau	**(709,235)**	(670,602)
Llog a dalwyd	**(38)**	(144)
Llog a dderbyniwyd	**572**	26
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredol	**(708,701)**	(670,720)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**581,750**	514,001
Prynu buddsoddiadau	**(2,837,139)**	(1,698,338)
Derbyniadau o werthu buddsoddiadau	**2,821,018**	1,950,590
Addasiad llif arian buddsoddiadau	**4,025**	1,891
Arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**569,654**	768,144
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian a chyfwerthoedd arian	**(139,047)**	97,424
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r flwyddyn	**484,720**	387,296
Arian a chyfwerthoedd ar ddiwedd y flwyddyn	**345,673**	484,720

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 22 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau i'r datganiad ariannol

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

1. Gwybodaeth gyffredinol

Mae'r elusen wedi'i chofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr ac yn anghorfforedig. Cyfeiriad swyddfa'r elusen yw Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1DL.

2. Datganiad o Gydymffurfiad

Paratowyd y datganiadau ariannol yma yn unol ag FRS 12, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon', y Datganiad o Arferion a Argymhellir i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (SORP Elusennau (FRS102)) a Deddf Elusennau 2011.

3. Polisïau Cyfrifo

(a) Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail cost hanesyddol, a'u haddasu wedi ail-brisiant asedau a rhwymedigaethau a buddsoddiadau sy'n cael eu mesur ar werth teg drwy incwm a gwariant.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling gan mai dyma arian cyfred gweithredol yr elusen.

(b) Busnes gweithredol

Nid oes unrhyw ansicrwydd gwirioneddol ynglŷn â pharhad yr elusen.

(c) Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid weithiau amcangyfrif a llunio barn a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a nodir. Caiff yr amcangyfrifon a'r farn eu hadolygu'n gyson a'u seilio ar brofiad a ffactorau eraill, gan gynnwys digwyddiadau posib yn y dyfodol.

(ch) Cyfrifeg y Gronfa

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu dibenion yr elusen.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig a glustnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect neu ymrwymiad penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig naill ai yn gronfeydd incwm cyfyngedig neu'n gronfeydd gwaddol, ac yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr neu'r apêl wedi nodi cyfyngiadau penodol ar eu gwariant.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(d) Incwm

Cydnabyddir pob incwm y mae gan yr elusen hawl i'w dderbyn yn y datganiad o weithgareddau ariannol; mae'n debygol y bydd unrhyw fuddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r incwm yn dod i'r elusen ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Mae'r polisïau penodol canlynol yn berthnasol i gategorïau arbennig o incwm:

- Cydnabyddir rhoddion a grantiau pan geir tystiolaeth o hawl i'r rhodd, pan geir tebygolrwydd o dderbyn y rhodd, a phan ellir mesur y swm mewn modd dibynadwy.

- Cydnabyddir cymynroddion pan mae yna debygolrwydd o dderbyn y rhodd a bod yr hawl i'r rhodd wedi'i gadarnhau.

- Mesurir incwm o roddion ar werth teg y nwyddau, oni bai ei bod yn anymarferol ei fesur yn ddibynadwy; yn yr achosion hynny, nodir gwerth y gost i'r rhoddwr neu amcangyfrif o bris ail-werthu. Cydnabyddir cyfleusterau a gwasanaethau rhoddedig yn y cyfrifon unwaith y'u derbynnir os gellir mesur y gwerth mewn modd dibynadwy. Ni chynhwysir unrhyw symiau am gyfraniadau gwirfoddolwyr cyffredinol.

- Cydnabyddir unrhyw incwm o gytundebau am wasanaethau ar drosglwyddiad y gwasanaeth dan gytundeb. Fe'i nodir fel cronfa anghyfyngedig oni bai fod gofyn cytundebol iddo gael ei wario ar bwrpas penodol a'i ddychwelyd os na chaiff ei wario; yn yr achos hwn, fe'i cydnabyddir fel cronfa gyfyngedig.

(dd) Gwariant

Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau pan geir rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw Dreth ar Werth na ellir ei hawlio yn ôl yn gyfan gwbl, ac fe'i dosberthir o dan y penawdau gweithgarwch ariannol perthnasol:

- Gwariant ar godi arian, yn cynnwys costau holl weithgareddau codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachol anelusennol a gwerthiant rhoddion.

- Gwariant ar weithgareddau elusennol, yn cynnwys holl gostau'r elusen a'r gweithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr elusen er mwyn y buddiolwyr, gan gynnwys y costau gweinyddol a'r costau llywodraethiant sydd yn ymwneud â'r gweithgareddau elusennol.

- Mae gwariant arall yn cynnwys unrhyw wariant nad yw'n ymwneud â chodi arian ar gyfer yr elusen nac yn rhan o'r gwariant ar weithgareddau elusennol.

Rhestrir y costau i gyd dan benawdau gwariant sy'n berthnasol i'r defnydd o'r adnodd. Mae costau uniongyrchol unrhyw weithgaredd unigol yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Os rhennir unrhyw gostau, cânt eu dosbarthu rhwng y gweithgareddau perthnasol mewn modd rhesymol a chyson ac mewn modd y gellir ei gyfiawnhau.

(e) Asedau diriaethol

Cofnodir asedau diriaethol yn ôl y gost wreiddiol, a'u nodi wedi hynny ar y gost wreiddiol, llai'r dibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad rhesymol. Cofnodir asedau diriaethol a gafodd ail-brisiant ar eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail-brisiant llai unrhyw ddibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad a grynhowyd wedi hynny.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

Cofnodir unrhyw gynnydd mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod yn gwrthdroi unrhyw leihad sydd eisoes wedi ei gydnabod fel gwariant o fewn y datganiad o weithgareddau ariannol. Cofnodir unrhyw ostyngiad mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod wedi'i osod yn erbyn unrhyw enillion ail-brisiant blaenorol; yn yr achos hwnnw, nodir y gostyngiad gydag enillion neu golledion eraill ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

(f) Dibrisiant

Cofnodir dibrisiant er mwyn dileu cost neu werth yr ased, llai ei werth gweddilliol, dros oes economaidd fuddiol yr ased fel a ganlyn:

- Dull ailbrisio

(ff) Buddsoddiadau

Cofnodir buddsoddiadau a restrir ar werth teg, gan nodi'r newidiadau mewn gwerth teg o fewn yr incwm a'r gwariant..

(g) Eiddo buddsoddi

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu cofnodi yn y lle cyntaf ar gost, sy'n cynnwys pris prynu ac unrhyw wariant y gellir ei briodoli yn uniongyrchol.

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu hailbrisio i'w gwerth teg ar bob dyddiad adrodd ac unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm neu wariant.

Os nad oes mesur dibynadwy o werth teg bellach ar gael heb gost neu ymdrech ormodol ar gyfer eitem o fuddsoddiadau eiddo, bydd yn cael ei drosglwyddo i asedau diriaethol a'i drin felly hyd nes y disgwylir y gellir mesur gwerth teg mewn modd dibynadwy ar sail barhaus.

(ng) Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

Mae buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen yn cael eu gwneud yn gyfan gwbl i hyrwyddo nodau'r elusen drwy gyllido gweithgareddau penodol. Mesurir offerynnau ecwiti ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd os gellir eu mesur yn ddibynadwy neu am gost â lleihad.

(h) Amhariad asedau sefydlog

Cynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion amhariad ar bob dyddiad adrodd, ac amcangyfrifir y swm adferadwy lle mae dangosyddion o'r fath yn bodoli. Os yw'r gwerth cario yn fwy na'r swm adferadwy, caiff yr ased ei amharu yn unol â hynny. Adolygir namau blaenorol hefyd ar gyfer gwrthdro posibl ar bob dyddiad adrodd.

At ddibenion profi amhariad, pan nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adferadwy ased unigol, gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddo. Yr uned cynhyrchu arian yw'r grŵp lleiaf adnabyddadwy o asedau sy'n cynnwys yr ased ac sy'n cynhyrchu mewnlifoedd arian sy'n annibynnol yn bennaf o'r mewnlifiadau arian parod o asedau eraill neu grwpiau o asedau.

Ar gyfer profi amhariad ewyllys da, yr ewyllys da a gaffaelwyd mewn cyfuniad busnes yw, o'r dyddiad caffael, i bob un o'r unedau cynhyrchu arian y disgwylir iddynt elwa o synergeddau'r cyfuniad, ni waeth a yw asedau neu rwymedigaethau eraill y mae elusen yn cael ei neilltuo i'r unedau hynny.

3. Polisïau Cyfrifo (*parhad*)

(i) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan yr elusen ymrwymiad ar y dyddiad adrodd i ddigwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad. Nodir darpariaethau fel rhwymedigaeth yn y datganiad o weithgareddau ariannol a swm y ddarpariaeth fel gwariant.

Mesurir y darpariaethau'n wreiddiol drwy amcangyfrif y swm fyddai ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd, a chaiff y swm ei adolygu ar bob dyddiad adrodd wedi hynny a'i addasu i adlewyrchu'r amcangyfrif gorau posib. Cofnodir unrhyw addasiadau i'r symiau blaenorol o fewn incwm a gwariant, oni bai fod y ddarpariaeth wedi'i chydnabod yn wreiddiol fel rhan o gost ased. Pan fo darpariaeth yn cael ei mesur ar werth cyfredol y swm y disgwylir y bydd ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth, cydnabyddir dad-ddirwyn y disgownt fel cost ariannol yn y datganiad o weithgareddau ariannol o fewn y cyfnod perthnasol, a chaiff ei nodi o dan y pennawd gwariant addas.

(j) Offerynnau ariannol

Cydnabyddir ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn unig pan fydd yr elusen yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol yn wreiddiol am y swm sy'n dderbyniadwy neu'n daladwy, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n perthyn i'r gweithrediad.

Mesurir asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol ymhellach am yr arian neu ystyriaeth arall y disgwylir i gael ei dalu neu ei dderbyn am y pris llawn.

Mesurir offerynnau dyled dilynol ar gost amorteiddiedig.

Pan fydd buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau yn cael eu masnachu'n gyhoeddus, neu pan fydd modd mesur eu gwerth teg yn ddibynadwy, mesurir y buddsoddiad wedi hynny ar werth teg gydag unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm a gwariant. Mesurir pob buddsoddiad tebyg wedi hynny ar gost, llai gostyngiad.

Cydnabyddir offerynnau ariannol eraill, gan gynnwys deilliannau, ar werth teg, oni bai fod taliad am ased wedi ei ohirio y tu hwnt i dermau busnes arferol neu wedi'i gyllido ar raddfa llog nad yw'n gyfystyr â graddfa'r farchnad. Yn yr achos hwnnw, mesurir yr ased ar werth cyfredol taliadau'r dyfodol wedi'u lleihau yn unol â graddfa llog y farchnad am offeryn dyled tebyg.

Mesurir offerynnau ariannol eraill yn ddilynol ar werth teg, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol, heblaw am offerynnau rhagfantoli o fewn perthynas rhagfantoli ddynodedig.

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost neu gost amorteiddiedig yn cael eu hadolygu am dystiolaeth wrthrychol o leihad ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Os ceir tystiolaeth wrthrychol o leihad, cydnabyddir y lleihad o dan y pennawd perthnasol yn y datganiad o weithgareddau ariannol lle cydnabuwyd y cynnydd gwreiddiol.

Asesir pob offeryn ecwiti yn unigol am leihad, beth bynnag fo'u harwyddocad; gwneir yr un modd gydag asedau ariannol eraill sydd ag arwyddocad unigol. Asesir pob ased ariannol arall yn unigol neu mewn grŵp ar sail nodweddion risg ariannol tebyg.

Cofnodir unrhyw leihad a wrthdroir ar unwaith, fel nad oes modd i'r gwrthdroad olygu parhau swm yr ased ariannol sy'n fwy na'r swm petai'r lleihad heb ei gydnabod ynghynt.

3. Polisïau Cyfrifo *(parhad)*

(l) Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cydnabyddir cyfraniadau i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel gwariant yn y cyfnod y darperir y gwasanaeth perthnasol. Cydnabyddir cyfraniadau a rag-dalwyd fel ased i'r graddau y bydd y rhag-daliad yn arwain at leihad mewn taliadau yn y dyfodol neu ad-daliad arian parod.

Pan nad oes disgwyl i gyfraniadau gael eu talu'n llawn o fewn 12 mis i ddiwedd y cyfnod pan ddisgwylir i'r cyflogeion ddarparu'r gwasanaeth perthnasol, mesurir y rhwymedigaeth ar sail y gwerth cyfredol disgowntedig. Bydd dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel gwariant yn y cyfnod pan fo'n digwydd.

4. Incwm

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2023**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2022 *(ailddatganwyd)*
	£	**£**	£	£
Pantyfedwen, Stryd y Farchnad, Aberystwyth – Incwm Rhent	22,650	**22,650**	21,823	21,823
Incwm o fuddsoddiadau	559,100	**559,100**	492,178	492,178
Llog a dderbynnir	572	**572**	26	26
	582,322	**582,322**	514,027	514,027

Mae incwm Pantyfedwen yn cynnwys incwm rhent tymor hir ac incwm o logi'r cyfleusterau.

5. Incwm arall

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2023**
	£	£	**£**
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	4,531	576,066	**580,597**
Incwm arall	1,252	–	**1,252**
	5,783	576,066	**581,849**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd** 2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£	£
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	27,036	272,807	299,843
Incwm arall	2,775	–	2,775
	29,811	272,807	302,618

6. Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2023**
	£	£	**£**
Rheoli portffolio	6,014	61,090	**67,104**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd** 2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£	£
Rheoli portffolio	70,830	–	70,830

Ffioedd rheoli portffolio a gydnabuwyd yn flaenorol yn erbyn y gronfa anghyfyngedig yn erbyn incwm buddsoddi, o hyn ymlaen i'w cydnabod yn erbyn y gronfa gyfatebol. Er gwybodaeth roedd taliadau 2022 yn £6,780 ar gyfer y gronfa anghyfyngedig a £64,050 ar gyfer y Brif Gronfa.

Gwnaethpwyd Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd i gydnabod blynyddoedd blaenorol fel uchod ers i daliadau rheoli gael eu cydnabod fel eitem ar wahân.

7. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl cronfa

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd **2023**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2022 *(ailddatganwyd)*
	£	**£**	£	£
Grantiau taladwy	436,753	**436,753**	533,167	533,167
Costau gweinyddol	127,793	**127,793**	129,556	129,556
	564,546	**564,546**	662,723	662,723

8. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl gweithgaredd

	Ariannu gweithgaredd-au grant	Costau gweinyddol	**Cyfanswm cronfeydd 2023**	**Cyfanswm cronfeydd** 2022
	£	£	**£**	£
Grantiau taladwy	436,753	122,954	**559,707**	657,834
Costau llywodraethiant	–	4,839	**4,839**	4,889
	436,753	127,793	**564,546**	662,723

9. Dadansoddiad o gostau gweinyddol

	Costau gweinyddol - cyllid grant	**Cyfanswm 2023**	**Cyfanswm** 2022
	£	**£**	£
Costau gweinyddol – Staff	103,569	**103,569**	98,931
Costau gweinyddol – Adeilad	19,385	**19,385**	12,090
Costau llywodraethiant – Costau cyllid	39	**39**	146
Costau llywodraethiant – Ffioedd proffesiynol	4,800	**4,800**	4,745
Costau – Llyfr	-	**-**	13,645
	127,793	**127,793**	129,557

10. Dadansoddiad o grantiau a ddyfarnwyd

	2023	2022 (ailddatganwyd)
	£	£
Grantiau i sefydliadau		
Grantiau i adeiladau crefyddol ac elusennau	**55,000**	89,550
Grantiau i Eisteddfodau	**63,991**	54,524
Grantiau i Urdd Gobaith Cymru	**12,000**	22,500
Grantiau i Ddarlith Morlan-Pantyfedwen	**888**	–
Grantiau i gyhoeddiadau	**500**	1,000
	132,379	167,574
Grantiau i unigolion		
Grantiau i fyfyrwyr	**304,374**	365,593
Grantiau a ddyfarnwyd	**436,753**	533,167

11. Gwariant arall

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2023**	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd** 2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£	£	£
Trosglwyddiadau i'r Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	–	–	20,000	20,000

12. Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2023**
	£	£	£
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	(110,241)	(1,059,909)	**(1,170,150)**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd** 2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£	£
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	(25,149)	492,921	467,772

13. Cydnabyddiaeth archwilwyr

	2023	2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£
Ffioedd yn daladwy am archwilio'r datganiadau ariannol	**2,500**	2,500

14. Costau staff

Mae cyfanswm costau staff a buddion cyflogeion am y cyfnod adrodd fel a ganlyn:

	2023	2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£
Cyflogau a thaliadau	**86,657**	85,113
Costau nawdd cymdeithasol	**4,791**	5,305
Cyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau pensiwn	**12,121**	8,513
	103,569	98,931

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 2 aelod o staff yn ystod y flwyddyn (2022: 2).

	2023 Nifer	2022 Nifer.
Nifer o staff	**2**	2

Dyma nifer y gweithwyr yr oedd eu tâl am y flwyddyn yn dod o fewn y bandiau canlynol:

	2023 Nifer	2022 Nifer
£60,000 hyd at £69,999	**1**	–

15. Cydnabyddiaeth a chostau Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr dâl na buddion cyflogaeth eraill gan yr elusen neu gorff perthnasol.

16. Asedau sefydlog diriaethol

	Eiddo rhydd-ddaliad
	£
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2022 (ailddatganwyd) a 31 Mawrth 2023	**220,878**
Dibrisiant	
1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023	**80,878**
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2023	**140,000**
31 Mawrth 2022	140,000

Asedau sefydlog diriaethol a gafodd eu prisio

Ail-brisiwyd yr eiddo a elwir yn 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, yn £420,000 gan Iestyn Leyshon, FRICS, o Lloyd Herbert & Jones, Chwefror 2021. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i gario'r gwerth hwn ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn. Mae ail-brisiad yr asedau wedi cael ei gydnabod yn gymesur â defnydd y gofod yng ngweinyddiaeth gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth. (Gweler nodyn 17)

17. Buddsoddiadau

	Buddsoddiad -au eiddo
	£
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023	**280,000**
Lleihad	
1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023	
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2023	**280,000**
31 Mawrth 2022	280,000

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddangosir uchod yn cael eu dal ar eu prisiant.

Buddsoddiadau eiddo

Yn ôl FRS 102 (paragraff 16.4), mae 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth yn eiddo aml-ddefnydd ac felly rhaid gwahanu'r defnydd ohono yn eiddo rhydd-ddaliadol ac eiddo buddsoddi. Gan fod yr Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm rhent ar hyn o bryd am 2 o'r 3 llawr penderfynwyd rhannu'r prisiad yn ôl y gyfran hon. (Gweler nodyn 16).

18. Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

	£
Cost neu werth	
1 Ebrill 2022 (ailddatganwyd)	**16,654,101**
Ychwanegiadau	**2,837,139**
Gwarediadau	**(2,240,421)**
Ail-brisiant	**(1,170,150)**
Symudiadau eraill	**(4,025)**
31 Mawrth 2023	**16,076,644**

19. Dyledwyr

	2023	2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£
Dyledwyr eraill	**4,094**	4,758

Mae dyledwyr eraill yn cynnwys treth a ddidynnwyd yn wreiddiol o'r incwm buddsoddi, ond sydd i'w ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

20. Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn

	2023	2022 *(ailddatganwyd)*
	£	£
Croniadau ac incwm gohiriedig	**4,825**	4,825
Incwm gohiriedig gan y GIG	**4,242**	4,242
Credydwyr eraill	**67,587**	146,353
	76,654	155,420

Mae credydwyr eraill yn cynnwys y grantiau sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

	2023	2023	2022	2022
	£	£	£	£
Grantiau taladwy a ddygwyd ymlaen		**146,353**		70,014
Grantiau a awdurdodwyd yn y flwyddyn	**438,109**		537,943	
Grantiau nad ydynt bellach yn daladwy / i'w had-dalu	**(1,356)**		(1,661)	
		436,753		536,282
Cyfanswm y grantiau taladwy		**583,106**		606,296
Grantiau a dalwyd		**(515,519)**		(459,943)
Grantiau taladwy ar 31 Mawrth		**67,587**		146,353

21. Darpariaethau

	Cronfa Adeiladau a Chyfarpar
	£
1 Ebrill 2022 (ailddatganwyd)	**50,443**
Tâl yn erbyn y ddarpariaeth	**(773)**
31 Mawrth 2023	**49,670**

22. Pensiynau a buddion eraill yn dilyn ymddeoliad

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Y swm a gydnabyddir fel incwm neu wariant o dan gost cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yw £12,121 (2022: £8,513).

23. Dadansoddiad o gronfeydd yr elusen

Cronfeydd anghyfyngedig

	1 Ebrill 2022 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2023 £**
Cronfeydd anghyfyngedig	1,358,685	588,105	(570,560)	317,373	(110,241)	**1,583,362**

	1 Ebrill 2021 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	31 Mawrth 2022 £
Cronfeydd anghyfyngedig	1,593,549	543,838	(753,553)	–	(25,149)	1,358,685

Cronfeydd cyfyngedig

	1 Ebrill 2022 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2023 £**
Cronfeydd cyfyngedig	15,859,031	576,066	(61,090)	(317,373)	(1,059,909)	**14,996,725**
Cronfa ailbrisio wrth gefn	140,000	–	–	–	–	**140,000**
	15,999,031	576,066	(61,090)	(317,373)	(1,059,909)	**15,136,725**

	1 Ebrill 2021 £	Incwm £	Gwariant £	Trosglwyddiadau £	Enillion a cholledion £	31 Mawrth 2022 £
Cronfeydd cyfyngedig	15,093,303	272,807	–	–	492,921	15,859,031
Cronfa ailbrisio wrth gefn	140,000	–	–	–	–	140,000
	15,233,303	272,807	–	–	492,921	15,999,031

24. Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2023 £**
Asedau sefydlog diriaethol	–	420,000	**420,000**
Buddsoddiadau	1,368,729	14,707,915	**16,076,644**
Asedau cyfredol net	340,957	8,810	**349,767**
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(76,654)	–	**(76,654)**
Darpariaethau	(49,670)	–	**(49,670)**
Asedau Net	1,583,362	15,136,725	**16,720,087**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd** 2022 £
Asedau sefydlog diriaethol	–	420,000	420,000
Buddsoddiadau	1,508,578	15,145,523	16,654,101
Asedau cyfredol net	371,973	117,505	489,478
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(155,420)	–	(155,420)
Darpariaethau	(50,443)	–	(50,443)
Asedau Net	1,674,688	15,683,028	17,357,716

25. Addasiadau blwyddyn flaenorol

Mae ffigurau Mawrth 2022 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r cywiriad ar gyfer gorwariant y ddarpariaeth llyfr sy'n cael ei wrthbwyso yng nghyfrifon 2022 yn erbyn y ddarpariaeth adeiladu. Mae'r swm wedi'i gydnabod yn y datganiad o weithgarwch ariannol ar gyfer y flwyddyn 2022, gan ailddatgan y ddarpariaeth adeiladu i'r £50,443 a ddygwyd ymlaen i'r flwyddyn 2023. Roedd y gost yn lleihau cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn a ddygwyd ymlaen gan y gwariant o £13,645 ar yr llyfr yn 2022.

26. Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

	I Ebrill 2022 £	Llif Arian £	**31 Mawrth 2023 £**
Arian yn y banc ac mewn llaw	484,720	(139,047)	**345,673**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Gwybodaeth Rheoli

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

Nid yw'r tudalennau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2023

	2023 £	2022 £
Incwm a gwaddolion		
Incwm o fuddsoddiadau		
Pantyfedwen, Stryd y Farchnad, Aberystwyth – Incwm Rhent	**22,650**	21,823
Incwm o fuddsoddiadau	**559,100**	492,178
Llog banc taladwy	**572**	26
	582,322	514,027
Incwm arall		
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	**580,597**	299,843
Incwm arall	**1,252**	2,775
	581,849	302,618
Cyfanswm incwm	**1,164,171**	816,645
Gwariant		
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi		
Rheoli portffolio	**67,104**	70,830
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Cyflogau a thaliadau	**86,657**	85,113
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**4,791**	5,305
Costau pensiwn	**12,121**	8,513
Costau gweinyddol eraill	**21,393**	13,789
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	**4,800**	4,745
Llogau a chostau tebyg	**39**	144
Grantiau taladwy	**436,753**	533,167
Gwariant a adferwyd	**(2,008)**	(1,698)
Costau Llyfr Pantyfedwen	**–**	13,645
	564,546	662,723
Gwariant arall		
Trosglwyddiadauau i Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	**–**	20,000
Cyfanswm gwariant	**631,650**	753,553
Enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau	**(1,170,150)**	467,772
Incwm / (gwariant) net	**(637,629)**	530,864

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2023

	2023 £	2022 £
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Grantiau taladwy		
Gweithgareddau cyllido grantiau		
Grantiau taladwy	**436,753**	533,167
Costau cymorth		
Costau cymorth - Cyflogau a thaliadau	**86,657**	85,113
Costau cymorth - Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**4,791**	5,305
Costau cymorth - Costau pensiwn	**12,121**	8,513
Costau cymorth - Costau gweinyddol eraill	**21,393**	13,789
Costau cymorth- Gwariant a adferwyd	**(2,008)**	(1,698)
Costau cymorth - Llyfr	**–**	13,645
	122,954	124,667
Costau llywodraethiant		
Costau llywodraethiant - Ffioedd cyfrifyddion	**2,300**	2,245
Costau llywodraethiant - Ffioedd archwilwyr	**2,500**	2,500
Costau cymorth – taliadau banc	**39**	144
	4,839	4,889
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**564,546**	662,723

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2023

Rhestr y grantiau a dalwyd i adeiladau eglwysig yn ystod 2022/23

Yr Eglwys yng Nghymru		
Eglwys Dewi Sant, Cardiff	£2,000.00	
St Mary's Church, Wenvoe	£2,000.00	
St Elli Church, Llanelli	£10,000.00	
St Catherine's Church, Canton	£1,000.00	
St Denys' Church, Lisvane	£10,000.00	
St Mary's Church, Brecon	£1,000.00	
St Fagan's Church	£4,000.00	
St Mary's Church, Llanfair Talhaiarn	£2,000.00	
		£32,000.00
Bedyddwyr		
Eglwys Annibynnol Nanternis	£1,000.00	
		£1,000.00
Baptist		
Calvary Baptist Church, Brynmawr	£8,000.00	
Ebenezer Baptist Church, Swansea	£4,000.00	
Tabernacle Baptist Church, Merthyr Tudful	£3,000.00	
		£15,000.00
Presbyteriaid		
Capel Llwyndyrys	£10,000.00	
		£10,000.00
Presbyteriaid/Bedyddwyr		
Capel Moreia Llangefni - Canolfan Glanhwfa Cyf	£12,000.00	
		£12,000.00
Eglwysi Eraill		
SS David Lewis and Francis Zavier Catholic Church, Usk	£3,000.00	
Caersalem Church, St Mellons	£5,000.00	
Tabernacle Evangelical Church, Cardiff	£4,000.00	
Mount Elim Evangelical Church, Pontardawe	£8,000.00	
		£20,000.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2023

Rhestr y grantiau a dalwyd ar gyfer offer ac adnoddau yn 2022/23

Yr Eglwys yng Nghymru		
All Saints Church, Porthcawl	£2,000.00	
St Peter's Church, Rhoose	£750.00	
		£2,750.00
Presbyteraidd		
Capel y Groes, Wrecsam	£750.00	
Capel Bethesda, yr Wyddgrug	£750.00	
		£1,500.00
Annibynwyr		
Eglwys Annibynnol Bethel, Penarth	£2,000.00	
Capel y Tabernacl, Efail Isaf	£2,000.00	
Capel Hope-Siloh, Pontarddulais	£2,000.00	
		£6,000.00
Methodistiaid		
St Paul's Methodist Centre, Aberystwyth	£2,000.00	
		£2,000.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2023

Rhestr y grantiau dalwyd i Eisteddfodau yn 2022/23

Eisteddfod Rhydlewis	£144.00
Eisteddfod Bro Aled Llansannan	£500.00
Eisteddfod Teulu James Pontrhydfendigaid	£8,200.00
Eisteddfod Pandy Tudur	£263.00
Eisteddfod Dyffryn Conwy Llanrwst	£500.00
Eisteddfod Dihewyd	£192.00
Eisteddfod Rhys Thomas James Llambed	£10,000.00
Eisteddfod Môn	£1,448.00
Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos	£156.00
Eisteddfod Marianglas	£304.00
Eisteddfod Llanuwchllyn	£466.00
Eisteddfod Mynydd y Garreg	£49.00
Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth	£300.00
Eisteddfod Heol Senni	£225.00
Eisteddfod Ryngwladol Llangollen	£12,000.00
Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl	£460.00
Eisteddfod Bethel a'r Cylch	£204.00
Eisteddfod Gadeiriol Capel Newydd, Abergorlech	£269.00
Eisteddfod Gadeiriol Crymych	£420.00
Eisteddfod y Cymoedd, Ystrad Mynach	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint	£280.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn	£226.00
Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn	£235.00
Eisteddfod Llangadog a'r Cylch	£442.00
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni	£364.00
Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys, Caersws	£357.00
Eisteddfod Gadeiriol Brynberian	£192.00
Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch	£245.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyrnog	£213.00
Eisteddfod Fach Capel Dewi, Caerfyrddin	£62.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	£340.00
Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis a'r Cylch	£43.00
Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd, Trawsfynydd	£451.00
Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel	£457.00
Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen	£218.00
Eisteddfod y Foel a'r Cylch	£173.00
Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd	£500.00
Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith	£88.00
Eisteddfod Chwilog	£380.00
Eisteddfod Felinfach	£304.00

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau ar y datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2023

Eisteddfod Llanarth	£83.00	
Eisteddfod Cwmystwyth	£500.00	
Eisteddfod Bethel, Melin y Coed	£254.00	
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (2022)	£20,000.00	
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (2023)	£20,000.00	
		£83,507.00
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (2022)	£12,500.00	
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (2023)	£12,500.00	
		£24,500.00

RJG/CMS/J034

07.07.2023

The James Pantyfedwen Foundation
9 Market Street
Aberystwyth
SY23 1DL

Francis Gray

Cyfrifwyr Siartredig
Chartered Accountants

Ty Madog
32 Queens Road
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HN

T 01970 625754
F 01970 625949
E office@francisgray.co.uk
W www.francisgray.co.uk

Dear Sirs

In accordance with our normal practice we are writing to draw your attention to various matters which arose during the course of our audit of the charity's accounts for the year ended 31 March 2023.

1. We have no comments to make concerning the qualitative aspects of the entity's accounting practices and financial reporting.
2. We did not encounter any significant difficulties during the audit and there are no significant findings from the audit to draw to your attention.
3. A draft of our proposed letter of representation is attached.
4. As you are aware from our letter of engagement, our audit procedures were directed towards testing the accounting systems in operation upon which we have based our assessment of the accounts. We did not encounter any significant weaknesses in the accounting systems during the audit and there are no significant findings from the audit to draw to your attention.
5. We do not propose any modifications to our audit opinion and hence will be issuing a clean audit report.

The firm and the audit engagement team have therefore complied with relevant ethical requirements concerning independence.

We would like to take this opportunity of expressing our thanks to Gwenan and all the staff for their assistance during the course of our audit.

Please note that this report has been prepared for the sole use of the charity only. It must not be disclosed to third parties, quoted or referred to, without our prior written consent. No responsibility is assumed by us to any other person.

ICAEW
CHARTERED
ACCOUNTANTS

Director: **Robert Gray** F.C.A.
Francis Gray is a trading name of **Francis Gray Limited**
Registered Office: Ty Madog, 32 Queens Road, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HN
Registered in England and Wales. Company No. 4345299, VAT. Reg. No. 434 0215 96
Registered to carry out audit work in the UK by ICAEW.
Registered auditor C009181544.

Francis Gray

Cyfrifwyr Siartredig
Chartered Accountants

Ty Madog
32 Queens Road
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HN

T 01970 625754
F 01970 625949
E office@francisgray.co.uk
W www.francisgray.co.uk

The purpose of the audit was to enable us to express an opinion on the financial statements. The audit included consideration of internal control relevant to the preparation of the financial statements in order to design audit procedures that are appropriate in the circumstances, but not for the purpose of expressing an opinion on the effectiveness of internal control.

If we can be of any further assistance, please contact us.

Yours faithfully



Robert Gray

ICAEW
CHARTERED
ACCOUNTANTS

Director: **Robert Gray** F.C.A.
Francis Gray is a trading name of **Francis Gray Limited**
Registered Office: Ty Madog, 32 Queens Road, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HN
Registered in England and Wales. Company No. 4345299. VAT. Reg. No. 434 0215 96
Registered to carry out audit work in the UK by ICAEW.
Registered auditor C009181544.

THE JAMES PANTYFEDWEN FOUNDATION (YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN)

England & Wales - Charity number 1069598

Accounts

Adroddiad Blynyddol

1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022

Ymddiriedolaeth

James Pantyfedwen

Foundation

Ymddiriedolwyr 2021-22

Miss Gwerfyl Pierce Jones
(Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth a Chadeirydd y Pwyllgor Ceisiadau)

Yr Athro Derec Llwyd Morgan (hyd Tachwedd 2021)
(Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol)

Yr Athro Jane Aaron

Dr Eurfyl ap Gwilym

Mr Alun Charles

Y Parchedicaf John Davies, Archesgob Cymru (hyd Fai 2021)

Y Parchedig Ddr R Alun Evans

Y Parchedig Melda Grantham

Dr Rhidian Griffiths

Y Parchedicaf Andy John, Archesgob Cymru (o Ragfyr 2021 ymlaen)

Mr Geraint R Jones (hyd Mawrth 2022)

Miss Sian Lloyd Jones

Mr Wyn Penri Jones

Mr David Gwynder Lewis

Y Parchedig Judith Morris

Y Parchedig Meirion Morris

Y Parchedig Dyfrig Rees

Mr Ken Richards

Mr Gethin Thomas

Dr Eryn White

Ysgrifennydd Gweithredol Gwenan Creunant

Cynorthwyydd gweinyddol Nel Williams

Bancwyr HSBC cyf

Archwilwyr Francis Gray (Aberystwyth)

Rheolwyr Buddsoddi Cwmni Tilney (Lerpwl)

Cyfreithiwr Mygedol Martin Davies

Cyfeiriad y swyddfa Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, SY23 1DL

Ffôn (01970) 612806

E-bost post@jamespantyfedwen.cymru

Gwefan www.jamespantyfedwen.cymru

Hanes

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar y 1af o Ebrill 1998 wrth uno'r ddwy ymddiriedolaeth flaenorol – Ymddiriedolaeth Catherine a'r Fonesig Grace James (sefydlwyd yn 1957) ac Ymddiriedolaeth John a Rhys Thomas James (sefydlwyd yn 1967). Syr D J James oedd yn gyfrifol am sefydlu'r ymddiriedolaethau hyn er cof am ei rieni, ei wraig a'i frawd, a'i amcan oedd creu gwaddol parhaol a fyddai o fudd i Gymru a'i phobl. Llwyddwyd i gynnwys holl ddibenion yr ymddiriedolaethau gwreiddiol yng nghyfansoddiad yr ymddiriedolaeth newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gwireddu'r amcanion gwreiddiol drwy gefnogi'r grwpiau canlynol o fuddiolwyr:

- myfyrwyr uwchraddedig o Gymru sy'n astudio am radd Feistr neu PhD;
- capeli neu eglwysi unigol sy'n dymuno gwella neu drwsio'r adeilad, gan roi blaenoriaeth i welliannau sy'n ymwneud â phrosiectau cenhadol neu gymunedol, neu eglwysi a chapeli sy'n dymuno prynu a gosod offer digidol neu gerddorol i hybu'r gwaith a'r genhadaeth;
- eisteddfodau cenedlaethol a lleol;
- gweithwyr Cristnogol sy'n dymuno gwneud cyrsiau dwys fydd yn datblygu eu gwaith a'u cenhadaeth;
- cyhoeddiadau ym maes diwinyddiaeth, crefydd neu athroniaeth.

Ymddiriedolwyr

Rheolir yr Ymddiriedolaeth gan bedwar ar bymtheg o Ymddiriedolwyr, chwech ohonynt yn Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi a thri ar ddeg o Ymddiriedolwyr Cyffredin. Cafwyd tri newid ymhlith yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2021-22.

Ym Mis Tachwedd 2021, penderfynodd yr Athro Derec Llwyd Morgan ymddiswyddo fel Ymddiriedolwr, a diolchwyd iddo'n ddidwyll iawn am ei aweiniad a'i gyfraniadau gwerthfawr i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen dros gyfnod o chwarter canrif. Gwasanaethodd yn wreiddiol fel Ymddiriedolwr ex-officio, fel Cadeirydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol ac Is-ganghellor Hŷn Prifysgol Cymru, cyn cael ei ethol yn Ymddiriedolwr Cyffredin yn 2004 a gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol am y ddeng mlynedd ddiwethaf. Yn dilyn ei ymddiswyddiad, cytunodd Gwerfyl Pierce Jones i weithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol ochr yn ochr â'i rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Ceisiadau a'r Ymddiriedolwyr Rheoli.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Geraint R Jones ei fod wedi penderfynu ymddiswyddo o'r Pwyllgor Gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bu Geraint yn aelod o'r Pwyllgor hwn ers 2003, a diolchwyd iddo yntau am ei gyfraniadau doeth i'r holl drafodaethau ac am ei gefnogaeth i'r Ymddiriedolaeth dros gyfnod o bron i ddau ddegawd.

Mae Archesgob Cymru yn Ymddiriedolwr yn rhinwedd ei swydd, ac ym mis Mai 2021, bu i'r Parchedicaf John Davies ymddeol o'i swydd, ac felly, daeth ei gyfnod i ben fel aelod o'r Pwyllgor Ceisiadau. Bu ei gyfraniadau i'r pwyllgor a'i gefnogaeth i waith yr Ymddiriedolaeth yn werthfawr iawn yn ystod ei gyfnod yn y swydd, a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. Etholwyd Esgob Bangor, Y Parchedicaf Andy John, yn Archesgob newydd Cymru ym mis Rhagfyr 2021, ac fe'i croesawyd i'w gyfarfod cyntaf o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2022.

Cyllid a Buddsoddiadau

Yn ystod 2021-22, hyd at y chwarter olaf, gwelwyd portffolio Pantyfedwen yn parhau i gryfhau wedi cyfnod anodd y pandemig, ond bu chwarter olaf y flwyddyn unwaith eto'n un ansicr, gyda'r byd economaidd yn gweld effeithiau'r rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin, y cynnydd parhaus mewn chwyddiant, a'r trafodaethau am gynnydd mewn cyfraddau llog. Erbyn diwedd Mawrth 2022 felly, gwerth cronfeydd yr Ymddiriedolaeth oedd £16,786,795, o'i gymharu â ffigwr o £16,166,591 flwyddyn ynghynt.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau syn pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau mewn cytundeb gyda Rheolwyr Buddsoddi Tilney, ac yn dilyn y model rheoli dewisol a gytunwyd i'w weithredu yn 2016. Yn ystod 2021-22 fodd bynnag, ymunodd Tilney â chwmni Smith & Williamson, gyda'r penderfyniad y byddai enw'r cwmni yn newid i Evelyn Partners yn ystod 2022-23.

Roedd yr incwm a dderbyniwyd rywfaint yn well na'r flwyddyn flaenorol; derbyniwyd cyfanswm o £514,027 yn ystod y flwyddyn, a'r rhan fwyaf o hwn yn dod o fuddsoddiadau a rhent. Roedd costau rheoli'r cronfeydd yn £70,830. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i drosglwyddo £100,000 eto o'r Gronfa Wrth Gefn er mwyn gallu parhau i ddosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

Gwnaed rhywfaint o waith ar adeilad Pantyfedwen, gan gynnwys gosod gwres canolog ar lawr gwaelod yr adeilad, gosod system fynediad newydd i'r timoedd sy'n gweithio yma, ac roedd yn braf croesawu llogwyr yn ôl i ddefnyddio'r cyfleusterau newydd sydd ar gael.

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestru'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn gyson a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2021.

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £537,943 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £459,943 mewn grantiau. Talwyd y grantiau isod:

Adeiladau Crefyddol	£59,500.00	Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr)	£368,708.00
Offer ac Adnoddau	£7,300.00	Eisteddfodau	£13,435.00
Cyhoeddiadau	£1,000.00	Urdd Gobaith Cymru	£10,000.00
			£450,043.00

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwysi, eisteddfodau a chyhoeddiadau fel atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 86 o fyfyrwyr uwchraddedig o Gymru i'w cynorthwyo gyda ffioedd dysgu cyrsiau Meistr a PhD, hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Rhestr y grantiau dalwyd i adeiladau eglwysig yn ystod 2021/22

Yr Eglwys yng Nghymru	Eglwys St Michael and all Angels, Llanfihangel Troddi	£4,000.00
	Eglwys Sant Teilo, Merthyr Mawr	£1,000.00
	Eglwys Sant Dunwyd, Abercynon	£3,000.00
	Eglwys Sant Ilar, Y Bontfaen	£4,000.00
	Eglwys yr Holl Saint, Drenewydd	£8,000.00
	Eglwys Sant Teilo, Llantilio Pertholau	£3,000.00
	Eglwys Sant Catwg Pentyrch	£1,000.00
	Eglwys Sant Ioan, Rhosnesni	£1,500.00
Bedyddwyr	Capel y Tabernacl, Caerdydd	£4,000.00
	Gilgal, Capel y Bedyddwyr, Porthcawl	£8,000.00
	Ainon, Capel y Bedyddwyr, Tongwynlais	£10,000.00
Annibynwyr	Capel Bryn Iwan	£4,000.00
Eglwysi Eraill	Capel Gobaith, Rhydyfelin	£8,000.00
		£59,500.00

Rhestr y grantiau dalwyd ar gyfer offer a adnoddau yn 2021/22

Yr Eglwys yng Nghymru	Eglwys Sant Marc, Gwenlli	£500.00
	Eglwys Dewi Sant, Llanarth	£300.00
Bedyddwyr	Capel Bedyddwyr Ebenezer, Abertyleri	£1,000.00
Presbyteraidd	Capel Bro Tegla, Llandegla	£4,000.00
	Capel Presbyteraidd Caersws	£2,000.00
	Capel Presbyteriadd Oakley Park, Llanidloes	£1,000.00
	Capel y Drindod, Llanidloes	£1,500.00
		£7,300.00

Rhestr y grantiau dalwyd ar gyfer cyhoeddiadau yn 2021/22

Gweddiau'r Dydd / Prayers for the Day (Llyfr Enlli/Bardsey Book)	£1,000.00
	£1,000.00

Rhestr y grantiau dalwyd i Eisteddfodau yn 2021/22

Eisteddfod Genedlaethol Cymru –Eisteddfod AmGen	£13,000.00
Eisteddfod Bethel a'r Cylch	£435.00
	£13,435.00

Grantiau i FYFYRWYR

Mae'r nifer o geisiadau am grantiau myfyrwyr yn parhau'n uchel, ac yn ystod 2021-22, llwyddwyd i roi cymorth i 86 o fyfyrwyr uwchraddedig er mwyn cyfrannu at eu ffioedd dysgu Meistr neu PhD mewn amrywiol brifysgolion a cholegau ledled Cymru a thu hwnt. £5,000 yw'r uchafswm o grant a gynigir i unrhyw unigolyn, a phenderfynodd yr Ymddiriedolwyr y dylai o leiaf 75% o grantiau myfyrwyr Pantyfedwen gael eu dosbarthu ymhlith myfyrwyr sy'n bwriadu astudio ym Mhrifysgolion Cymru. Wele isod rai o'r myfyrwyr hynny sydd wedi derbyn grantiau yn y blynyddoedd diwethaf yn rhannu eu profiadau, ond mae'n werth ymweld â'r wefan i gael hanes llawer mwy ohonynt: www.jamespantyfedwen.cymru.

Martha Grug Morse

Rydw i wedi bod yn ffodus iawn i gael dilyn cwrs MA Hanes Cymru, ac ennill cymhwyster newydd ar ei ddiwedd. Rwy'n hynod o ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen am fy nghynorthwyo a nghefnogi i astudio'r cwrs yma, a ngalluogi i astudio cyfnod eang iawn o hanes Cymru, gan ddysgu am gyfnodau a phynciau amrywiol, o hanes Geralit Gymro, y ddeunawfed ganrif yng Nghymru i gyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Cefais gyfle i arbenigo mewn hanes cymdeithasol yn ystod yr Ail Ryfel Byd yng Ngheredigion yn fy nhraethawd estynedig. Medrais gynnal ymchwiliad i gymunedau gwledig rhwng 1939-1945 gan ddarganfod a defnyddio llythyron a gyfnewidiwyd rhwng milwyr a'u teuluoedd yn y prosiect. Credaf fod yr ymchwiliad yma wedi ychwanegu at ein dealltwriaeth o gymunedau gwledig, Cymreig, yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Drwy astudio'r cwrs, cefais ehangu fy sgiliau academaidd, datblygu sgiliau cyfrifiadurol, casglu a nodi data a gwybodaeth, trefnu, a gweithio o dan bwysau. Trwy astudio'r cwrs ym Mhrifysgol Aberystwyth, roeddwn yn rhan o gymuned uwchraddedig y Brifysgol, ac roedd hyn yn cynnig cymorth a gwe gymunedol rhwng y myfyrwyr a'r darlithwyr.

Yn y dyfodol, hoffwn weithio ym maes hanes Cymru a hanes cymdeithasol, gan godi ymwybyddiaeth o hanes Cymru i bawb o bob oedran a chefndir. Hoffwn weithio mewn amgueddfa, er mwyn medru cyfleu'r hanes hynny sydd yn medru cael ei esgeuluso mewn addysg gyffredinol. Rwy'n sicr y bydd y sgiliau a'r hyn rwyf wedi ei ddysgu wrth astudio MA Hanes Cymru yn ehangu fy nghyfleoedd gwaith gan fy ngwneud yn fwy hyderus wrth ymgeisio am swyddi. Mae'r MA yma wedi bod o fudd enfawr i mi, ac wedi fy helpu'n fawr i ddewis fy nhaith gyrfa.

Siriol Jones

Ar ôl graddio o Brifysgol Bangor yn 2020 gyda Gradd Dosbarth Gyntaf yn y Gyfraith LLB, cefais fy nerbyn gan Brifysgol y Gyfraith, Caer ar y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol ac i astudio gradd Feistr yn y Gyfraith (LLM). Roeddwn yn ffodus o dderbyn grant Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen oedd yn fuddiol tuag at y ffioedd dysgu. Mae'r cwrs yn un hanfodol i'w gwblhau er mwyn ymgeisio am gytundeb hyfforddiant, ond mae'r cwrs yn un costus dros ben, ac felly roedd derbyn y grant yn gailuogi i mi wireddu fy ngobeithion o gwblhau'r cwrs.

Dwi wedi mwynhau pob eiliad o fywyd prifysgol ac yn sicr wedi ehangu fy sgiliau cyfreithiol ymhellach, o ysgrifennu cyfreithiol i waith llys. Yn ychwanegol i'r pwysau gwaith arferol, roedd heriau Covid-19 yn golygu fod derbyn profiad gwaith yn anodd, roedd rhaid cynnal sesiynau ar-lein, gyda gweithdai a chyfarfodydd yn rhithiol, cael arholiadau hefyd ar-lein, ac yn amlwg roedd yna ddiffyg ochr cymdeithasol i'r cwrs. Er hyn, llwyddais i gwblhau'r cwrs sydd yn sicr wedi fy mharatoi ar gyfer y byd gwaith ymarferol a sut i gymhwyso fy sgiliau ac addasu i'r gweithle.

Mae derbyn y cymorth ariannol gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen nid yn unig wedi rhoi'r cyfle i mi astudio'r cwrs ond hefyd wedi rhoi cymhelliant i mi lwyddo. Dwi'n ddiolchgar iawn am y grant ac yn credu ei fod wedi rhoi cyfleoedd ychwanegol i mi ac wedi bod yn rhan allweddol o fy natblygiad a'm taith fel cyfreithwraig.

Ciaran Eynon

Dim ond diolch cwbl ddiffuant sydd gen i yn sgil derbyn grant gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen i astudio MA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Caerdydd. Does dim dwywaith fod grantiau o'r fath yn hwb rhyfeddol i fyfyrwyr (ac nid hwb ariannol yn unig). Mae'n hawdd anghofio fod y grantiau hyn o fudd i'n sefydliadau mwyaf gwerthfawr ni heb sôn am fyfyrwyr ôl-raddedig eu hunain.

Coron ar waith y flwyddyn oedd cwblhau traethawd hir ar farddoniaeth LHDT+ y Gymraeg a hynny gan ganolbwyntio'n bennaf ar weithiau E. Prosser Rhys, Siôn Eirian, Mihangel Morgan a Gwynfor Dafydd. Rhoddodd y radd gyfle imi ymestyn fy sgiliau ysgrifennu creadigol hefyd – boed yn rhyddiaith neu'n farddoniaeth. Cefais yr amser a'r hwb i roi mhen i lawr i arbrofi, a gobeithio fod dod i'r tri uchaf yng nghystadlaethau'r Prif Lenor a'r Prifardd yn Eisteddfod T 2021 yn dyst fy mod o leiaf ar y trywydd iawn. Fyddai hyn heb fod yn bosib heb arweiniad craff fy nhiwtoriaid yng Nghaerdydd.

Braint oedd derbyn gwahoddiad yn ddiweddar gan Gyhoeddiadau'r Stamp i olygu cyfnodolyn barddonol newydd dan yr enw Ffosfforws. Edrychaf ymlaen at y profiad o gael cyd-weithio ag Elan Grug Muse a lestyn Tyne. Unwaith eto, heb y cwrs gradd, fyddai'r cyfle hwn heb godi'i ben.

Unwaith eto, diolch yn dalpie am gefnogaeth ysgoloriaeth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Hyderaf y daw nythaid newydd o fyfyrwyr i gael budd ohoni yn y blynyddoedd i ddod. Hir oes iddi.



Erin Gwyn Rossington

Ni allaf ddiolch digon i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am eu cymorth yn ystod fy nghyfnod yn astudio yn y Guildhall. Gyda'u cefnogaeth hwy, roeddwn yn gallu canolbwyntio'n llawn ar fy llais a pharatoi rhaglen newydd. Gan nad oedd yn rhaid i mi boeni am gyllid, llwyddais hefyd i weithio drwy drawsnewidiad llais ac ni fyddai hyn wedi bod yn bawdd heb y gefnogaeth. Roedd gen i hefyd ychydig o gyllid sbâr i astudio gyda thiwtor preifat a fu'n help mawr i ddatblygu'r llais. Buom yn gweithio ar dechneg ac anadlu, ac mae'r gwelliant i'w weld yn barod. Bûm yn canolbwyntio ar berfformiadau o olygfeydd opera a mynd i glyweliadau. Bu'r gefnogaeth yn wirioneddol werthfawr yn ystod blwyddyn anodd y COVID, a byddaf yn dragwyddol ddiolchgar iddynt am y cymorth.

Aron Môn

Cefais flwyddyn wych yn astudio datblygiad rhyngwladol ym Mhrifysgol Caeredin eleni. Roedd cychwyn y cwrs yn ddigidol yn sialens wrth i bawb geisio dod i'r arfer â'r fformat newydd, ond wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, daeth yn haws gweithredu a chydweithio yn effeithiol. Wrth i mi orffen fy ail semester a'r cyfyngiadau yn llacio, roeddwn yn medru manteisio ar nifer o gyfleusterau'r brifysgol fel llyfrgelloedd i weithio – a dianc o'r ystafell! Nid oedd modd ymuno mewn cymdeithasau na mynychu digwyddiadau'r brifysgol oherwydd cyfyngiadau Covid, ond efallai fod hyn wedi bod yn gymorth yn y pen draw o sylweddoli faint o waith oedd i'w gyflawni!

Roedd byw yng Nghaeredin yn brofiad bythgofiadwy. Mae'n debyg na fyddwn wedi medru mynychu prifysgol Caeredin i astudio am radd MSc heb gymorth caredig Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Dwi'n ddiolchgar tu hwnt am eu cymorth ariannol ac yn falch o'r cyfle i ymestyn fy addysg. Mae'r radd uwch hon wedi caniatáu i mi fod mewn safle cryfach wrth geisio dechrau gyrfa, a'r gobaith yw gweithio yn y sector datblygu tramor.

Grantiau i EGLWYSI

Mae Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen yn parhau i gefnogi eglwysi a chapeli ledled Cymru sy'n gwella ac adnewyddu eu hadeiladau. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i geisiadau lle mae'r gwaith yn gysylltiedig â datblygu bywyd a gwaith cenhadol yr eglwys ac ymwneud yr eglwys â'r gymuned o'i chwmpas. Bu'n gyfnod heriol iawn i eglwysi wrth iddynt geisio ymdopi â gwaddol y pandemig, a nifer fawr ohonynt yn llwyddo i feddwl mewn ffyrdd gwahanol am addoli a chadw cysylltiad â chynulleidfa a chymuned. Cytunodd Ymddiriedolwyr Pantyfedwen i gynnig grantiau bychain i helpu eglwysi i brynu offer neu adnoddau newydd er mwyn datblygu'r elfennau yma o'u gwaith, a chafwyd nifer o geisiadau am gymorth i brynu offer digidol a sgriniau a chyfrifiaduron.

Isod hefyd ceir blas o'r prosiectau a gwblhawyd – ar adeiladau ac o ran prynu offer ac adnoddau. Mae manylion pellach amdanynt i gyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth: www.jamespantyfedwen.cymru.

Eglwys New Life Aberteifi

Yn Nhachwedd 2019, derbyniodd Eglwys New Life, Aberteifi, grant oddi wrth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen i osod system larwm tân yn ei hadeilad. Roedd yr eglwys wedi penderfynu defnyddio hen archfarchnad yn y dref fel cartref, a bu'n rhaid gwneud llawer o waith addasu ar gyfer anghenion yr eglwys, gan gynnwys rhoi system larwm dân newydd sbon yn yr adeilad yn unol â rheolau adeiladu. Roedd yr eglwys yn ddiolchgar iawn i'r Ymddiriedolaeth am ei haelioni.

Nod cenhadol yr eglwys yw "rhannu cariad Iesu Grist â'r gymuned mewn nifer o ffyrdd ymarferol." Mae adeilad yr eglwys yn cael ei ddefnyddio'n helaeth iawn at bob math o bwrpasau: cynnal gwasanaethau, cyrddau gweddi a chlybiau pobl ifanc cyd-enwadol; y Banc Bwyd lleol; cyrsiau Alpha i'r gymuned; cwnsela Cristnogol; cynadleddau Cristnogol; sesiynau iachau; dosbarthiadau dysgu Cymraeg; ac mae'n gartref i brosiect ail-gylchu dodrefn.

Capel Bro Tegla

Yn ystod Mis Rhagfyr 2021, gyda chymorth hael grant Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, gosodwyd system loop ac uchelseinyddion yng Nghapel Bro Tegla, Llandegla. Bydd yr offer yn gaffaeliad mawr i fynychwyr yr adeilad ac yn adnodd ymarferol gwerthfawr i'r rhai sydd yn drwm eu clyw. Yn ogystal, y bwriad yw gwneud defnydd o'r Bluetooth fydd yn eu galluogi i gyflwyno cenhadaeth mewn ffyrdd newydd ac amrywiol, gan fod hefyd yn adnodd ychwanegol i grwpiau eraill o'r gymuned sy'n gwneud defnydd o'r adeilad.

Eglwys Gymunedol Bont Elim, Pontarddulais

Roedd Eglwys Bont Elim, Pontarddulais, yn awyddus i ffrydio eu gwasanaethau'n fyw a'u cyhoeddi ar Facebook ac Youtube, fel rhan o'u prosiect 'Church Without Walls'. Roeddent wedi ceisio gwneud hyn sawl tro yn y gorffennol, ond gan nad oedd ganddynt yr offer priodol, ni fu hyn yn llwyddiannus iawn, ac roedd yr hyn a ddarlledwyd o ansawdd gwael. Diolch i grant gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, aeth yr eglwys ati i brynu gliniadur, camera PTZ a byrddau sain, ac mae'r eglwys bellach yn gallu darlledu'n fyw deirgwaith yr wythnos. Gellir gweld rhai o'r gwasanaethau hyn ar sianel YouTube Eglwys Gymunedol Bont Elim.

Eglwys Fedyddiedig Ainon, Tongwynlais

Penderfynodd Eglwys Fedyddiedig Ainon yn Nhongwynlais y byddai'n braf trawsnewid neuadd yr eglwys er mwyn creu man cyfarfod mwy hyblyg, gyda chyfleusterau modern at ddefnydd yr eglwys a'r gymuned. Ar hyn o bryd, mae'r Hwb yn gartref i'r Ganolfan Ddosbarthu Banc Bwyd; Ton's Tots – grŵp rhiant a phlentyn; Clwb Cinio – pryd poeth a chwmni i'r rhai 55 oed a hŷn; Dydd Mercher Llesiant – man diogel i'r rhai sy'n chwilio am gyfeillgarwch neu sgwrs; a 'Cuppa with a Copper' – cyfle i gwrdd a thrafod materion lleol dros baned gydag aelodau o'r Heddlu. Mae Cyngor Sir Caerdydd hefyd yn cynnig cyngor ariannol, cyngor ar fyw'n annibynnol, Clybiau Gwaith, Gwasanaethau Byw'n Dda, a Chymorth Digidol. Mae trafodaethau pellach ar y gweill hefyd er mwyn ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys man casglu ailgylchu, banc dillad, sesiynau Bywydau Adferol ar gyfer y rhai sy'n cael trafferth wrth wynebu ysgariad neu dor-perthynas, cymorth ynglŷn â gwneud penderfyniadau wrth geisio byw'n iach a chynaliadwy, sesiynau 'Men's Sheds' yn cynnig cyfeillgarwch a gweithgareddau i ddynion, a fforymau Tai Cymdeithasol a Thenantiaid Cyngor.

Yn ôl arweinwyr yr eglwys, "ni fyddai dim o'r uchod wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth hael Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Diolch yn fawr am ein helpu ni i helpu eraill a gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae gweld yr adeilad yn llawn pobl o bob oed ac o bob rhan o'r gymuned yn olygfa hyfryd, ac mae'n anhygoel gweld effaith a dylanwad cael gofod newydd a hyblyg fel hwn."

Capel Bryngwenith, Henllan

Yn ystod 2021, roedd Capel Bryngwenith yn dathlu trigain mlynedd ers dechrau adeiladu'r festri, ac roedd yr aelodau'n awyddus i ail-wneud y lle, gan osod toiledau a chegin newydd a phrynu byrddau a chadeiriau esmwyth ac ymarferol. Ar hyd y blynyddoedd roedd yn rhaid defnyddio cyfleusterau yn y maes parcio, oedd braidd yn bell ac anghyfleus, ond bellach mae'r cyfleusterau oddi fewn i'r festri; tynnwyd y llwyfan oedd yn y brif neuadd ac adeiladu cegin newydd yn ei le, a gosod ffenestri gwydr clir i weld allan am y maes parcio. Gan fod y festri'n cael ei defnyddio'n helaeth gan yr eglwys a'r gymuned leol i wahanol weithgareddau, mae bellach yn adnodd cymunedol mwy gwerthfawr at ddefnydd y gymdogaeth gyfan. Bu'r aelodau'n ddyfal yn gweithredu syniadau difyr i godi arian mewn cyfnod anodd, ac roeddent yn ddiolchgar iawn i Bantyfedwen am gymorth hael i gwblhau'r gwelliannau.

Eglwys y Bedyddwyr Gilgal, Porthcawl

Ymddiswyddodd Roy Sharp fel Ymddiriedolwr ym mis Gorffennaf 2020, a diolchwyd iddo am ei gyfraniadau gwerthfawr i'r Pwyllgor Gweithredol dros ddau ddegawd a mwy. Apwyntiwyd Dr Eurfyl ap Gwilym yn ei le i wasanaethu'r Pwyllgor Gweithredol, ac fe'i croesawyd i'w gyfarfod cyntaf fis Tachwedd 2020. Mae gan Dr ap Gwilym gyfoeth o brofiad ac arbenigedd ariannol i'w gynnig. Bu'n gyfarwyddwr anweithredol a Dirprwy Gadeirydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality, a phery'n gadeirydd Ymddiriedolwyr Pensiwn y Principality. Mae wedi gwasanaethu fel aelod neu gadeirydd nifer o bwyllgorau archwilio a chydnabyddiaeth ariannol a bu'n aelod o Gomisiwn Llywodraeth y DG ar Ddatganoli yng Nghymru (y Comisiwn Silk).

Amcanion a gweithgareddau

Rydym wedi cyfeirio at y canllawiau a geir yn arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion ac wrth gynllunio ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a chynyddu'r cyfalaf o fuddsoddiadau sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau, gyda'r raddfa risg yn parhau yn ganolig-uchel fel sy'n gyson gyda dosbarthiad asedau sy'n pwyso'n drwm ar gyfranddaliadau.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

Roedd dechrau'r flwyddyn ariannol 2020-21 yn parhau'n drwm dan ddylanwad pandemig y coronafeirws, gyda llywodraethau'r byd yn cyflwyno amrywiol gyfnodau clo a rheoliadau llym. Roedd yr argyfwng iechyd wedi troi'n argyfwng ariannol enbyd. Erbyn dau chwarter olaf 2021 fodd bynnag, roedd y marchnadoedd wedi gwella'n sylweddol, wrth i ni groesawu dyfodiad brechlynau, gobeithio am ddiwedd i'r cyfyngiadau, a gweld y bunt yn cryfhau. Erbyn 31 Mawrth 2021 felly, roedd gwerth Prif Gronfa'r Ymddiriedolaeth wedi codi i £14,552,058, gan gynnwys £18,046 o arian parod, gyda'r Gronfa Wrth Gefn werth £1,614,147 yn cynnwys £7,530 o arian. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol felly, roedd cyfanswm cronfeydd Pantyfedwen wedi codi i £16,166,205 (£13,841,729:2020). Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn yr incwm o fuddsoddiadau yn ystod 2020-21 oherwydd dylanwad Covid-19; derbyniwyd cyfanswm o £475,315.18 yn ystod y flwyddyn gyfan. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i drosglwyddo £200,000 o'r Gronfa Wrth Gefn er mwyn gallu parhau i ddosbarthu grantiau a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

Arian wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno bod swm sy'n cyfateb, yn fras, i incwm blwyddyn lawn ar gael fel arian wrth gefn.

Cofrestr Risg

Yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau mae gan yr Ymddiriedolaeth gofrestr o risgiau posibl, sy'n rhestru'r prif fathau o risg sy'n debygol o effeithio'r Ymddiriedolaeth ac yn nodi polisïau fydd yn lleihau dylanwad y risgiau hyn. Adolygir y gofrestr yn gyson a chafwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2020.

Cyflawniadau a pherfformiad

Grantiau

Dyfarnwyd swm o £451,557 mewn grantiau yn ystod y flwyddyn. Talwyd swm o £450,043 mewn grantiau.

Talwyd y grantiau isod:

	2021 £
Adeiladau Crefyddol	**74,500**
Pwrpasau Addysgiadol (Myfyrwyr)	**353,759**
Eisteddfodau	**11,500**
Darlith Morlan-Pantyfedwen	**284**
Urdd Gobaith Cymru	**10,000**
	450,043

Cynhwysir manylion y grantiau a dalwyd i eglwysi (adeiladau) ac eisteddfodau fel atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ychwanegol talwyd grantiau i 79 o fyfyrwyr uwchraddedig i'w cynorthwyo gyda'r ffioedd dysgu hyd at uchafswm o £5,000 ymhob achos.

Adolygiad ariannol

Cyfanswm y derbyniadau yn ystod 2020-21 oedd £504,103 (2020: £709,057). Cyfanswm y gwariant elusennol uniongyrchol oedd £496,620 (2020: £577,827). Roedd costau rheoli'r cronfeydd yn £63,197 (2020: £68,669), a'r costau llywodraethu yn £4,853 (2020: £4,673)

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd gan yr Ymddiriedolaeth £85,085 yn ei Chronfa Adeiladau a Chyfarpar. Yn ystod y flwyddyn, gorffenwyd y gwaith ar Ystafell y Bwrdd, ail-blastrwyd ac ail-addurnwyd llawr uchaf yr adeilad ac un o swyddfeydd y llawr cyntaf, a gosodwyd drysau newydd ar y sied gefn, y cyfan ar gost o £70,925. Ym mhwyllgor Mawrth 2021, cytunodd yr Ymddiriedolwyr i drosglwyddo £30,000 ychwanegol i'r Gronfa Adeiladau ac Offer ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

Datganiad Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, datganiadau sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn, a'r modd y defnyddir adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu cymwys y DG, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion yr elusen a datgelu sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, y Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) perthnasol, a darpariaeth Gweithred yr Ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd y camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar 22 Gorffennaf 2021 ac fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

Gwerfyl Pierce Jones

Miss Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth a Chadeirydd y Pwyllgor Ceisiadau) Ymddiriedolwr

Gwenan Creunant

Ms Gwenan Creunant
Ysgrifennydd Gweithredol

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

Barn

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen (yr 'elusen') ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021; mae'r rhain yn cynnwys datganiad gweithgareddau ariannol, y fantolen, datganiad llif arian parod, a'r nodiadau perthnasol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Gyfunol, sy'n cynnwys FRS102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland" (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2021 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y defnyddiwyd adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) (SARh(DG)) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau ymhellach, yn ôl y safonau hynny, yn yr adran am gyfrifoldebau'r archwilydd am archwiliad y datganiadau ariannol o fewn yr adroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen, yn unol â gofynion moesegol perthnasol archwiliad datganiadau ariannol yn y DG, gan gynnwys Safon Moesegol yr FRC, ac rydym wedi cwblhau ein holl gyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr archwiliad yn ddigonol ac yn addas fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â'r elusen

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i berfformio, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg honno. mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen *(parhad)*

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

Gwybodaeth bellach

Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilwyr ar y rheiny. Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth bellach. Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth bellach, ac nid ydym yn dod i unrhyw fath o gasgliad arni oni bai fod hynny wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad.

Wrth gwblhau ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'n gyfrifoldeb arnom ddarllen y wybodaeth bellach, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth bellach yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gasglwyd gennym wrth baratoi'r archwiliad neu wedi ei gamgofnodi mewn modd sylweddol. Os sylwn ar anghysondebau neu gamgofnodi o'r math hwn, rhaid i ni benderfynu a oes yna gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol neu gamgofnod o unrhyw wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar ein gwaith ar yr archwiliad, fod yna gamgofnod neu gamddatganiad o'r wybodaeth arall yma, rhaid i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar yr uchod.

Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r elusen a'i hamgylchedd a gasglwyd gennym wrth wneud yr archwiliad, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni eich hysbysu os yw'r canlynol yn berthnasol yn ein barn ni:

- nid yw'r wybodaeth a geir yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r cofnodion yn y datganiadau ariannol; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a sicrhau eu bod yn cynnig golwg teg a gonest; maent hefyd yn gyfrifol am osod y rheolaeth fewnol y teimlant sydd ei hangen er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu, gan ddadlennu, yn ôl yr angen, unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnes a sail gyfrifyddol y busnes oni bai fod yr Ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r busnes i ben neu fod mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen *(parhad)*

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Ein nod yw gallu rhoi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant fod archwiliad a gwblhawyd yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG) bob amser yn llwyddo i ddarganfod camddatganiad. Gall camddatganiadau fod o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, yn un enghraifft neu'n lluosog, a chânt eu hystyried o bwys os gallant yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â fframwaith cyflwyno teg, i werthuso cyflwyniad cyffredinol, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

Y Defnydd o'n Hadroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r elusen, fel corff, yn unig, yn unol â rhan 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Gwnaethpwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn oedd yn gyfrifoldeb arnom i'w gynnwys yn adroddiad yr archwilwyr yn unig ac nid i unrhyw bwrpas arall. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb am unrhyw gorff heblaw am yr elusen, ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r farn a ffurfiwyd gennym.

Robert Gray (Uwch Archwilydd Statudol)

Ar ran
Cyfrifyddion Siartredig Francis Gray
Cyfrifydd Siartredig ac Archwilydd Statudol
Tŷ Madog
32 Heol y Frenhines
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HN

22 Gorffennaf 2021

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2021

	Nodyn	Cronfeydd anghyfyngedig	2021 Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd	2020 Cyfanswm cronfeydd
		£	£	£	£
Incwm a Gwaddolion					
Incwm o fuddsoddiadau	**4**	499,838	–	**499,838**	645,175
Incwm arall	**5**	(20,366)	24,631	**4,265**	63,882
Cyfanswm Incwm		479,472	24,631	**504,103**	709,057
Gwariant					
Gwariant ar godi arian:					
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi	**6**	63,197	–	**63,197**	68,669
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**7,8**	496,620	–	**496,620**	577,826
Gwariant arall	**11**	30,000	–	**30,000**	80,000
Cyfanswm Gwariant		589,817	–	**589,817**	726,495
Enillion / (Colledion) net ar fuddsoddiadau	**12**	257,543	2,339,198	**2,596,741**	(2,272,976)
Incwm / (Gwariant) net a Symudiadau mewn cronfeydd		147,198	2,363,829	**2,511,027**	(2,290,414)
Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill					
Enillion o ailbrisio asedau sefydlog		–	6,667	**6,667**	–
Symudiadau net yn y cronfeydd		147,198	2,370,496	**2,517,694**	(2,290,414)
Cysoni'r cronfeydd					
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		1,446,351	12,862,807	**14,309,158**	16,599,572
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen		1,593,549	15,233,303	**16,826,852**	14,309,158

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.
Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

31 Mawrth 2021

	Nodyn	2021 £	2021 £	2020 £
Asedau sefydlog				
Asedau sefydlog diriaethol	**16**		**140,000**	133,333
Buddsoddiadau Eiddo	**17**		**280,000**	266,667
Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	**18**		**16,140,629**	13,674,651
			16,560,629	14,074,651
Asedau cyfredol				
Dyledwyr	**19**	**3,225**		2,650
Arian yn y banc ac mewn llaw		**387,296**		456,161
		390,521		458,811
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	**20**	**79,694**		138,229
Asedau cyfredol net			**310,827**	320,582
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			**16,871,456**	14,395,233
Darpariaethau –				
Cronfa Adeiladau a Chyfarpar a Chyfrol	**21**		**44,604**	86,075
Asedau net			**16,826,852**	14,309,158
Cronfeydd yr elusen				
Cronfeydd cyfyngedig:				
Cronfa ailbrisio wrth gefn			**140,000**	133,333
Cronfeydd cyfyngedig eraill			**15,093,303**	12,729,474
Cronfeydd anghyfyngedig			**1,593,549**	1,446,351
Cyfanswm cronfeydd yr elusen	**23**		**16,826,852**	14,309,158

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'u hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi 22 Gorffennaf 2021. Fe'u harwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan:

Gwerfyl Pierce Jones

Miss Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth a Chadeirydd Y Pwyllgor Ceisiadau)
Ymddiriedolwr

D. Llwyd ~~

Yr Athro Derec Llwyd Morgan
(Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol)
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad Llifoedd Arian

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

	2021	2020
	£	£
Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Incwm / (gwariant) net	**2,511,027**	(2,290,414)
Addasiadau:		
Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau	**(2,596,741)**	2,272,976
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**(499,550)**	(644,096)
Llogau eraill sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	**(288)**	(1,079)
Llogau taladwy a thaliadau tebyg	**82**	82
Enillion a (cholledion) ar waredu buddsoddiadau	**(4,265)**	(63,882)
Newidiadau:		
Masnach a dyledwyr eraill	**(575)**	880
Masnach a chredydwyr eraill	**(58,535)**	(14,432)
Darpariaethau a buddion cyflogai	**(41,471)**	(27,354)
Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau	**(690,316)**	(767,319)
Llog dalwyd	**(82)**	(82)
Llog a dderbyniwyd	**288**	1,079
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredol	**(690,110)**	(766,322)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Buddrannau, llogau a rhenti o fuddsoddiadau	**499,550**	644,096
Ailbrisio ased sefydlog	**(13,333)**	–
Prynu buddsoddiadau	**(986,481)**	(2,412,043)
Derbyniadau o werthu buddsoddiadau	**1,103,616**	2,563,164
Addasiad llif arian buddsoddiadau	**17,893**	3,107
Arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**621,245**	798,324
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian a chyfwerthoedd arian	**(68,865)**	32,002
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r flwyddyn	**456,161**	424,159
Arian a chyfwerthoedd ar ddiwedd y flwyddyn	**387,296**	456,161

Mae'r nodiadau ar dudalennau 11 i 21 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau i'r datganiad ariannol

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

1. Gwybodaeth gyffredinol

Mae'r elusen wedi'i chofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr ac yn anghorfforedig.
Cyfeiriad swyddfa'r elusen yw Pantyfedwen, 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1DL.

2. Datganiad o Gydymffurfiad

Paratowyd y datganiadau ariannol yma yn unol ag FRS 12, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon', y Datganiad o Arferion a Argymhellir i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DG a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (SORP Elusennau (FRS102)) a Deddf Elusennau 2011.

3. Polisïau Cyfrifo

(a) Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail cost hanesyddol, a'u haddasu wedi ail-brisiant asedau a rhwymedigaethau a buddsoddiadau sy'n cael eu mesur ar werth teg drwy incwm a gwariant.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling gan mai dyma arian cyfred gweithredol yr elusen.

(b) Busnes gweithredol

Nid oes unrhyw ansicrwydd gwirioneddol ynglŷn â pharhad yr elusen.

(c) Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid weithiau amcangyfrif a llunio barn a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y symiau a nodir. Caiff yr amcangyfrifon a'r farn eu hadolygu'n gyson a'u seilio ar brofiad a ffactorau eraill, gan gynnwys digwyddiadau posib yn y dyfodol.

Effaith COVID-19

Cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd bandemig ar 11 Mawrth 2020 ac mae hyn yn parhau i effeithio ar y marchnadoedd ariannol y mae'r elusen yn dibynnu arnynt am ei hincwm difidendau.

(ch) Cyfrifeg y Gronfa

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr er mwyn hybu dibenion yr elusen.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig a glustnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer prosiect neu ymrwymiad penodol yn y dyfodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig naill ai yn gronfeydd incwm cyfyngedig neu'n gronfeydd gwaddol, ac yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr neu'r apêl wedi nodi cyfyngiadau penodol ar eu gwariant.

3. Polisiau Cyfrifo *(parhad)*

(d) Incwm

Cydnabyddir pob incwm y mae gan yr elusen hawl i'w dderbyn yn y datganiad o weithgareddau ariannol; mae'n debygol y bydd unrhyw fuddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r incwm yn dod i'r elusen ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Mae'r polisïau penodol canlynol yn berthnasol i gategorïau arbennig o incwm:

- Cydnabyddir rhoddion a grantiau pan geir tystiolaeth o hawl i'r rhodd, pan geir tebygolrwydd o dderbyn y rhodd, a phan ellir mesur y swm mewn modd dibynadwy.

- Cydnabyddir cymynroddion pan fod yna debygolrwydd o dderbyn y rhodd a bod yr hawl i'r rhodd wedi'i gadarnhau.

- Mesurir incwm o roddion ar werth teg y nwyddau, oni bai ei bod yn anymarferol ei fesur yn ddibynadwy; yn yr achosion hynny, nodir gwerth y gost i'r rhoddwr neu amcangyfrif o bris ail-werthu. Cydnabyddir cyfleusterau a gwasanaethau rhoddedig yn y cyfrifon unwaith y'u derbynnir os gellir mesur y gwerth mewn modd dibynadwy. Ni chynhwysir unrhyw symiau am gyfraniadau gwirfoddolwyr cyffredinol.

- Cydnabyddir unrhyw incwm o gytundebau am wasanaethau ar drosglwyddiad y gwasanaeth dan gytundeb. Fe'i nodir fel cronfa anghyfyngedig oni bai fod gofyn cytundebol iddo gael ei wario ar bwrpas penodol a'i ddychwelyd os na chaiff ei wario; yn yr achos hwn, fe'i cydnabyddir fel cronfa gyfyngedig.

(dd) Gwariant

Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau pan geir rhwymedigaeth. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw DAW na ellir ei hawlio yn ôl yn gyfan gwbl, ac fe'i dosberthir o dan y penawdau gweithgarwch ariannol perthnasol:

- Gwariant ar godi arian, yn cynnwys costau holl weithgareddau codi arian, digwyddiadau, gweithgareddau masnachol anelusennol a gwerthiant rhoddion.

- Gwariant ar weithgareddau elusennol, yn cynnwys holl gostau'r elusen a'r gweithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr elusen er mwyn y buddiolwyr, gan gynnwys y costau gweinyddol a'r costau llywodraethiant sydd yn ymwneud â'r gweithgareddau elusennol.

- Mae gwariant arall yn cynnwys unrhyw wariant nad yw'n ymwneud â chodi arian ar gyfer yr elusen nac yn rhan o'r gwariant ar weithgareddau elusennol.

Rhestrir y costau i gyd dan benawdau gwariant sy'n berthnasol i'r defnydd o'r adnodd. Mae costau uniongyrchol unrhyw weithgaredd unigol yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i'r gweithgaredd hwnnw. Os rhennir unrhyw gostau, cânt eu dosbarthu rhwng y gweithgareddau perthnasol mewn modd rhesymol a chyson ac mewn modd y gellir ei gyfiawnhau.

(e) Asedau diriaethol

Cofnodir asedau diriaethol yn ôl y gost wreiddiol, a'u nodi wedi hynny ar y gost wreiddiol, llai'r dibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad rhesymol. Cofnodir asedau diriaethol a gafodd ail-brisiant ar eu gwerth teg ar ddyddiad yr ail-brisiant llai unrhyw ddibrisiant a grynhowyd ac unrhyw leihad a grynhowyd wedi hynny.

Cofnodir unrhyw gynnydd mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu

3. Polisiau Cyfrifo *(parhad)*

golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod yn gwrthdroi unrhyw leihad sydd eisoes wedi ei gydnabod fel gwariant o fewn y datganiad o weithgareddau ariannol. Cofnodir unrhyw ostyngiad mewn gwerth ased o ganlyniad i ail-brisiant gydag unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill, oni bai ei fod wedi'i osod yn erbyn unrhyw enillion ail-brisiant blaenorol; yn yr achos hwnnw, nodir y gostyngiad gydag enillion neu golledion eraill ar y datganiad o weithgareddau ariannol.

(f) Dibrisiant

Cofnodir dibrisiant er mwyn dileu cost neu werth yr ased, llai ei werth gweddilliol, dros oes economaidd fuddiol yr ased fel a ganlyn:

- Dull ailbrisio

(ff) Buddsoddiadau

Cofnodir buddsoddiadau a restrir ar werth teg, gan nodi'r newidiadau mewn gwerth teg o fewn yr incwm a'r gwariant.

(g) Eiddo buddsoddi

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu cofnodi yn y lle cyntaf ar gost, sy'n cynnwys pris prynu ac unrhyw wariant y gellir ei briodoli yn uniongyrchol.

Mae buddsoddiadau eiddo yn cael eu hailbrisio i'w gwerth teg ar bob dyddiad adrodd ac unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm neu wariant.

Os nad oes mesur dibynadwy o werth teg bellach ar gael heb gost neu ymdrech gormodol ar gyfer eitem o fuddsoddiadau eiddo, bydd yn cael ei drosglwyddo i asedau diriaethol a'i drin felly hyd nes y disgwylir y gellir mesur gwerth teg mewn modd dibynadwy ar sail barhaus.

(ng) Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

Mae buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen yn cael eu gwneud yn gyfan gwbl i hyrwyddo nodau'r elusen drwy gyllido gweithgareddau penodol. Mesurir offerynnau ecwiti ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd os gellir eu mesur yn ddibynadwy neu am gost â lleihad.

(h) Amhariad asedau sefydlog

Cynhelir adolygiad ar gyfer dangosyddion amhariad ar bob dyddiad adrodd, ac amcangyfrifir y swm adferadwy lle mae dangosyddion o'r fath yn bodoli. Os yw'r gwerth cario yn fwy na'r swm adferadwy, caiff yr ased ei amharu yn unol â hynny. Adolygir namau blaenorol hefyd ar gyfer gwrthdro posibl ar bob dyddiad adrodd.

At ddibenion profi amhariad, pan nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adferadwy ased unigol, gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddo. Yr uned cynhyrchu arian yw'r grŵp lleiaf adnabyddadwy o asedau sy'n cynnwys yr ased ac sy'n cynhyrchu mewnlifoedd arian sy'n annibynnol yn bennaf o'r mewnlifiadau arian parod o asedau eraill neu grwpiau o asedau.

Ar gyfer profi amhariad ewyllys da, yr ewyllys da a gaffaelwyd mewn cyfuniad busnes yw, o'r dyddiad caffael, i bob un o'r unedau cynhyrchu arian y disgwylir iddynt elwa o synergeddau'r cyfuniad, ni waeth a yw asedau neu rwymedigaethau eraill y mae elusen yn cael ei neilltuo i'r unedau hynny

3. Polisiau Cyfrifo (*parhad*)

(i) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan yr elusen ymrwymiad ar y dyddiad adrodd i ddigwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad. Nodir darpariaethau fel rhwymedigaeth yn y datganiad o weithgareddau ariannol a swm y ddarpariaeth fel gwariant.

Mesurir y darpariaethau'n wreiddiol drwy amcangyfrif y swm fyddai ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd, a chaiff y swm ei adolygu ar bob dyddiad adrodd wedi hynny a'i addasu i adlewyrchu'r amcangyfrif gorau posib. Cofnodir unrhyw addasiadau i'r symiau blaenorol o fewn incwm a gwariant, oni bai fod y ddarpariaeth wedi'i chydnabod yn wreiddiol fel rhan o gost ased. Pan fo darpariaeth yn cael ei mesur ar werth cyfredol y swm y disgwylir y bydd ei angen i gydnabod y rhwymedigaeth, cydnabyddir dad-ddirwyn y disgownt fel cost ariannol yn y datganiad o weithgareddau ariannol o fewn y cyfnod perthnasol, a chaiff ei nodi o dan y pennawd gwariant addas.

(j) Offerynnau ariannol

Cydnabyddir ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn unig pan fydd yr elusen yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol yn wreiddiol am y swm sy'n dderbyniadwy neu'n daladwy, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n perthyn i'r gweithrediad.

Mesurir asedau cyfredol a rhwymedigaethau cyfredol dilynol am yr arian neu ystyriaeth arall a ddisgwylir i'w dalu neu'u derbyn a heb ddisgownt.

Mesurir offerynnau dyled dilynol ar gost amorteiddiedig.

Pan fydd buddsoddiadau mewn cyfranddaliadau yn cael eu masnachu'n gyhoeddus, neu pan fydd modd mesur eu gwerth teg yn ddibynadwy, mesurir y buddsoddiad wedi hynny ar werth teg gydag unrhyw newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod mewn incwm a gwariant. Mesurir pob buddsoddiad tebyg wedi hynny ar gost, llai gostyngiad.

Cydnabyddir offerynnau ariannol eraill, gan gynnwys deilliannau, ar werth teg, oni bai fod taliad am ased wedi ei ohirio y tu hwnt i dermau busnes arferol neu wedi'i gyllido ar raddfa llog nad yw'n gyfystyr â graddfa'r farchnad. Yn yr achos hwnnw, mesurir yr ased ar werth cyfredol taliadau'r dyfodol wedi'u lleihau yn unol â graddfa llog y farchnad am offeryn dyled tebyg.

Mesurir offerynnau ariannol eraill yn ddilynol ar werth teg, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu cydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol, heblaw am offerynnau rhagfantoli o fewn perthynas rhagfantoli ddynodedig.

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar gost neu gost amorteiddiedig yn cael eu hadolygu am dystiolaeth wrthrychol o leihad ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Os ceir tystiolaeth wrthrychol o leihad, cydnabyddir y lleihad o dan y pennawd perthnasol yn y datganiad o weithgareddau ariannol lle cydnabuwyd y cynnydd gwreiddiol.

Asesir pob offeryn ecwiti yn unigol am leihad, beth bynnag fo'u harwyddocad; gwneir yr un modd gydag asedau ariannol eraill sydd ag arwyddocad unigol. Asesir pob ased ariannol arall yn unigol neu mewn grŵp ar sail nodweddion risg ariannol tebyg.

Cofnodir unrhyw leihad a wrthdroir ar unwaith, fel nad oes modd i'r gwrthdroad olygu parhau swm yr ased ariannol sy'n fwy na'r swm petai'r lleihad heb ei gydnabod ynghynt.

3. Polisiau Cyfrifo (*parhad*)

(l) Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Cydnabyddir cyfraniadau i gynlluniau cyfraniadau diffiniedig fel gwariant yn y cyfnod y darperir y gwasanaeth perthnasol. Cydnabyddir cyfraniadau a rag-dalwyd fel ased i'r graddau y bydd y rhag-daliad yn arwain at leihad mewn taliadau yn y dyfodol neu ad-daliad arian parod.

Pan nad oes disgwyl i gyfraniadau gael eu talu'n llawn o fewn 12 mis i ddiwedd y cyfnod pan ddisgwylir i'r cyflogeion ddarparu'r gwasanaeth perthnasol, mesurir y rhwymedigaeth ar sail y gwerth cyfredol disgowntedig. Bydd dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel gwariant yn y cyfnod pan fo'n digwydd.

4. Incwm o Fuddsoddiadau

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2021**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2020
	£	**£**	£	£
Pantyfedwen, Stryd y Farchnad, Aberystwyth – Incwm Rhent	24,235	**24,235**	26,833	26,833
Incwm o fuddsoddiadau	475,315	**475,315**	617,263	617,263
Llog a dderbynnir	288	**288**	1,079	1,079
	499,838	**499,838**	645,175	645,175

Mae incwm Pantyfedwen yn cynnwys ynghyd ag incwm rhent tymor hir, yr incwm o logi man cyfarfod.

5. Incwm arall

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2021**
	£	£	**£**
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	(20,366)	24,631	**4,265**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2020**
	£	£	£
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	10,285	53,597	63,882

6. Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2021**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2020
	£	**£**	£	£
Rheoli portffolio	63,197	**63,197**	68,669	68,669

7. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl cronfa

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2021**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2020
	£	**£**	£	£
Grantiau taladwy	386,653	**386,653**	465,307	465,307
Costau gweinyddol	109,967	**109,967**	112,519	112,519
	496,620	**496,620**	577,826	577,826

8. Gwariant ar weithgareddau elusennol yn ôl gweithgaredd

	Ariannu gweithgaredd-au grant	Costau gweinyddol	**Cyfanswm cronfeydd 2021**	Cyfanswm cronfeydd 2020
	£	£	**£**	£
Grantiau taladwy	386,653	105,032	**491,685**	570,678
Costau llywodraethiant	–	4,935	**4,935**	7,148
	386,653	109,967	**496,620**	577,826

9. Dadansoddiad o gostau gweinyddol

	Costau gweinyddol - cyllid grant	**Cyfanswm 2021**	Cyfanswm 2020
	£	**£**	£
Costau gweinyddol - Staff	94,852	**94,852**	93,567
Costau gweinyddol - Adeilad	10,180	**10,180**	11,804
Costau llywodraethiant – Costau cyllid	82	**82**	82
Costau llywodraethiant – Ffioedd proffesiynol	4,853	**4,853**	4,673
Costau llywodraethiant - Costau cyfarfodydd Ymddiriedolwyr a'u treuliau	–	**–**	2,393
	109,967	**109,967**	112,519

10. Dadansoddiad o grantiau

	2021	2020
	£	£
Grantiau i sefydliadau		
Grantiau i adeiladau crefyddol ac elusennau	**69,000**	69,000
Grantiau i Eisteddfodau	**(41,893)**	80,731
Grantiau i Urdd Gobaith Cymru	**10,000**	6,800
Grantiau i Ddarlith Morlan-Pantyfedwen	**284**	221
	37,391	156,752
Grantiau i unigolion		
Grantiau i fyfyrwyr	**349,262**	308,555
Grantiau taladwy	**386,653**	465,307

11. Gwariant arall

	Cronfeydd anghyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2021**	Cronfeydd anghyfyngedig	Cyfanswm cronfeydd 2020
	£	**£**	£	£
Trosglwyddiad i'r Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	30,000	**30,000**	80,000	80,000

12. Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2021**
	£	£	**£**
Enillion/(Colledion) ar asedau sefydlog diriaethol	13,333	–	**13,333**
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	244,210	2,339,198	**2,583,408**
	257,543	2,339,198	**2,596,741**

	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	**Cyfanswm cronfeydd 2020**
	£	£	£
Enillion/(Colledion) ar asedau sefydlog diriaethol	–	–	–
Enillion/(Colledion) ar asedau buddsoddi eraill	(200,055)	(2,072,921)	(2,272,976)
	(200,055)	(2,072,921)	(2,272,976)

13. Cydnabyddiaeth archwilwyr

	2021	2020
	£	£
Ffioedd yn daladwy am archwilio'r datganiadau ariannol	**2,500**	2,500

14. Costau staff

Mae cyfanswm costau staff a buddion cyflogeion am y cyfnod adrodd fel a ganlyn:

	2021	2020
	£	£
Cyflogau a thaliadau	**81,829**	79,969
Costau nawdd cymdeithasol	**4,868**	5,654
Cyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau pensiwn	**8,155**	7,944
	94,852	93,567

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 2 staff yn ystod y flwyddyn (2020: 2).

	2021	2020
	Nif.	Nif.
Number of staff	**2**	2

Ni dderbyniodd unrhyw aelod o staff cyflogedig fuddion cyflogaeth o fwy na £60,000 yn ystod y flwyddyn (2020: Nil).

15. Cydnabyddiaeth a chostau Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr Ymddiriedolwyr dâl na buddion cyflogaeth eraill gan yr elusen neu gorff perthnasol.

16. Asedau sefydlog diriaethol

	Eiddo rhydd-ddaliad £
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2020	**214,211**
Ail-prisiant	**6,667**
31 Mawrth 2021	**220,878**
Dibrisiant	
1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021	**80,878**
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2021	**140,000**
31 Mawrth 2020	133,333

Asedau sefydlog diriaethol a gafodd eu prisio

Ail-prisiwyd yr eiddo a elwir yn 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth, yn £420,000 gan Iestyn Leyshon, FRICS, o Lloyd Herbert & Jones, Chwefror 2021. Mae ail-brisiad yr asedau wedi cael ei gydnabod yn gymesur â defnydd y gofod yng ngweinyddiaeth gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth. (Gweler nodyn 17)

17. Buddsoddiadau

	Buddsoddia-dau eiddo £
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2020	**266,667**
Ail-prisiant	**13,333**
31 Mawrth 2021	**280,000**
Lleihad	
1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020	
Swm i'w gario ymlaen	
31 Mawrth 2021	**280,000**
31 Mawrth 2020	266,667

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddangosir uchod yn cael eu dal ar eu prisiant.

Buddsoddiadau eiddo

Yn ôl FRS 102 (paragraff 16.4), mae 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth yn eiddo aml-ddefnydd ac felly rhaid gwahanu'r defnydd ohono yn eiddo rhydd-ddaliadol ac eiddo buddsoddi. Gan fod yr Ymddiriedolaeth yn derbyn incwm rhent ar hyn o bryd am 2 o'r 3 llawr penderfynwyd rhannu'r prisiad yn ôl y gyfran hon. (Gweler nodyn 16)

18. Buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen

	£
Cost neu brisiant	
1 Ebrill 2020	**13,674,651**
Ychwanegiadau	**986,481**
Gwarediadau	**(1,099,351)**
Ail-brisiant	**2,583,408**
Cydraddoli	**(4,560)**
31 Mawrth 2021	**16,140,629**

Oherwydd effaith Covid 19 ledled y byd, roedd prisiad y portffolio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol yn sylweddol is na'r disgwyl yn wreiddiol, mae'r portffolio wedi parhau i wella dros y flwyddyn ariannol ganlynol.

19. Dyledwyr

	2021	2020
	£	£
Dyledwyr eraill	**3,225**	2,650

Mae dyledwyr eraill yn cynnwys treth a ddidynnwyd yn wreiddiol o'r incwm buddsoddi, ond sydd i'w ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

20. Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn

	2021	2020
	£	£
Croniadau ac incwm gohiriedig	**4,825**	4,825
Incwm gohiriedig gan y GIG	**4,855**	–
Credydwyr eraill	**70,014**	133,404
	79,694	138,229

Mae credydwyr eraill yn cynnwys y grantiau sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

	2021 £	**2021** £	2020 £	2020 £
Grantiau taladwy a ddygwyd ymlaen		**133,404**		133,649
Grantiau awdurdodwyd yn y flwyddyn	**451,557**		467,307	
Grantiau nad ydynt bellach yn daladwy / i'w had-dalu	**(64,904)**		2,497	
		386,653		469,804
Cyfanswm y grantiau taladwy		**520,057**		603,453
Grantiau a dalwyd		**(450,043)**		(470,049)
Grantiau taladwy ar 31 Mawrth		**70,014**		133,404

21. Darpariaethau

	Cronfa Adeiladau a Chyfarpar £	Llyfr – Syr D J James £	**Cyfanswm £**
1 Ebrill 2020	85,085	990	**86,075**
Ychwanegiadau	30,000	–	**30,000**
Tâl yn erbyn y ddarpariaeth	(70,925)	(546)	**(71,471)**
31 Mawrth 2021	44,160	444	**44,604**

22. Pensiynau a buddion eraill wedi ymddeol

Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Y swm a gydnabyddir fel incwm neu wariant o dan gost cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yw £8,155 (2020: £7,944).

23. Dadansoddiad o gronfeydd yr elusen

Cronfeydd anghyfyngedig

	1 Ebrill 2020 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2021 £**
Cronfeydd anghyfyngedig	1,446,351	479,472	(589,817)	257,543	**1,593,549**

	1 Ebrill 2019 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2020 £**
Cronfeydd anghyfyngedig	1,717,441	655,460	(726,495)	(200,055)	1,446,351

23. Dadansoddiad o gronfeydd yr elusen (*parhad*)

Cronfeydd cyfyngedig

	1 Ebrill 2020 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2021 £**
Cronfeydd cyfyngedig	12,729,474	24,631	–	2,339,198	**15,093,303**
Cronfa ailbrisio wrth gefn	133,333	–	–	6,667	**140,000**
	12,862,807	24,631	–	2,345,865	**15,233,303**

	1 Ebrill 2019 £	Incwm £	Gwariant £	Enillion a cholledion £	**31 Mawrth 2020 £**
Cronfeydd cyfyngedig	14,748,798	53,597	–	(2,072,921)	12,729,474
Cronfa ailbrisio wrth gefn	133,333	–	–	–	133,333
	14,882,131	53,597	–	(2,072,921)	12,862,807

24. Dadansoddiad o asedau net rhwng cronfeydd

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2021 £**
Asedau sefydlog diriaethol	–	420,000	**420,000**
Buddsoddiadau	1,606,617	14,534,012	**16,140,629**
Asedau cyfredol net	111,230	279,291	**390,521**
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(79,694)	–	**(79,694)**
Darpariaethau	(44,604)	–	**(44,604)**
Asedau Net	1,593,549	15,233,303	**16,826,852**

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	**Cyfanswm cronfeydd 2020 £**
Asedau sefydlog diriaethol	–	400,000	400,000
Buddsoddiadau	1,594,767	12,079,884	13,674,651
Asedau cyfredol net	75,888	382,923	458,811
Credydwyr: symiau sy'n disgyn o fewn blwyddyn	(138,229)	–	(138,229)
Darpariaethau	(86,075)	–	(86,075)
Asedau Net	1,446,351	12,862,807	14,309,158

25. Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

	1 Ebrill 2020 £	Llif Arian £	**31 Mawrth 2021 £**
Arian yn y banc ac mewn llaw	456,161	(68,865)	**387,296**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Gwybodaeth Rheoli

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

Nid yw'r tudalennau canlynol yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2021

	2021 £	2020 £
Incwm a gwaddolion		
Incwm o fuddsoddiadau		
Pantyfedwen, Stryd y Farchnad, Aberystwyth – Incwm Rhent	**24,235**	26,833
Incwm o fuddsoddiadau	**475,315**	617,263
Llog banc taladwy	**288**	1,079
	499,838	645,175
Incwm arall		
Enillion ar waredu buddsoddiadau cysylltiedig â rhaglen	**4,265**	63,882
Cyfanswm incwm	**504,103**	709,057
Gwariant		
Ffioedd Rheolwyr Buddsoddi		
Rheoli portffolio	**63,197**	68,669
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Cyflogau a thaliadau	**81,829**	79,969
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**4,868**	5,654
Costau pensiwn	**8,155**	7,944
Costau gweinyddol eraill	**11,245**	13,587
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	**4,853**	7,066
Llogau a chostau tebyg	**82**	82
Grantiau taladwy	**386,653**	465,307
Gwariant a adferwyd	**(1,065)**	(1,783)
	496,620	577,826
Gwariant arall		
Trosglwyddiad i Gronfa Adeiladau a Chyfarpar	**30,000**	80,000
Cyfanswm gwariant	**589,817**	726,495
Enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau		
Enillion/(colledion) ar asedau sefydlog diriaethol	**13,333**	–
Enillion / (colledion) ar asedau buddsoddi eraill	**2,583,408**	(2,272,976)
	2,596,741	2,272,976
Incwm / (gwariant) net	**2,511,027**	(2,290,414)

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau i'r datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2021

	2021 £	2020 £
Gwariant ar weithgareddau elusennol		
Grantiau taladwy		
Gweithgareddau cyllido grantiau		
Grantiau taladwy	**386,653**	465,307
Costau cymorth		
Costau cymorth - Cyflogau a thaliadau	**81,829**	79,969
Costau cymorth - Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr	**4,868**	5,654
Costau cymorth - Costau pensiwn	**8,155**	7,944
Costau cymorth - Costau gweinyddol eraill	**11,245**	13,587
Costau cymorth- Gwariant a adferwyd	**(1,065)**	(1,783)
	105,032	105,371
Costau llywodraethiant		
Costau llywodraethiant - Ffioedd cyfrifyddion	**2,353**	2,173
Costau llywodraethiant - Ffioedd archwilwyr	**2,500**	2,500
Costau cymorth - Treuliau ymddiriedolwyr a chostau cyfarfodydd	**–**	2,393
Costau cymorth - Llogau a chostau tebyg	**82**	82
	4,935	7,148
Gwariant ar weithgareddau elusennol	**496,620**	577,826

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau i'r datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2021

Rhestr y grantiau dalwyd i adeiladau eglwysi yn ystod 2020/21

Yr Eglwys yng Nghymru			
	Eglwys Santes Fair yr Wyryf, Brynmawr	4,000.00	
	Eglwys San Cynwyd	2,000.00	
	Eglwys Sant Iago, y Wig	1,500.00	
	Eglwys y Drindod Sanctaidd, Ystrad Mynach	1,000.00	
	Eglwys yr Urban Crofters, Rhâth	4,000.00	
	Eglwys Sant Illtud, Pentre'r Eglwys	4,000.00	
	Eglwys San Pedr, Rhŵs	10,000.00	
			£26,500.00
Bedyddwyr			
	Eglwys Fedyddiedig Mynydd Seion, Aberteifi	2,000.00	
	Eglwys Fedyddiedig Bethesda, Arberth	10,000.00	
			£12,000.00
Annibynwyr			
	Capel Bethania, Tymbl	3,000.00	
	Capel Bryngwenith, Henllan	4,000.00	
			£7,000.00
Yr Eglwys Fethodistaidd			
	Eglwys Fethodistaidd Sant Paul, Aberystwyth	4,000.00	
			£4,000.00
Eglwysi Eraill			
	Eglwys Gymunedol y Graig, Gilfach Goch	4,000.00	
	Eglwys Bont Elim, Pontarddulais	1,000.00	
	Eglwys Gymunedol Bethel, Casnewydd	12,000.00	
	Eglwys Calfari, Hwlffordd	8,000.00	
			£25,000.00

Rhestr y grantiau dalwyd i Eisteddfodau yn 2020/21

Eisteddfod Genedlaethol Cymru - Eisteddfod AmGen	**£11,500.00**
Eisteddfod T 2021	**£10,000.00**

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

Nodiadau i'r datganiad manwl o'r gweithgareddau ariannol

31 Mawrth 2021

Signature: GPJones
GPJones (Aug 19, 2021 11:40 GMT+1)

Email: gwerfylpj@googlemail.com

Signature: D.Llwyd
D.llwyd (Aug 23, 2021 12:12 GMT+1)

Email: derecllwyd@hotmail.co.uk

Signature: Gwenan Creunant
Gwenan Creunant (Aug 27, 2021 12:52 GMT+1)

Email: post@jamespantyfedwen.cymru

Francis Gray

Cyfrifwyr Siartredig
Chartered Accountants

Ty Madog
32 Queens Road
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HN

T 01970 625754
F 01970 625949
E office@francisgray.co.uk
W www.francisgray.co.uk

J034/CS/RG

22 Oct. 21

The Board of Trustees
James Pantyfedwen Foundation
9 Stryd y Farchnad
Aberystwyth
SY23 1DL

Dear Sirs,

We have audited the financial statements of The James Pantyfedwen Foundation (the 'charity') for the year ended 31 March 2021 which comprise the statement of financial activities, statement of financial position, statement of cash flows and the related notes, including a summary of significant accounting policies. The financial reporting framework that has been applied in their preparation is applicable law and United Kingdom Accounting Standards, including FRS 102 The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice).

In our opinion the financial statements:

- give a true and fair view of the state of the charity's affairs as at 31 March 2021 and of its incoming resources and application of resources, including its income and expenditure, for the year then ended;
- have been properly prepared in accordance with United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice;
- have been prepared in accordance with the requirements of the Charities Act 2011.

We conducted our audit in accordance with International Standards on Auditing (UK) (ISAs (UK)) and applicable law. We are independent of the charity in accordance with the ethical requirements that are relevant to our audit of the financial statements in the UK, including the FRC's Ethical Standard, and we have fulfilled our other ethical responsibilities in accordance with these requirements. We believe that the audit evidence we have obtained is sufficient and appropriate to provide a basis for our opinion.

In the light of the knowledge and understanding of the charity and its environment obtained in the course of the audit, we have not identified material misstatements in the trustees' report.

In auditing the financial statements, we have concluded that the trustees' use of the going concern basis of accounting in the preparation of the financial statements is appropriate.

Based on the work we have performed, we have not identified any material uncertainties relating to events or conditions that, individually or collectively, may cast significant doubt on the charity's ability to continue as a going concern for a period of at least twelve months from when the financial statements are authorised for issue.

Yours Sincerely,

Robert J Gray (Senior Statutory Auditor)

ICAEW CHARTERED ACCOUNTANTS

Director: **Robert Gray** F.C.A.
Francis Gray is a trading name of **Francis Gray Limited**
Registered Office: Ty Madog, 32 Queens Road, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HN
Registered in England and Wales. Company No. 4345299. VAT. Reg. No. 434 0215 96
Registered to carry out audit work in the UK by ICAEW.
Registered auditor C009181544.